**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddCyllid

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Crynodeb o'r Argymhellion a'r Casgliadau ..... 7

1. Cyflwyniad ..... 10

2. Ymgynghoriad y Pwyllgor ar Fil drafft ..... 12

3. Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun ..... 14

4. Ymdrin â chwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus ..... 23

5. Ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat ..... 26

6. Awdurdodau rhestredig ..... 30

7. Cyfnod anghymhwyso ..... 33

8. Materion eraill ..... 35

9. Goblygiadau Ariannol ..... 38

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 40

Atodiad A: Drafft Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ..... 42

Atodiad B: Drafft Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Nodiadau Esboniadol ..... 116

Atodiad C: Telerau penodi a chyfnodau anghymhwyso ar gyfer amryw swyddi cyhoeddus yng Nghymru ..... 128

## Rhagair y Cadeirydd

Ym mis Ionawr 2015, dechreuodd y Pwyllgor Cyllid ystyried rolau a phwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn sgil ein hymchwiliad cychwynnol Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gofynnodd yr Ombwdsmon presennol a'i ragflaenydd a ellid diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli'r swydd, sef Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yr oedd yn fwriad gennym, pe byddai'r dystiolaeth o blaid ymestyn pwerau'r Ombwdsmon, y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried cyflwyno Bil Pwyllgor.

Clywsom yn ein hymchwiliad cychwynnol fod rôl bresennol yr Ombwdsmon yn gweithio'n effeithiol a bod Deddf 2005 yn cael ei hystyried, ar y cyfan, yn ddarn enghreifftiol o ddeddfwriaeth ar gyfer Ombwdsmyn ledled y byd. Fodd bynnag, gan fod deng mlynedd wedi mynd heibio bellach ers Deddf 2005, cawsom ein perswadio gan y dystiolaeth a ddaeth i law bod angen cryfhau rôl yr Ombwdsmon a diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol i sicrhau ei bod yn rhoi'r lle blaenaf i ddinasyddion.

Yn hytrach na diwygio Deddf 2005, roeddem o'r farn y dylai rôl yr Ombwdsmon gael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth Gymreig. Ein nod oedd creu un darn o ddeddfwriaeth ddwyieithog a fyddai'n diddymu Deddf 2005 (o ran Cymru), a thrwy hynny helpu i gydgrynhoi llyfr statud Cymru.

Roeddem hefyd yn awyddus i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth arfaethedig.  Felly, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar gynnwys a strwythur Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ar y cyfan, yn gefnogol iawn i'r darpariaethau yn y Bil drafft a gwnaethant gyfraniadau ac awgrymiadau gwerthfawr i wella'r ddeddfwriaeth. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ymatebion, a diweddarwyd y Bil yn unol â hwy. Yn anffodus, gan nad

oedd digon o amser yn weddill yn y Pedwerydd Cynulliad, ni lwyddwyd i gyflwyno'r Bil drafft yn y Cynulliad hwn.

Mae gan yr Ombwdsmon ran allweddol o ran sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd o'r farn ei fod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd camweinyddu neu fethiant gan gorff cyhoeddus, yn gallu gwneud cwyn gyda'r sicrwydd y bydd yr Ombwdsmon yn ymdrin yn deg ac yn annibynnol â'r gŵyn. Oherwydd hyn, gobeithiwn yn fawr y caiff y ddeddfwriaeth hon ei chyflwyno yn ystod y Pumed Cynulliad, ac y bydd ei gweithredu yn cyfoethogi rôl yr Ombwdsmon ac yn cynyddu hyder y cyhoedd yng Nghymru.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith sylweddol ar y ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Bu eich cyfraniad yn amhrisiadwy.



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor

## Crynodeb o'r Argymhellion a'r Casgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol gyflwyno'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft cyn gynted â phosibl yn y Pumed Cynulliad. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe byddai'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft yn cael ei gyflwyno, y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru weithio gyda Chomisiynwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i lunio protocolau rhannu gwybodaeth. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfrannu tystiolaeth i Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gydfynd â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft y gellir ei olrhain mewn cyllidebau a gyflwynir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol. (Tudalen 39)

**Casgliad 1.** O ran yr holl ymchwiliadau, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:

- rhoi pŵer i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru weithio gyda rheoleiddwyr (fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a'r holl gomisiynwyr a chynghorwyr statudol a gaiff eu creu gan Ddeddfau Cynulliad yn y dyfodol, er mwyn ymdrin â materion yn effeithiol ac yn gydlynus;
- caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun pa un a yw'r ymchwiliad hwnnw'n ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl hynny. (Tudalen 22)

**Casgliad 2.** Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch adrannau 33 i 39 (Awdurdodau rhestredig: gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion). Nododd y Pwyllgor fod y Bil drafft yn darparu na fyddai'n rhaid i awdurdodau rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol ymdrin â chwynion i'r graddau y bo'r weithdrefn honno yn anghyson ag unrhyw ofyniad statudol i fod â gweithdrefn ymdrin â

chwynion. Felly, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r Bil drafft fel y'i lluniwyd. (Tudalen 25)

**Casgliad 3.** O ran ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:

- dylid ehangu'r diffiniad o "wasanaethau iechyd preifat" i gwmpasu triniaeth feddygol a gofal nyrsio;
- dylid cynnwys adran newydd, Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, er mwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru roi hysbysiad adennill costau i ddarparwr gofal iechyd preifat fel ffordd o adennill y costau ychwanegol yr aeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru iddynt pan fo'r darparwr wedi rhwystro ymchwiliad yr Ombwdsmon. (Tudalen 29)

**Casgliad 4.** O ran yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 o'r Bil drafft, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:

- dylai'r rheolau ar ddiwygio'r rhestr yn Atodlen 3 fod yr un peth â'r rhai sydd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (hynny yw, y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir ychwanegu person at y rhestr yn Atodlen 3);
- dylid cynnwys y cyrff canlynol fel awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3:
  - Byrddau Cadwraethwyr Coity Walia;
  - Awdurdodau harbwr;
  - Awdurdodau porthladd;
  - Cymwysterau Cymru;
  - Bwrdd Cadwraethwyr Towyn Trewan;
  - Swyddfa Archwilio Cymru;
  - Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;
  - Awdurdod Refeniw Cymru. (Tudalen 31)

**Casgliad 5.** O ran y cyfnod anghymhwyso, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newid canlynol i destun y Bil drafft:

- dylai cyfnod anghymhwyso Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (neu'r Ombwdsmon dros dro) o restr o rolau

amrywiol barhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd yr Ombwdsmon â dal y swydd.

(Tudalen 34)

**Casgliad 6.** Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid dod â gofal cymdeithasol a lliniarol o fewn y broses ymchwilio brif ffrwd, ar ôl adlewyrchu a thrafod ymhellach, penderfynodd y Pwyllgor gadw gofal cymdeithasol a lliniarol fel cyfundrefn annibynnol. Y rheswm am hyn yw natur benodol gofal cymdeithasol a lliniarol, a'r ffaith y byddai uno'r ddwy gyfundrefn yn creu un gyfundrefn gymhleth a dyrys iawn. Felly, mae'n well gan y Pwyllgor y dull a fabwysiadwyd yn y Bil drafft sy'n darparu ar gyfer dwy gyfundrefn ymchwilio ar wahân, ond clir.

(Tudalen 37)

**Casgliad 7.** O ran y Gymraeg, ac adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:

- adran newydd i roi dyletswydd ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg;
- adran newydd sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ar ôl pum mlynedd o'r dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol, ac adolygiadau pellach ar ôl hynny, fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(Tudalen 37)

# 1. Cyflwyniad

### *Cefndir*

1. Ar 21 Ionawr 2015, cytunodd Y Pwyllgor Cyllid "y Pwyllgor" i gynnal ymchwiliad Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2. Roedd yr ymchwiliad hwn yn dilyn galwadau oddi wrth Peter Tyndall, cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru "yr Ombwdsmon", a Nick Bennett, yr Ombwdsmon presennol, y dylid cryfhau'r rôl.

3. Yn ystod yr ymchwiliad cyntaf hwn, cytunodd y Pwyllgor i ystyried ymestyn pwerau'r Ombwdsmon, a phe byddai'r dystiolaeth o blaid ymestyn y pwerau, byddai'r Pwyllgor yn ystyried cyflwyno Bil Pwyllgor.

### Dull y Pwyllgor o weithredu

4. Rhwng 26 Ionawr a 20 Mawrth 2015, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i'w gynorthwyo yn ei waith, a daeth 43 ymateb i law.

5. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cychwynnol a gwnaeth 18 argymhelliad i wella a chryfhau rôl yr Ombwdsmon. Yn ogystal â'r adroddiad ffurfiol, darparodd y Pwyllgor grynodeb o'i ymchwiliad.

6. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno Bil i'r Cynulliad i ymestyn rôl yr Ombwdsmon. Roedd prif argymhellion y Pwyllgor i gryfhau'r rôl yn cynnwys y canlynol:

- pŵer i gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun; wrth arfer y pŵer hwn, rhaid bod digon o dystiolaeth i gefnogi ymchwiliad a rhaid ymgynghori â Chomisiynwyr, rhanddeiliaid perthnasol ac unrhyw berson arall sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol;
- disgresiwn llawn i'r Ombwdsmon benderfynu sut y gellir gwneud cwynion a rhaid cyhoeddi canllawiau yn pennu'r dulliau sy'n dderbyniol (gan ganiatâu hyblygrwydd i ymateb i newid yn y dulliau cyfathrebu yn y dyfodol);
- rôl statudol i'r Ombwdsmon o ran ymdrin â chwynion, gan gynnwys darpariaeth i gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol ar

gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig; gofyniad i ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid perthnasol; gofyniad i gyrff cyhoeddus gasglu a dadansoddi data ynghylch cwynion, a sicrhau y caiff iaith safonol ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus wrth gasglu data i sicrhau y gellir gwneud cymariaethau;

- ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon fel y gall ymchwilio i'r gŵyn gyfan pan gafwyd cyfuniad o driniaeth gan ddarparwyr gofal iechyd cyhoeddus a phreifat, a phan gychwynnwyd y driniaeth honno yn y GIG.

7. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion eraill i gefnogi'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- gofyniad i'r Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru dalu sylw i safbwyntiau ei gilydd cyn arfer y swyddogaethau perthnasol, a chydweithredu â'i gilydd i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer arfer y swyddogaethau hynny'n effeithiol;
- cydweithio a chydlafurio â Chomisiynydd Plant Cymru mewn modd tebyg i'r hyn sy'n gymwys ar hyn o bryd i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

# 2. Ymgynghoriad y Pwyllgor ar Fil drafft

## *Cefndir*

8. Ar 13 Mai 2015, cytunodd y Pwyllgor i baratoi Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft ac ymgynghori yn ei gylch. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Bil ailddeddfu rhan helaeth o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 "Deddf 2005"[1], a chynnwys yr argymhellion a wnaed yn ei adroddiad cychwynnol.

### Dull y Pwyllgor o weithredu

9. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ymwneud yn llawn â'r cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth arfaethedig a'r bwriadau polisi. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad 12 wythnos, rhwng 21 Hydref 2015 ac 18 Ionawr 2016, ar strwythur a chynnwys y Bil drafft, a daeth 34 ymateb i law.

10. Yn yr adroddiad hwn cyflwynir trafodaethau'r Pwyllgor a'r casgliadau a wnaeth yn seiliedig ar yr ymatebion a gafodd i'r ymgynghoriad. Mae'r cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at adran/atodlen yn gyfeiriad at yr adran/atodlen honno yn y Bil drafft a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch.

11. Yn Atodiad A, ceir testun terfynol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a cheir y Nodiadau Esboniadol yn Atodiad B.

12. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr holl waith a oedd yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon.

## *Ein barn ni*

13. Barn y Pwyllgor yw bod angen cryfhau rôl yr Ombwdsmon, ac mae o'r farn y byddai'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft yn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol a sicrhau ar yr un pryd fod dinasyddion yn ganolog iddi. Oherwydd nad oes digon o amser ar ôl yn y Pedwerydd Cynulliad, nid yw'r Pwyllgor wedi llwyddo i gyflwyno'r Bil. Credwn y dylai'r Bil gael ei gyflwyno fel mater o flaenoriaeth gan Bwyllgor o'r Pumed Cynulliad cyn dechrau ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

---

[1] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005: www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/10/contents

**Argymhelliad 1 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol gyflwyno'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft cyn gynted â phosibl yn y Pumed Cynulliad.**

## 3. Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun

### Adran 4 – Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun

*Cefndir*

14. Byddai'r pŵer hwn yn caniatâu i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater pa un a yw'r Ombwdsmon wedi cael cwyn ai peidio. Felly, mae'n caniatâu i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad.

15. Dim ond i ymchwilio i faterion o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon y ceir defnyddio'r pŵer yn adran 4 o'r Bil drafft. Mae adrannau 10 i 14 yn nodi'r materion y caniateir ymchwilio iddynt.

*Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

**Dyletswydd i ymgynghori â rheoleiddwyr**

16. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu, pe byddai'r Ombwdsmon yn cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun, y gallai hynny achosi dryswch a dyblygu ymdrechion pe byddai'r mater hefyd yn destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddiol neu Gomisiynydd arall neu Archwilydd Cyffredinol Cymru "Yr Archwilydd Cyffredinol". Dyma'r pryder mwyaf o ddigon yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

17. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y dylid ymgynghori â phob un a oedd â chylch gwaith i gynnal adolygiadau annibynnol a gwrthrychol ac ymchwiliadau cyn i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun, gan gynnwys:

> "…all relevant inspectorates, regulators and audit bodies. In order to minimise burden on listed authorities, own initiative investigations should only be undertaken where they will add value and provide specific benefit which should be determined at the outset of the investigation."[2]

18. Yn ôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

> "Byddwn yn disgwyl wrth reswm y byddai ymgynghori â mi'n digwydd ynghylch unrhyw ymchwiliadau o'r fath sy'n effeithio ar bobl hŷn, ac y byddwn yn gallu cyfrannu tuag at yr

[2] DB PSOW 31, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

ymchwiliad, a bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori."[3]

19. Hefyd, cyfeiriodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at drefniadau rhannu gwybodaeth rhyngddi a'r Archwilydd Cyffredinol, ac roedd o'r farn y gallai dull gweithredu o'r fath ddigwydd mewn ffordd debyg gyda'r Ombwdsmon.[4]

20. Cytunodd Llywodraeth Cymru bod angen i'r Ombwdsmon gael dyletswydd briodol i ymgynghori cyn iddo gychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Dywedodd y dylai'r Ombwdsmon, cyn cychwyn unrhyw ymchwiliad, fodloni ei hun o ran y canlynol:

> "no other body, Police, Health and Safety Executive, Coroners, professional regulators and non-devolved bodies, commissioners, regulators, the Auditor General for Wales, inspectorates and or the Welsh Ministers has work planned or underway on the same subject."[5]

**Adran 5 – Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

***Cefndir***

21. O dan adran 5 o'r Bil drafft, rhaid i'r Ombwdsmon sefydlu a chyhoeddi meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun i ymchwilio i fater.

22. Mae'r Bil drafft yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon, wrth benderfynu pa un ai i ddefnyddio'r pŵer yn adran 4, fodloni'r meini prawf yn adran 5. Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu beth y dylai'r meini prawf eu cynnwys, ond rhaid i'r meini prawf nodi'r dystiolaeth y bydd ei hangen cyn y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4.

23. Mae'r Bil drafft yn rhoi cyfle i'r Ombwdsmon bennu ei feini prawf ei hun ynghyd â'i ofynion ei hun o ran tystiolaeth. Yn y cyd-destun hwn, byddai'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i egwyddor gyffredinol y gyfraith gyhoeddus, hynny yw dyletswydd i weithredu'n rhesymol ac mewn ewyllys da a defnyddio pwerau at ddibenion priodol.

[3] DB PSOW 19, Comisiynydd Pobl Hŷ n Cymru
[4] DB PSOW 19, Comisiynydd Pobl Hŷ n Cymru
[5] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

24. Roedd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru yn hyderus y bydd yr Ombwdsmon, pan fydd yn dyfeisio meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, yn gweithredu yn unol ag ysbryd y ddogfen Egwyddorion dros Gyfiawnder Gweinyddol[6] a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ym mis Tachwedd 2010.[7]

25. Roedd rhai ymatebwyr gan gynnwys Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu y dylai'r meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gynnwys adolygu pwy yw'r person mwyaf priodol i gynnal ymchwiliad.[8] Roedd hyn yn gysylltiedig â'r pryder y gallai dyblygu ddigwydd pan fyddai'r Ombwdsmon a chorff rheoleiddiol yn ymchwilio i fater.

26. Thema gyffredin arall ymhlith ymatebwyr oedd y dylai'r meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gynnwys materion buddiant y cyhoedd, na fyddai'n cael eu hymchwilio gan unrhyw un arall, ac a fyddai'n arwain at welliant sylweddol mewn gwasanaeth penodol. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai materion a all gael eu cwmpasu'n briodol yn y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gynnwys:

> "a) Y posibilrwydd y byddai camweinyddu neu fethu darparu gwasanaeth yn achosi cryn ofid neu galedi;
>
> b) Gwasanaethau sydd yn ôl eu natur yn bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau na ydynt fel arfer yn dueddol o godi cwynion ac yn cael eu defnyddio gan y defnyddwyr gwasanaethau hynny yn bennaf;
>
> c) Gwasanaethau a meysydd gweinyddu eraill sy'n ansoddol bwysig o ran materion fel tegwch, ond lle mae gofynion adnoddau ariannol isel yn golygu ei y byddai fel arfer yn amhriodol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio eu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd."[9]

---

[6] Egwyddorion dros Gyfiawnder Gweinyddol: http://ajtc.justice.gov.uk/docs/principles_web.pdf
[7] DB PSOW 28, Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru
[8] DB PSOW 05, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
[9] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru

27. Fodd bynnag, nid oedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod angen cael dull lle mae'n rhaid bodloni pob maen prawf er mwyn cyfiawnhau ymchwiliad.[10]

28. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bod angen i'r meini prawf sicrhau mai dim ond materion o fudd sylweddol i'r cyhoedd yr ymchwilir iddynt oherwydd y defnyddir adnoddau'r Ombwdsmon yn ogystal â'r awdurdod sy'n destun yr ymchwiliad.[11]

29. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at ei meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ac ymholiadau, a chynigiodd rannu profiadau mewn perthynas â hyn.[12]

## Effaith ôl-weithredol

### *Cefndir*

30. Roedd y Bil drafft yn caniatâu ymchwilio i fater o dan adran 4 os oedd yn ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

31. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r pŵer gychwyn ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, ac yn eu plith roedd Cyngor Sir Ceredigion, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

32. Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel a ganlyn:

> "No exceptional reason has been given to vary the general rule that legislation is not retrospective in effect. If the case is to be made out for retrospective powers this must be specifically argued in greater detail."[13]

33. Cytunodd Llywodraeth Cymru ei bod yn anarferol cyflwyno deddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â phryderon yn ôl-weithredol, ac nid

---

[10] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[11] DB PSOW 22, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
[12] DB PSOW 07, Comisiynydd y Gymraeg
[13] DB PSOW 10 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

oedd o'r farn bod achos wedi'i wneud dros ymestyn y pwerau i'r graddau hyn.[14]

34. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gallu ymchwilio i faterion ni waeth pa mor bell yn ôl yr oeddent wedi digwydd. Dywedodd Ombwdsmon Gogledd Iwerddon na ddylid cael terfyn amser ar allu'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Dywedodd fod darpariaeth debyg ar gyfer ôl-geisiadau wedi'i chynnwys yn adran 8(6) o Fil Ombwdsberson Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.[15]

35. Awgrymodd ymatebwyr eraill derfynau amser a oedd yn amrywio o flwyddyn i bum mlynedd. Awgrymodd yr Ombwdsmon y dylai allu ymchwilio i fater a ddigwyddodd ddwy flynedd cyn dyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Dywedodd:

> "Such a time restriction would serve to ensure that any concerns about service delivery which are apparent from complaints to my office when the Act receives Royal Assent can be investigated whilst also recognising that the investigating of historical matters can be problematic for those who are the subject of an investigation."[16]

36. Dywedodd Prifysgol Sheffield y dylid ystyried cynnwys darpariaeth i ganiatâu i'r Ombwdsmon ymchwilio i faterion a ddigwyddodd cyn y Cydsyniad Brenhinol, ond dim ond os oeddynt yn dal yn ddilys ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Dywedodd:

> "This should be written as a discretionary power to be exercised by the ombudsman. Eg 'The Ombudsman may investigate matters that arise before [implementation date] where it is necessary to complete an investigation into an ongoing matter post [implementation date] that the Ombudsman has decided to commence under s.4."[17]

---

[14] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[15] Ers hynny, mae Bil Ombwdsberson Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon wedi cael Cydsyniad Brenhinol http://www.legislation.gov.uk/nia/2016/4/contents/enacted
[16] DB PSOW 13, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[17] DB PSOW 30, Prifysgol Sheffield

## Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun: gweithdrefn

### *Cefndir*

37. Mae adran 16(2) o'r Bil drafft yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i gychwyn ymchwiliad. Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio, hynny yw, cynnig sy'n cynnwys y rhesymau am yr ymchwiliad a'r modd y bodlonir y meini prawf yn adran 5 (ond caiff yr Ombwdsmon ddisgresiwn fel nad oes yn rhaid iddo baratoi cynnig ymchwilio pan fo hynny'n anymarferol).

38. O dan adrannau 16(4) ac 16(5), rhaid i'r Ombwdsmon bennu gofynion gweithdrefnol pellach i'w dilyn pan fydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i gychwyn ymchwiliad. Rhaid i'r cyfryw ofynion gynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi cyfle i'r rhai yr ymchwilir iddynt wneud sylwadau.

39. Nid yw'r Bil drafft yn cynnwys amserlenni ar gyfer y gweithdrefnau ymchwilio, sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf 2005.

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

40. Yn ei ymateb, dywedodd yr Ombwdsmon fod y weithdrefn, cyhyd ag y mae'n ymwneud â mathau penodol o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, yn rhy feichus. Er enghraifft, pan fo'r Ombwdsmon wedi gweld diffygion systematig yng Nghorff A, gallai fod â phryderon fod yr un diffygion systematig yng Nghorff B. Mae tystiolaeth yr Ombwdsmon yn dweud y dylai, mewn amgylchiadau o'r fath, hysbysu Corff B o'i fwriad i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun i Gorff B.[18]

41. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu nad oedd amserlenni yn y weithdrefn ymchwilio. Dywedodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y dylid cynnwys amserlenni yn pennu hyd yr ymchwiliad.[19]

42. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, heblaw rhoi rhesymau dros gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun, y dylai'r Ombwdsmon bennu'r canlynol hefyd:

> "who has been consulted during the drafting of the proposal, how the proposed investigation relates to other review activity

---

[18] DB PSOW 13, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[19] DB PSOW 05, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

> undertaken, in progress, or planned, and what specific additional purpose will be served by the own initiative investigation."[20]

### Adran 63 – Cydlafurio â Chomisiynwyr eraill

#### *Cefndir*

43. Mae adran 63 o'r Bil drafft yn caniatâu i'r Ombwdsmon a Chomisiynwyr eraill[21] gydlafurio mewn perthynas â materion penodol.

#### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

44. Roedd cytundeb cryf y dylai'r Bil drafft ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag unrhyw gomisiynydd a gaiff ei greu gan Ddeddf Cynulliad yn y dyfodol. Dywedodd Cyngor Gofal Cymru fel a ganlyn, "it would appear sensible to 'future proof' the Bill as far as possible".[22]

45. Cytunai'r Archwilydd Cyffredinol â hyn, a dywedodd "na fyddai'n ddefnyddiol i'r Ombwdsmon allu cydweithio â rhai Comisiynwyr ond nid ag eraill, ac y byddai hyn yn anghyson."[23]

46. Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r bwriad i gynnwys Comisiynwyr y dyfodol, a dywedodd:

> "All Commissioners have an interest in promoting and improving public services. Each commissioner will bring their own specialism, knowledge and expertise to the table, and together with their insight in their areas, they will add real value to joined up working."[24]

#### *Ein barn ni*

47. Nododd y Pwyllgor fod adrannau 61 i 64 o'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ymgynghori a chydweithredu ag amryw Ombwdsmyn, Comisiynwyr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a oedd yn awgrymu y dylai bod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ymgynghori â rheoleiddiwyr megis

---

[20] DB PSOW 31, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[21] Gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷ n Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, a Chomisiynydd Plant Cymru.
[22] DB PSOW 04, Cyngor Gofal Cymru
[23] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[24] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

48. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai rhoi'r meini prawf a'r dystiolaeth sydd ei hangen cyn y gallai'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun ar wyneb y Bil yn cyfyngu ar allu'r Ombwdsmon i weithredu'n effeithiol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Bil drafft yn rhoi disgresiwn a hyblygrwydd i'r Ombwdsmon, gan weithredu ar yr un pryd o fewn egwyddorion y gyfraith gyhoeddus. Felly, mae'r Pwyllgor yn fodlon â geiriad presennol y Bil drafft sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf o dan adran 5.

49. O ran ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan adran 4 o'r Bil drafft, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r Ombwdsmon allu ymchwilio i gamau gweithredu a gymerwyd cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, yn ogystal ag ar ôl hynny. Fodd bynnag, ni ddylid ymchwilio i gamau gweithredu a gymerwyd cyn y Cydsyniad Brenhinol dim ond pan fo'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r mater wedi'i ddatrys yn foddhaol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn briodol ar gyfer y pŵer newydd yn adran 4 (ond heb newid yr amserlen sy'n gymwys pan fo ymchwiliad yn cael ei wneud ar ôl cwyn o dan adran 3).

50. Mae'r Pwyllgor o'r farn, wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, bod yn rhaid i'r Ombwdsmon, fel mater o drefn, baratoi cynnig ymchwilio a'i roi i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn derbyn y byddai hyn, mewn rhai achosion, yn achosi baich dianghenraid, ac y dylai'r Ombwdsmon, felly, gael disgresiwn i benderfynu a ddylai baratoi cynnig ymchwilio pan fo'n anymarferol i wneud hynny (ar yr amod bob tro bod yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr ymchwiliad).

51. Cytunodd y Pwyllgor y dylai pob Comisiynydd a gaiff ei greu gan Ddeddfau Cynulliad yn y dyfodol gael ei gynnwys o dan adran 63 Cydlafurio â Chomisiynwyr eraill er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol a sicrhau cysondeb. Dylai hyn hefyd gynnwys cynghorwyr statudol fel Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Argymhelliad 2 - Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe byddai'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft yn cael ei**

**gyflwyno, y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru weithio gyda Chomisiynwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i lunio protocolau rhannu gwybodaeth.**

**Casgliad 1 - O ran yr holl ymchwiliadau, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:**

rhoi pŵer i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru weithio gyda rheoleiddwyr (fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a'r holl gomisiynwyr a chynghorwyr statudol a gaiff eu creu gan Ddeddfau Cynulliad yn y dyfodol, er mwyn ymdrin â materion yn effeithiol ac yn gydlynus;

caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun pa un a yw'r ymchwiliad hwnnw'n ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl hynny.

# 4. Ymdrin â chwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus

### Adran 33 - Ymdrin â chwynion: datganiad o egwyddorion ac Adran 34 - Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion

#### *Cefndir*

52. Mae adran 33 o'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 ar gyfer ymdrin â chwynion. Rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori ar ddatganiad cyntaf o'r fath ac unrhyw newidiadau perthnasol a rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn cyhoeddi'r rheini.

53. Yn ôl adran 33(12) ystyr "gweithdrefnau ymdrin â chwynion" yw gweithdrefnau awdurdodau rhestredig sy'n archwilio cwynion neu sy'n adolygu penderfyniadau mewn perthynas â chamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig lle mae'r mater dan sylw yn un y ceir gwneud cwyn i'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ef, ac ymchwilio iddo o dan y Bil drafft.

54. Mae adran 33 (2) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod rhestredig fod â gweithdrefn (neu weithdrefnau) ymdrin â chwynion o ran y camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod rhestredig hwnnw, a rhaid i'r gweithdrefnau hynny gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd. Mae adran 34 (3) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig sydd â chyfrifoldeb statudol am weithdrefn ymdrin â chwynion mewn perthynas ag awdurdod rhestredig arall neu a weithredir gan awdurdod rhestredig arall, i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

55. Mae adran 34 yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion "gweithdrefnau enghreifftiol" ar gyfer awdurdodau rhestredig. Rhaid i weithdrefnau enghreifftiol hefyd gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon. Mae adran 34(6) yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau rhestredig a bennir o dan adran 35(1) gydymffurfio ag unrhyw newidiadau a gyhoeddir i'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, ond mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a ddylai gyfarwyddo'r awdurdod rhestredig i ailgyflwyno disgrifiad o'i

weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion o dan adran 37(1). Os bydd yr Ombwdsmon yn tynnu gweithdrefn enghreifftiol yn ôl, mae unrhyw fanylebau cysylltiedig o dan adran 35(1) yn peidio â chael effaith.

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

56. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Ombwdsmon Gogledd Iwerddon a Chyngor Dinas Caerdydd, yn fodlon â'r darpariaethau ymdrin â chwynion fel y'u drafftiwyd. Roedd Prifysgol Sheffield o'r farn y byddai'r darpariaethau yn gwneud y canlynol: "drive forward quality complaint-handling and data collection at the service provider level".[25]

57. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y darpariaethau'n briodol i roi digon o bwerau i'r Ombwdsmon sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn gyson ac yn deg ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.[26]

58. Cytunai Cyngor Sir Ceredigion â hyn, gan ddweud ei fod eisoes yn dilyn Canllawiau a Pholisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol Llywodraeth Cymru[27] a'i fod felly o blaid cael safonau a pholisïau tebyg ledled Cymru.[28]

59. Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig. Fodd bynnag, mynegodd bryder am ddisgresiwn yr Ombwdsmon o dan adran 34(3) o'r Bil drafft ynghylch:

> "…the publication of different model CHPs for different purposes as this may lead to confusion."[29]

60. Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau rhestredig y mae'n statudol ofynnol iddynt fod â gweithdrefnau ymdrin â chwynion gael eu heithrio o'r gyfundrefn enghreifftiol yn adrannau 32 i 35 o'r Bil drafft.[30]

---

[25] DB PSOW 30, Prifysgol Sheffield
[26] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[27] www.ombudsman-wales.org.uk/en/Information%20for%20Public%20Bodies/Polisi-pryderon-a-chwynion-enghreifftiol-a-chanllawiau.aspx
[28] DB PSOW 21, Cyngor Sir Ceredigion
[29] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[30] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

61. Hefyd, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at y ffaith bod y Bil yn rhoi disgresiwn i'r Ombwdsmon benderfynu â phwy i ymgynghori ag ef ar yr egwyddorion a'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion, ond nad oedd sôn am gydymffurfio nac am y sancsiwn a oedd ar gael i'r Ombwdsmon pan fyddai awdurdod rhestredig yn methu â chydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.[31]

***Ein barn ni***

**Casgliad 2 - Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch adrannau 33 i 39 (Awdurdodau rhestredig: gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion). Nododd y Pwyllgor fod y Bil drafft yn darparu na fyddai'n rhaid i awdurdodau rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol ymdrin â chwynion i'r graddau y bo'r weithdrefn honno yn anghyson ag unrhyw ofyniad statudol i fod â gweithdrefn ymdrin â chwynion. Felly, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r Bil drafft fel y'i lluniwyd.**

[31] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

# 5. Ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat

## Adran 10 - Materion y caniateir ymchwilio iddynt

### *Cefndir*

62. Mae adrannau 10(1)(d) a (2) o'r Bil drafft yn caniatâu i'r Ombwdsmon ymchwilio i faterion penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y dehongliad o'r Bil - bob tro y caiff y gair "ymchwiliad" ei ddefnyddio yn Rhan 3, caiff gynnwys ymchwiliad i wasanaethau iechyd preifat. Er enghraifft, byddai'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad o ymchwiliadau o dan adran 19 yn gymwys pe byddai'r Ombwdsmon wedi ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat.

63. Yn adran 71 o'r Bil drafft, diffiniwyd "gwasanaethau iechyd preifat" fel a ganlyn:

> (a) triniaeth feddygol a ddarperir mewn ysbyty preifat, a
>
> (b) triniaeth feddygol breifat a ddarperir mewn ysbyty GIG.

64. Mae adran 10(2) o'r Bil drafft yn diffinio'r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat. Yr amgylchiadau hynny yw:

> "(a) rhaid i'r person fod wedi derbyn triniaeth feddygol ar ffurf camau gweithredu perthnasol gan awdurdod rhestredig (diffinnir camau gweithredu perthnasol yn adran 10(4) a rhestrir yr holl awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3),
>
> (b) rhaid i'r person hefyd fod wedi cael gwasanaethau iechyd preifat, ac
>
> (c) ni all yr Ombwdsmon ymchwilio i'r camau gweithredu perthnasol yn effeithiol nac yn gyflawn heb iddo hefyd ymchwilio i'r gwasanaethau iechyd preifat."[32]

[32] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft - Nodiadau Esboniadol: www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s45204/Draft%20Public%20Services%20Ombudsman%20Wales%20Bill%20-%20Explanatory%20Notes.pdf

65. Felly, mae adran 10(2) yn gweithredu fel ffrwyn ar y pŵer i ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, gan ei bod yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y caniateir ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat.

66. Mae adrannau 11 i 13 yn gosod cyfyngiadau pellach ar y materion y caniateir ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, mae'r materion yn adrannau 10(1) a 10(2) yn cael effaith sylweddol ar y dehongliad o'r Bil. O'i ddarllen ar y cyd â'r pwerau yn adrannau 3 a 4, gallai'r Ombwdsmon:

- 1: ymchwilio i awdurdod rhestredig yn dilyn cwyn (gan ddefnyddio adran 3 neu adran 4);
- 2: ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat yn dilyn cwyn (gan ddefnyddio adran 3 neu adran 4);
- 3: ymchwilio i awdurdod rhestredig pan na fu unrhyw gŵyn (gan ddefnyddio adran 4);
- 4: ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat pan na fu unrhyw gŵyn (gan ddefnyddio adran 4).[33]

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

67. Roedd Cyngor Gofal Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth newydd hon oherwydd "it will achieve greater equality of opportunity for investigation and possible redress for the range of mechanisms by which healthcare may be funded."[34]

68. Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys yr Ombwdsmon[35] a Chyngor Tref y Barri[36], yn fodlon â'r darpariaethau fel y'u drafftiwyd.

69. Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o blaid y cynnig, ond gofynnodd y cwestiwn a ganlyn:

> "would a private care provider be compelled to act [in] accordance with the advice offered in an expert report. What would the sanctions be for failing to comply with a report and its recommendations?"[37]

---

[33] Ym mhob achos, dim ond os bodlonir y meini prawf yn adran 5 y gellir defnyddio'r pŵer yn adran 4.
[34] DB PSOW 04, Cyngor Gofal Cymru
[35] DB PSOW 13, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[36] DB PSOW 08, Cyngor Tref y Barri
[37] DB PSOW 05, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

70. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fod y diffiniad o "wasanaethau iechyd preifat" i bob golwg yn seiliedig ar ddiffiniad a oedd yn seiliedig ar sefydliad megis ysbyty. Aeth rhagddi i ddweud:

> "It also limits applicability to medical treatment. It is therefore too narrow and should consider moving to a definition based around services rather than establishments. Consideration should also be given to extending the definition to aspects of care other than medical care."[38]

71. Cytunodd Llywodraeth Cymru y dylid ehangu'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd preifat' i gwmpasu triniaeth feddygol a gofal nyrsio.[39]

72. Cymysg oedd y farn am y ddarpariaeth a fyddai'n rhoi pŵer i'r Ombwdsmon adennill y costau yr aeth iddynt wrth ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y dylid gallu adennill y costau os bernir bod yr ymchwiliad yn ddilys.[40]

73. Cytunodd Cyngor Tref y Barri y dylai'r Ombwdsmon gael pŵer i adennill y costau yr aeth iddynt wrth ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat:

> "they are in the business of charging and making money why should it fall to the public purse to pay for their mistakes."[41]

74. O ran pŵer yr Ombwdsmon i gael tystiolaeth, gwybodaeth, dogfennau a chyfleusterau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, nid oedd Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol o blaid hyn ar y sail fod system eisoes ar gael ar gyfer adolygu cwynion yn annibynnol, heb gost i'r cyhoedd.[42]

75. Ychwanegodd Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol y byddai'n croesawu'r cyfle i wneud cytundeb rhannu gwybodaeth â'r Ombwdsmon ar gyfer cwynion sy'n croesi'r sectorau preifat a chyhoeddus.[43]

---

[38] DB PSOW 31, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[39] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[40] DB PSOW 16, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
[41] DB PSOW 08, Cyngor Tref y Barri
[42] DB PSOW 33, Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol
[43] DB PSOW 33, Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol

76. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi'r ddarpariaeth newydd sy'n galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i'r gŵyn gyfan pan gafwyd cyfuniad o driniaeth gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat, ar yr amod nad achosir rhagor o gostau i'r coffrau cyhoeddus.[44]

77. Fodd bynnag, credai Llywodraeth Cymru bod angen i adran 10(2) fod yn gliriach ynghylch a yw'n cwmpasu cleifion o Gymru sy'n cael triniaeth yn Lloegr ac a yw'r rheini'n wasanaethau a gomisiynwyd neu'n driniaeth breifat. Aeth rhagddi i ddweud:

> "It [the Bill] also needs to clarify whether / how it would apply to Welsh patients who undergo treatment across the border."[45]

### *Ein barn ni*

78. Cytunodd y Pwyllgor â'r dystiolaeth y dylid ehangu'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd preifat' i gwmpasu triniaeth feddygol a gofal nyrsio.

79. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Ombwdsmon allu adennill y costau yr aeth iddynt wrth ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, ac na ddylai'r trethdalwyr orfod talu'r gost hon.

**Casgliad 3 – O ran ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:**

dylid ehangu'r diffiniad o "wasanaethau iechyd preifat" i gwmpasu triniaeth feddygol a gofal nyrsio;

dylid cynnwys adran newydd, Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, er mwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru roi hysbysiad adennill costau i ddarparwr gofal iechyd preifat fel ffordd o adennill y costau ychwanegol yr aeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru iddynt pan fo'r darparwr wedi rhwystro ymchwiliad yr Ombwdsmon.

---

[44] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[45] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

# 6. Awdurdodau rhestredig

## Adran 30 – Cyfyngiadau ar bŵer i ddiwygio Atodlen 3

### *Cefndir*

80. Yn Atodlen 3 o'r Bil drafft, rhestrir y personau sy'n ddarostyngedig i gylch gwaith yr Ombwdsmon. Mae awdurdodaeth bresennol yr Ombwdsmon yn hyn o beth yn ymestyn i'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth i newidiadau gael eu gwneud i'r setliad datganoli yng Nghymru, bydd meysydd newydd yn dod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

81. Mae adran 30(2) yn darparu y caniateir i orchymyn i ddiwygio Atodlen 3 ychwanegu person dim ond os oes gan y person swyddogaethau i'w cyflawni mewn perthynas â Chymru neu ran o Gymru (pa un a yw'r swyddogaethau hynny hefyd i'w cyflawni yn rhywle heblaw mewn perthynas â Chymru ai peidio).

82. Ni all gorchymyn o'r fath fyth ddileu Gweinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru o'r rhestr o awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3.

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

83. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r cyfyngiadau ar y pŵer i ddiwygio Atodlen 3. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y cyfyngiadau fel y'u drafftiwyd yn edrych yn glir ac yn gymesur o gymharu â Deddf 2005.[46]

84. Teimlai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr awdurdodau rhestredig yn gyson, gan mwyaf, â'r rhai yn Neddf 2005, ond dywedodd nad oedd yn glir pam fod rhai cyrff wedi'u rhestru a chyrff eraill tebyg heb eu rhestru, er enghraifft:

> "the Welsh Language Commissioner is included as a listed authority but other Commissioners are not and Estyn is included as a listed authority other regulatory and inspectorate bodies are not included. It may be appropriate to include harbour or port authorities in the list."[47]

---

[46] DB PSOW 32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[47] DB PSOW 32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

85. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd yn glir pam nad yw gofynion ychwanegol Deddf 2005 (y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y ceir ychwanegu person at y rhestr yn Atodlen 3) wedi cael eu hatgynhyrchu yn y Bil, am eu bod yn gweithio i sicrhau mai dim ond awdurdodau cyhoeddus y gellir eu hychwanegu at Atodlen 3. Dywedodd:

> "Mae'n ymddangos ei bod yn annymunol dileu'r gofynion hyn am y byddai'n caniatâu ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon ymhellach i'r sector preifat heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol."[48]

86. Cytunai Llywodraeth Cymru â'r Archwilydd Cyffredinol, a dywedodd y byddai'n well ganddi fod y cyfyngiadau yn cael eu cadw fel y maent yn Neddf 2005, gan gredu bod hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Ombwdsmon o ran arfer ei bwerau.[49]

87. Nododd Llywodraeth Cymru fod y rhestr yn Atodlen 3 yn gyson â'r rhestr yn Neddf 2005, a gwnaeth nifer o awgrymiadau o ran y cyrff y byddai angen eu diweddaru, eu dileu neu eu newid.[50]

88. Teimlai Cyngor Cymuned Maerun y dylid adolygu Atodlen 3 yn barhaus er mwyn adlewyrchu amgylchiadau sy'n esblygu.[51]

### *Ein barn ni*

**Casgliad 4 – O ran yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 o'r Bil drafft, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:**

dylai'r rheolau ar ddiwygio'r rhestr yn Atodlen 3 fod yr un peth â'r rhai sydd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (hynny yw, y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir ychwanegu person at y rhestr yn Atodlen 3);

dylid cynnwys y cyrff canlynol fel awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3:

Byrddau Cadwraethwyr Coity Walia;

Awdurdodau harbwr;

[48] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[49] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[50] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[51] DB PSOW 18, Cyngor Cymuned Maerun

Awdurdodau porthladd;

Cymwysterau Cymru;

Bwrdd Cadwraethwyr Towyn Trewan;

Swyddfa Archwilio Cymru;

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;

Awdurdod Refeniw Cymru.

# 7. Cyfnod anghymhwyso

### *Cefndir*

89. Mae paragraff 7 o Atodlen 1 i'r Bil drafft yn darparu bod person sydd wedi peidio â dal swydd Ombwdsmon neu swydd Ombwdsmon dros dro wedi'i anghymhwyso o restr o rolau am gyfnod o ddwy flynedd. Y cyfnod anghymhwyso presennol yn Neddf 2005 yw tair blynedd. Mae rhestr o dymhorau penodi a chyfnodau anghymhwyso ar gyfer swyddi cyhoeddus eraill yng Nghymru yn Atodiad C.

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

90. Roedd amrywiaeth barn ymhlith yr ymatebwyr ynghylch a oedd y cyfnod anghymhwyso o ddwy flynedd yn briodol.

91. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys amryw awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a dau Fwrdd Iechyd Prifysgol yn cytuno bod dwy flynedd yn briodol.[52]

92. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y cyfnod anghymhwyso yn ymddangos yn briodol a'i fod yn gyson â'r darpariaethau sy'n ymwneud â rôl yr Archwilydd Cyffredinol.[53]

93. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon, Ombwdsmon yr Alban ac Ombwdsmon Gogledd Iwerddon o'r farn fod y cyfnod o ddwy flynedd yn rhy hir. Barn Ombwdsmon Gogledd Iwerddon oedd ei fod yn "excessive, disproportionate and unnecessary."[54]

94. Dywedodd yr Ombwdsmon fod y sefyllfa ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yr un peth â'r hyn sydd mewn grym yn yr Alban, sef:

> "former ombudsmen are restricted from taking up certain employment without the consent of the Assembly Commissioner/Parliamentary Commission. This restriction expires at the end of the financial year following the financial year in which the person ceased to hold office."[55]

---

[52] DB PSOW 06, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
[53] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[54] DB PSOW 27, Ombwdsmon Gogledd Iwerddon
[55] DB PSOW 27, Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

95. Dywedodd yr Ombwdsmon y gallai hyd y cyfnod anghymhwyso, yn enwedig yn achos Ombwdsmon dros dro, rwystro nifer o ymgeiswyr o'r radd flaenaf rhag ymgeisio am y swydd yn y dyfodol.[56]

### *Ein barn ni*

96. Trafododd y Pwyllgor y cyfnodau anghymhwyso ar gyfer yr Ombwdsmon mewn awdurdodaethau eraill ynghyd ag amryw swyddi cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r cyfnod anghymhwyso fod yn gyson ag Ombwdsmyn yr Alban a Gogledd Iwerddon, o ran y dylai'r cyfnod anghymhwyso barhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd yr Ombwdsmon â dal y swydd (ac y dylai Comisiwn y Cynulliad allu cydsynio i gyfnod byrrach).

**Casgliad 5 – O ran y cyfnod anghymhwyso, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newid canlynol i destun y Bil drafft:**

dylai cyfnod anghymhwyso Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (neu'r Ombwdsmon dros dro) o restr o rolau amrywiol barhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd yr Ombwdsmon â dal y swydd.

[56] DB PSOW 13, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# 8. Materion eraill

## Gofal cymdeithasol a gofal lliniarol

### *Cefndir*

97. Mae Deddf 2005 yn darparu cyfundrefn annibynnol ar gyfer ymchwiliadau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Estynnwyd yr awdurdodaeth hon gan ddiwygiadau a fewnosodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[57]

98. Mae'r Bil drafft yn dilyn yr hyn sydd yn Neddf 2005. Gofynnwyd i ymgyngoreion am eu barn ynghylch a ddylai'r gyfundrefn ar gyfer gofal cymdeithasol a lliniarol fod yn annibynnol, neu a ddylai ddod o fewn y gyfundrefn ymchwilio "brif ffrwd".

### *Tystiolaeth gan yr ymatebwyr*

**Amrywiol oedd barn yr ymatebwyr i'r mater hwn, fel a ganlyn:**

**Dylai gofal cymdeithasol a gofal lliniarol barhau'n gyfundrefn annibynnol**

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Dylai gofal cymdeithasol a gofal lliniarol ddod o fewn y gyfundrefn ymchwilio 'brif ffrwd'**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn amhendant)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Prifysgol Lerpwl
- Cyngor Sir Ceredigion
- Ombwdsmon Gogledd Iwerddon
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Sheffield

---

[57] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014: www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

99. O ran cynnwys y drefn gofal cymdeithasol a gofal lliniarol yn y drefn ymchwilio brif ffrwd yn y Bil, cytunodd Llywodraeth Cymru mai dim ond un proses ymchwilio y dylid ei chael.[58]

### *Y Gymraeg*

100. Nododd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd y Bil yn gosod unrhyw ofynion ar yr Ombwdsmon ynghylch y Gymraeg. Dywedodd:

> "Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa ddyletswyddau sydd ar yr Ombwdsmon i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn gosod dyletswyddau penodol ar yr Ombwdsmon mewn cyswllt a'r defnydd o'r Gymraeg yn y Bil drafft."[59]

### *Gwerthuso'r ddeddfwriaeth ar ôl ei chychwyn*

101. Gofynnwyd i'r ymgyngoreion roi sylwadau ynghylch pryd y dylid gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth. Cymysg oedd y farn am hyn, a dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid gwerthuso'r Ddeddf rhwng tair a phum mlynedd ar ôl ei gweithredu.

102. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol:

> "...o ystyried yr amserlen ar gyfer cyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gwaith ar y polisi cwyno enghreifftiol, a chaniatâu iddynt gael effaith, dylai fod yn briodol gwerthuso o leiaf tair i bum mlynedd ar ôl cychwyn y Ddeddf, a hynny os mai bwriad y gwerthuso yw pwyso a mesur effeithiolrwydd.
>
> "Fodd bynnag, os mai unig ddiben y gwerthuso yw asesu pa un a yw'r darpariaethau'n ateb y diben o ran galluogi'r prosesau i gychwyn (sy'n ffocws gweddol gul), byddai modd ei gyflawni flwyddyn neu ddwy ar ôl cychwyn y Ddeddf."[60]

103. Cytunodd Prifysgol Lerpwl â hyn ac awgrymodd na ddylai'r ddeddfwriaeth gael ei hadolygu dim cynt na thair blynedd, na dim hwyrach na saith mlynedd ar ôl iddi ddod i rym.[61]

---

[58] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru
[59] DB PSOW 07, Comisiynydd y Gymraeg
[60] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru
[61] DB PSOW 17, Prifysgol Lerpwl

104. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at allu'r Cynulliad i gael adroddiadau gan yr Ombwdsmon a'i allu i ddwyn yr Ombwdsmon i gyfrif. Dywedodd fel a ganlyn:

> "...(this) can provide a forum, where the Ombudsman can relay any fears if he feels that his work is being hindered and needs reviewing. It is how this process began. In addition, the introduction of a complaint standards authority should provide the legislature with hard evidence of how complaints are being handled, and whether or not there is dissatisfaction from Welsh citizens."[62]

### *Ein barn ni*

**Casgliad 6 - Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid dod â gofal cymdeithasol a lliniarol o fewn y broses ymchwilio brif ffrwd, ar ôl adlewyrchu a thrafod ymhellach, penderfynodd y Pwyllgor gadw gofal cymdeithasol a lliniarol fel cyfundrefn annibynnol. Y rheswm am hyn yw natur benodol gofal cymdeithasol a lliniarol, a'r ffaith y byddai uno'r ddwy gyfundrefn yn creu un gyfundrefn gymhleth a dyrys iawn. Felly, mae'n well gan y Pwyllgor y dull a fabwysiadwyd yn y Bil drafft sy'n darparu ar gyfer dwy gyfundrefn ymchwilio ar wahân, ond clir.**

**Casgliad 7 – O ran y Gymraeg, ac adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i destun y Bil drafft:**

adran newydd i roi dyletswydd ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg;

adran newydd sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ar ôl pum mlynedd o'r dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol, ac adolygiadau pellach ar ôl hynny, fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

[62] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

## 9. Goblygiadau Ariannol

### *Cefndir*

105. Mewn 16 ymateb i'r ymgynghoriad gwnaed sylwadau ynghylch goblygiadau ariannol y Bil drafft.

### *Y goblygiadau o ran y costau i'r Ombwdsmon a chyrff eraill.*

106. Nododd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y byddai nifer y cwynion yn cynyddu pan fyddai modd gwneud cwynion ar lafar. Dywedwyd y bydd gan hyn oblygiadau i'r Ombwdsmon a chyrff eraill.[63]

107. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr, fel Un Llais Cymru a Chyngor Gwynedd, eu bod yn pryderu am y pwysau ychwanegol y gellid ei roi ar eu hadnoddau cyfyngedig. Yn ôl Cyngor Ceredigion:

> "Whilst it is important to support the Ombudsman in his work, there needs to be a balance between the provision of services and the cost of regulation."[64]

### *Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

108. Nododd Llywodraeth Cymru nad oedd y deunydd esboniadol yn rhoi asesiad o gostau ac effaith y ddeddfwriaeth ddrafft, yn enwedig o ran costau a allai ddod i ran cyrff iechyd a llywodraeth leol. Dywedodd:

> "The main barriers will be financial resources, organisational cultures, and a changing landscape. There is a need for a clear financial assessment and a case to demonstrate that the benefits outweigh the costs."[65]

109. Roedd ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y byddai'n anodd amcangyfrif cost y Bil drafft, ond argymhellodd y dylid cyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Bil drafft yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

---

[63] DB PSOW 06 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a DB PSOW 14 Archwilydd Cyffredinol Cymru

[64] DB PSOW 21, Cyngor Sir Ceredigion

[65] DB PSOW 29, Llywodraeth Cymru

110. Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai'r Bil drafft arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol, ond ei bod yn "anodd iawn meintioli manteision o'r fath, heb sôn am eu rhagweld".[66]

***Ein barn ni***

111. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud yr argymhelliad canlynol yn ei Adroddiad Etifeddiaeth, ac mae'n ailbwysleisio'r angen i'r Ombwdsmon ymwneud yn llawn â'r broses o baratoi'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

**Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfrannu tystiolaeth i Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gydfynd â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft y gellir ei olrhain mewn cyllidebau a gyflwynir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.**

[66] DB PSOW 14, Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=204

| **Sefydliadau** | **Cyfeirnod** |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanddunwyd | DB PSOW 01 |
| Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol | DB PSOW 02 |
| Cyngor Cymuned Henllanfallteg | DB PSOW 03 |
| Cyngor Gofal Cymru | DB PSOW 04 |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | DB PSOW 05 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | DB PSOW 06 |
| Comisiynydd y Gymraeg | DB PSOW 07 |
| Cyngor Tref y Barri | DB PSOW 08 |
| Un Llais Cymru | DB PSOW 09 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | DB PSOW 10 |
| Janet Treharne Oakley | DB PSOW 11 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban | DB PSOW 12 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | DB PSOW 13 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | DB PSOW 14 |
| Cyngor Bro Morgannwg | DB PSOW 15 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | DB PSOW 16 |
| Prifysgol Lerpwl | DB PSOW 17 |
| Cyngor Cymuned Maerun | DB PSOW 18 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | DB PSOW 19 |
| Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru | DB PSOW 20 |
| Cyngor Sir Ceredigion | DB PSOW 21 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | DB PSOW 22 |
| Cyngor Dinas Caerdydd | DB PSOW 23 |
| Cyngor Tref Penarth | DB PSOW 24 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | DB PSOW 25 |
| Cyngor Gwynedd | DB PSOW 26 |
| Ombwdsmon Gogledd Iwerddon | DB PSOW 27 |
| Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru | DB PSOW 28 |
| Llywodraeth Cymru | DB PSOW 29 |

| | |
|---|---|
| Prifysgol Sheffield | DB PSOW 30 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | DB PSOW 31 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | DB PSOW 32 |
| Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol | DB PSOW 33 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | DB PSOW 34 |

## Atodiad A



**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFT]

CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg

**RHAN 2**

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

2 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**RHAN 3**

YMCHWILIADAU

*Pŵer i ymchwilio*

3 Pŵer i ymchwilio i gwynion
4 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun
6 Dulliau amgen o ddatrys cwynion neu faterion

*Cwynion*

7 Pwy sy'n cael cwyno
8 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon
9 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon

*Materion y caniateir ymchwilio iddynt*

10 Materion y caniateir ymchwilio iddynt
11 Eithrio: materion nad ydynt yn ymwneud â Chymru
12 Eithrio: rhwymedïau eraill
13 Materion eithriedig eraill
14 Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu

*Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio etc*

15 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio neu i ddod ag ymchwiliad i ben

*Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth*

16 Gweithdrefn ymchwilio

17 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau
18 Rhwystro a dirmygu

*Adroddiadau ar ymchwiliadau*

19 Adroddiadau ar ymchwiliadau
20 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau
21 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau: darparwyr gofal iechyd
22 Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i awdurdod rhestredig
23 Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i wasanaethau iechyd preifat
24 Diffyg gweithredu ar ôl cael adroddiad
25 Adroddiadau: gweithdrefn amgen

*Adroddiadau arbennig*

26 Adroddiadau arbennig
27 Adroddiadau arbennig: atodol
28 Adroddiadau arbennig sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru etc

*Pŵer i fynnu treuliau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat*

29 Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat

*Awdurdodau rhestredig*

30 Awdurdodau rhestredig
31 Cyfyngiadau ar bŵer i ddiwygio Atodlen 3
32 Darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ychwanegu personau at Atodlen 3
33 Pŵer i ddyroddi canllawiau

*Awdurdodau rhestredig: gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion*

34 Ymdrin â chwynion: Datganiad o egwyddorion
35 Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion
36 Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig
37 Datganiadau o beidio â chydymffurfio
38 Cyflwyno disgrifiad o weithdrefn ymdrin â chwynion: cyffredinol
39 Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: cymhwyso deddfiadau eraill
40 Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: hybu arferion gorau etc

*Digolledu*

41 Digolledu'r person a dramgwyddwyd

**RHAN 4**

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Cymhwyso'r Rhan hon*

42 Materion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt

*Ymchwilio i gwynion*

43 Pŵer i ymchwilio i gwynion
44 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun
45 Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun

46 Dulliau amgen o ddatrys cwynion
47 Pwy sy'n cael cwyno
48 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon
49 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon

*Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio etc*

50 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio i gwynion neu i ddod ag ymchwiliadau i ben

*Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth*

51 Gweithdrefn ymchwilio
52 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau
53 Rhwystro a dirmygu

*Adroddiadau am ymchwiliadau*

54 Adroddiadau am ymchwiliadau
55 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau am ymchwiliadau
56 Camau gweithredu ar ôl i adroddiadau am ymchwiliadau ddod i law
57 Adroddiadau: gweithdrefn amgen

*Adroddiadau arbennig*

58 Amgylchiadau lle caiff adroddiadau arbennig eu paratoi
59 Adroddiadau arbennig
60 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau arbennig

*Dehongli*

61 Ystyr "cartref gofal" a "darparwr cartref gofal"
62 Ystyr "gofal cartref " a "darparwr gofal cartref"
63 Ystyr "gwasanaeth gofal lliniarol" a "darparwr gofal lliniarol annibynnol"

**RHAN 5**

YMCHWILIADAU: ATODOL

*Ymgynghori a chydweithredu*

64 Ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill
65 Cydweithio â phersonau penodol
66 Cydlafurio â phersonau penodol
67 Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru

*Datgelu*

68 Datgelu gwybodaeth
69 Datgeliad niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu yn groes i fudd y cyhoedd
70 Diogelu rhag hawliadau difenwi

*Strategaeth ar gyfer y Gymraeg*

71 Strategaeth ar gyfer y Gymraeg

*Adolygiad o'r Ddeddf*

72 Adolygiad o'r Ddeddf

**RHAN 6**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

73 Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym

*Cyffredinol*

74 Diwygiadau a diddymiadau
75 Cychwyn
76 Dehongli
77 Cyn-ddarparwyr gofal iechyd, landlordiaid cymdeithasol, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gofal lliniarol: addasiadau
78 Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc
79 Rheoliadau a chyfarwyddydau
80 Enw byr

Atodlen 1 — OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: PENODI ETC
Atodlen 2 — MATERION EITHRIEDIG: RHAN 3
Atodlen 3 — AWDURDODAU RHESTREDIG
Atodlen 4 — MATERION EITHRIEDIG: RHAN 4
Atodlen 5 — DIWYGIADAU CANLYNIADOL

# Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFT]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; i wneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; i wneud darpariaeth ynghylch digolledu; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

**1 Trosolwg**

(1) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer parhad rôl yr Ombwdsmon.

(2) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon—

(a) yn pennu pwerau'r Ombwdsmon i ymchwilio i awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat,

(b) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys i'r ymchwiliadau hynny,

(c) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys i'r adroddiadau am yr ymchwiliadau hynny,

(d) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau ymdrin â chwynion awdurdodau rhestredig,

(e) yn gwneud darpariaeth ar gyfer amryw faterion sy'n ymwneud ag awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat.

(3) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon—

(a) yn pennu pwerau'r Ombwdsmon i ymchwilio i ddarparwyr gofal cymdeithasol a gofal lliniarol,

(b) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys i'r ymchwiliadau hynny,

(c) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys i'r adroddiadau am yr ymchwiliadau hynny,

(d) yn gwneud darpariaeth ar gyfer amryw faterion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol.

(4) Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth atodol sy'n ymwneud ag ymchwiliadau.

## RHAN 2

## OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**2 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

(1) Mae swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Public Services Ombudsman for Wales (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "yr Ombwdsmon") i barhau.

(2) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr Ombwdsmon.

## RHAN 3

## YMCHWILIADAU

*Pŵer i ymchwilio*

**3 Pŵer i ymchwilio i gwynion**

(1) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn o dan y Rhan hon mewn perthynas â mater—

(a) os yw'r gŵyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon, a

(b) os yw'r mater yn un y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan adrannau 10 i 14.

(2) Mae cwyn wedi'i "gwneud yn briodol" i'r Ombwdsmon os (ond dim ond os)—

(a) caiff ei gwneud gan berson sydd â hawl o dan adran 7 i wneud y gŵyn i'r Ombwdsmon, a

(b) caiff gofynion adran 8(1) eu bodloni mewn perthynas â hi.

(3) Mae cwyn wedi'i "hatgyfeirio'n briodol" at yr Ombwdsmon os (ond dim ond os)—

(a) caiff ei chyfeirio at yr Ombwdsmon gan awdurdod rhestredig, a

(b) caiff gofynion adran 9(1) eu bodloni mewn perthynas â hi.

(4) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn o dan y Rhan hon mewn perthynas â mater hyd yn oed os na chaiff gofynion adran 8(1) neu (yn ôl y digwydd) adran 9(1)(b), (c) neu (d) eu bodloni o ran y gŵyn—

(a) os yw'r mater yn un y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan adrannau 10 i 14, a

(b) os yw'r Ombwdsmon o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny.

(5) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad ai i ddod ag ymchwiliad i ben.

(6) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (5).

(7) Caiff yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad i gŵyn neu barhau ag ymchwiliad i gŵyn hyd yn oed os yw'r gŵyn wedi'i thynnu'n ôl, neu hyd yn oed os yw'r atgyfeiriad sy'n ymwneud â'r gŵyn wedi'i dynnu'n ôl.

(8) Ond mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 8(5).

**4 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

(1) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater o dan y Rhan hon, y mae ganddo hawl i ymchwilio iddo o dan adrannau 10 i 14, pa un a oes cwyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio at yr Ombwdsmon ai peidio.

(2) Caiff y mater ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn i'r Ddeddf hon gael Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl hynny.

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad ai i ddod ag ymchwiliad i ben o dan yr adran hon (ond rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r cyfryw bersonau y mae o'r farn ei bod yn briodol i ymgynghori â hwy wrth wneud penderfyniad o'r fath).

(4) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (2).

**5 Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon sefydlu meini prawf (a chaiff eu newid o dro i dro) i'w defnyddio i benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 4.

(2) Rhaid i'r meini prawf gynnwys y gofynion tystiolaeth i'w defnyddio i benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 4.

(3) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf.

**6 Dulliau amgen o ddatrys cwynion neu faterion**

(1) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol er mwyn datrys cwyn neu fater y mae gan yr Ombwdsmon bŵer i ymchwilio iddi neu iddo o dan y Rhan hon.

(2) Caiff yr Ombwdsmon gymryd camau gweithredu o dan yr adran hon yn ychwanegol at gynnal ymchwiliad neu yn lle hynny.

(3) Rhaid cymryd unrhyw gamau gweithredu o dan yr adran hon yn breifat.

*Cwynion*

**7 Pwy sy'n cael cwyno**

(1) Y personau sydd â hawl i gwyno i'r Ombwdsmon o dan y Rhan hon yw—

(a) aelod o'r cyhoedd (yn y Rhan hon cyfeirir ato fel "y person a dramgwyddwyd") sy'n honni neu sydd wedi honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i fater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan adrannau 10 i 14;

(b) person a awdurdodwyd gan y person a dramgwyddwyd i weithredu ar ei ran;

(c) os nad yw'r person a dramgwyddwyd yn gallu awdurdodi person i weithredu ar ei ran (er enghraifft, oherwydd ei fod wedi marw), person sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol i weithredu ar ran y person a dramgwyddwyd.

(2) Ystyr "aelod o'r cyhoedd" yw unrhyw berson heblaw awdurdod rhestredig sy'n gweithredu fel y cyfryw.

Ond nid yw darparwr gwasanaethau iechyd preifat sy'n gweithredu fel y cyfryw yn aelod o'r cyhoedd os yw'r mater yn ymwneud â mater o fewn adran 10(1)(d) yn unig.

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a oes gan berson hawl i wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan yr adran hon.

**8 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon**

(1) Y gofynion a grybwyllir yn adran 3(2)(b) yw bod yn rhaid i'r gŵyn—

(a) bod ar ffurf a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(b) cynnwys y cyfryw wybodaeth a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(c) cael ei gwneud i'r Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hysbysu gyntaf am y mater.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a fodlonir gofynion is-adran (1) o ran cwyn.

(4) Os caiff cwyn sy'n bodloni gofynion is-adran (1) ei gwneud ar lafar, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) esbonio i'r person a dramgwyddwyd bod cwyn wedi'i gwneud yn briodol yn unol â'r Ddeddf hon, a'r goblygiadau o wneud cwyn o'r fath, a

(b) gofyn i'r person a dramgwyddwyd a yw'n awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol.

(5) Os nad yw'r person yn awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol, rhaid i'r Ombwdsmon beidio â defnyddio'r pŵer yn adran 3 i ymchwilio i'r mater.

(6) Os yw'r person yn awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol, rhaid i'r Ombwdsmon ofyn i'r person a yw am gadarnhau'r gŵyn yn ysgrifenedig.

(7) Os yw'r person yn awyddus i gadarnhau'r gŵyn yn ysgrifenedig, rhaid i'r Ombwdsmon wneud y cyfryw drefniadau angenrheidiol i gadarnhau'r gŵyn yn ysgrifenedig.

(8) Os nad yw'r person yn awyddus i gadarnhau'r gŵyn yn ysgrifenedig, rhaid i'r Ombwdsmon gofnodi hynny'n ysgrifenedig.

(9) Rhaid i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o'r holl gwynion llafar.

(10) Yn yr adran hon, mae "ysgrifenedig" yn cynnwys ar ffurf electronig.

**9 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon**

(1) Y gofynion a grybwyllir yn adran 3(3)(b) yw bod yn rhaid i'r gŵyn—

(a) bod wedi'i gwneud i'r awdurdod rhestredig gan berson a fyddai wedi bod â hawl o dan adran 7 i wneud y gŵyn i'r Ombwdsmon;

(b) bod wedi'i gwneud i'r awdurdod rhestredig cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hysbysu gyntaf am y materion a honnir yn y gŵyn;

(c) cael ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon ar ffurf a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau a chynnwys yr wybodaeth a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(d) cael ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gŵyn i’r awdurdod rhestredig.

(2) Rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi’r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

(3) Mater i’r Ombwdsmon yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a fodlonir gofynion is-adran (1) o ran cwyn.

*Materion y caniateir ymchwilio iddynt*

**10 Materion y caniateir ymchwilio iddynt**

(1) Y materion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt o dan y Rhan hon yw—

(a) camweinyddu honedig gan awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â chamau gweithredu perthnasol;

(b) methiant honedig mewn gwasanaeth perthnasol a ddarperir gan awdurdod rhestredig;

(c) methiant honedig gan awdurdod rhestredig i ddarparu gwasanaeth perthnasol;

(d) pan fo is-adran (2) yn gymwys, materion sy’n ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat.

(2) Mae’r is-adran hon yn gymwys pan fo’r Ombwdsmon o’r farn—

(a) bod person wedi cael triniaeth feddygol yn sgil camau gweithredu perthnasol a gymerwyd gan awdurdod rhestredig,

(b) bod y person hefyd wedi cael gwasanaethau iechyd preifat, ac

(c) na ellir ymchwilio’n effeithiol nac yn gyflawn i faterion sy’n ymwneud â’r camau gweithredu perthnasol heb hefyd ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â’r gwasanaethau iechyd preifat.

(3) Mae is-adran (1) yn ddarostyngedig i adrannau 11 i 14.

(4) Camau gweithredu perthnasol yw—

(a) yn achos awdurdod rhestredig sy’n ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru neu’n ddarparwr annibynnol yng Nghymru, camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth perthnasol;

(b) yn achos awdurdod rhestredig sy’n landlord cymdeithasol yng Nghymru neu’n gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru heblaw Gweinidogion Cymru, camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wrth iddo gyflawni unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau;

(c) yn achos awdurdod rhestredig sy’n berson â swyddogaethau a roddir gan reoliadau a wnaed o dan adran 113(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o’r swyddogaethau hynny;

(d) yn achos awdurdod rhestredig sy'n awdurdod rhestredig yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 30(2) sy'n ei ychwanegu at Atodlen 3, camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wrth iddo gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau penodedig;

(e) mewn unrhyw achos arall, camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wrth iddo gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gweinyddol.

(5) Gwasanaeth perthnasol yw—

(a) yn achos awdurdod rhestredig sy'n ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau iechyd teulu y gwnaeth yr awdurdod, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun y gŵyn, ymrwymo mewn contract i'w ddarparu, ymgymryd i'w ddarparu neu wneud trefniadau i'w ddarparu;

(b) yn achos awdurdod rhestredig sy'n ddarparwr annibynnol yng Nghymru, unrhyw wasanaeth y gwnaeth yr awdurdod, ar y pryd hwnnw, drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru i'w ddarparu;

(c) yn achos awdurdod rhestredig sy'n dod o fewn is-adran (4)(c), unrhyw wasanaeth a oedd, bryd hynny, yn swyddogaeth yr awdurdod i'w ddarparu wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a grybwyllir yn y paragraff hwnnw;

(d) yn achos awdurdod rhestredig sy'n dod o fewn is-adran (4)(d), unrhyw wasanaeth a oedd, bryd hynny, yn swyddogaeth yr awdurdod i'w ddarparu wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau penodedig;

(e) mewn unrhyw achos arall, unrhyw wasanaeth a oedd, bryd hynny, yn swyddogaeth yr awdurdod i'w ddarparu.

(6) At ddibenion is-adrannau (4)(d) a (5)(d), swyddogaethau penodedig awdurdod rhestredig yw'r swyddogaethau a bennir mewn perthynas â'r awdurdod mewn rheoliadau o dan adran 30(2) yn rhai sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon.

(7) Mae swyddogaeth weinyddol a gaiff ei chyflawni gan berson sy'n aelod o staff gweinyddol tribiwnlys perthnasol i'w thrin yn swyddogaeth weinyddol awdurdod rhestredig at ddibenion is-adran (4)—

(a) os cafodd y person ei benodi gan yr awdurdod, neu

(b) os cafodd y person ei benodi gyda chydsyniad yr awdurdod (pa un ai o ran cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau gwasanaeth eraill ai fel arall).

**11 Eithrio: materion nad ydynt yn ymwneud â Chymru**

(1) Ni chaniateir i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater sy'n codi mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) awdurdod rhestredig sy'n cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod heblaw mewn perthynas â Chymru,

(b) gwasanaethau iechyd preifat a ddarperir heblaw mewn perthynas â Chymru.

(2) Nid yw is-adran (1)(a) yn gymwys mewn perthynas â Llywodraeth Cymru.

(3) I'r graddau bod un o swyddogaethau awdurdod rhestredig yn cael ei chyflawni mewn perthynas â'r Gymraeg neu unrhyw agwedd arall ar ddiwylliant Cymru, mae i'w hystyried at ddibenion is-adran (1)(a) yn swyddogaeth a gyflawnir mewn perthynas â Chymru.

**12 Eithrio: rhwymedïau eraill**

(1) Ni chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater o dan y Rhan hon os oes gan y person a dramgwyddwyd (os oes un) y canlynol neu os yw wedi cael y canlynol—

(a) hawl i apelio i dribiwnlys a gyfansoddwyd o dan ddeddfiad neu yn rhinwedd uchelfraint Ei Mawrhydi, neu i gael ei atgyfeirio at dribiwnlys o'r fath, neu i gael adolygiad gerbron tribiwnlys o'r fath,

(b) hawl i apelio i Weinidog y Goron, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, neu

(c) rhwymedi drwy gyfrwng achos mewn llys barn.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys os yw'r Ombwdsmon yn fodlon, yn yr amgylchiadau penodol, nad yw'n rhesymol disgwyl i'r person arfer yr hawl neu'r rhwymedi, neu ddisgwyl iddo fod wedi arfer yr hawl neu'r rhwymedi.

(3) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater o dan y Rhan hon dim ond os yw'r Ombwdsmon wedi'i fodloni—

(a) bod y mater wedi'i ddwyn i sylw'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat (yn ôl y digwydd) y mae'r mater yn ymwneud ag ef gan y person a dramgwyddwyd (os oes un) neu ar ei ran, a

(b) bod yr awdurdod neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi cael cyfle rhesymol i ymchwilio i'r mater ac ymateb iddo.

(4) Ond nid yw is-adran (3) yn atal yr Ombwdsmon rhag ymchwilio i fater os yw'r Ombwdsmon yn fodlon ei bod yn rhesymol yn yr amgylchiadau penodol i'r Ombwdsmon ymchwilio i'r mater er gwaethaf y ffaith nad yw gofynion yr is-adran honno wedi'u bodloni.

**13 Materion eithriedig eraill**

(1) Ni chaniateir i'r Ombwdsmon ymchwilio, o dan y Rhan hon, i fater a bennir yn Atodlen 2.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio Atodlen 2 drwy—

(a) ychwanegu cofnod;

(b) dileu cofnod;

(c) newid cofnod.

(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon.

(4) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (2) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(5) Nid yw is-adran (1) yn atal yr Ombwdsmon rhag ymchwilio i gamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig wrth weithredu gweithdrefn a sefydlwyd i archwilio cwynion neu i adolygu penderfyniadau.

**14 Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu**

(1) Ni chaniateir i'r Ombwdsmon gwestiynu rhinweddau penderfyniad a wnaed heb gamweinyddu gan awdurdod rhestredig wrth arfer disgresiwn.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i rinweddau penderfyniad i'r graddau bod y penderfyniad wedi ei wneud o ganlyniad i arfer barn broffesiynol sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn arferadwy mewn perthynas â darparu iechyd neu ofal cymdeithasol.

*Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio etc*

**15 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio neu i ddod ag ymchwiliad i ben**

(1) Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu o dan adran 3(5) neu adran 4(3)—

(a) i beidio â chychwyn ymchwiliad, neu

(b) i ddod ag ymchwiliad i ben,

rhaid i'r Ombwdsmon baratoi datganiad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad at y personau a restrir yn is-adran (3) sydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad, neu a fyddai, ym marn yr Ombwdsmon, wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad.

(3) Y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) yw—

(a) unrhyw berson a dramgwyddwyd;

(b) unrhyw awdurdod rhestredig;

(c) unrhyw ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat.

(4) Caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o dan yr adran hon os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(6) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o ddatganiad a gyhoeddir o dan is-adran (5), neu unrhyw ran o ddatganiad o'r fath, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(7) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o ddatganiad, neu ran o ddatganiad, o dan is-adran (6).

(8) Os bydd datganiad a baratowyd o dan is-adran (1)—

(a) yn crybwyll enw unrhyw berson heblaw awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat sydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad, neu a fyddai, ym marn yr Ombwdsmon, wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad, neu

(b) yn cynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd y datganiad,

rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth honno mewn fersiwn o'r datganiad a anfonir at berson o dan is-adran (2) neu (4) neu a gyhoeddir o dan is-adran (5), yn ddarostyngedig i is-adran (9).

(9) Nid yw is-adran (8) yn gymwys mewn perthynas â fersiwn o'r datganiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r datganiad.

*Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth*

**16 Gweithdrefn ymchwilio**

(1) Os bydd yr Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad o dan adran 3, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wneud sylwadau ar yr honiadau yn y gŵyn;

(b) rhoi i unrhyw berson arall yr honnir yn y gŵyn ei fod wedi cymryd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt, neu wedi awdurdodi'r camau gweithredu yr achwynir amdanynt, gyfle i wneud sylwadau ar unrhyw honiadau sy'n ymwneud â'r person hwnnw.

(2) Os bydd yr Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad o dan adran 4, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) paratoi cynnig ymchwilio, a

(b) cyflwyno'r cynnig ymchwilio i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat yr ymchwilir iddo.

Ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r Ombwdsmon yn fodlon, ar ôl rhoi sylw i'r mater yr ymchwilir iddo, ei bod yn anymarferol paratoi cynnig ymchwilio a'i gyflwyno i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat yr ymchwilir iddo.

(3) Rhaid i gynnig ymchwilio gynnwys—

(a) y rhesymau am yr ymchwiliad, a

(b) y modd y bodlonwyd y meini prawf y cyfeirir atynt yn adran 5.

(4) Rhaid i'r Ombwdsmon bennu a chyhoeddi gofynion gweithdrefnol y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon eu dilyn (yn ogystal â'r gofynion a bennir yn is-adran (2)) wrth gynnal ymchwiliad o dan adran 4.

(5) Rhaid i'r gofynion yn is-adran (4) gynnwys gweithdrefnau sy'n caniatáu'r canlynol—

(a) cyfle i awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat wneud sylwadau ynghylch y cynnig ymchwilio;

(b) cyfle i unrhyw berson arall y'i gwneir yn hysbys mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio i wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio (i'r graddau y mae'r cynnig ymchwilio yn ymwneud â'r person hwnnw);

(c) pan nad oes unrhyw gynnig ymchwilio—

(i) cyfle i awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat wneud sylwadau ynghylch yr ymchwiliad;

(ii) cyfle i unrhyw berson y'i gwneir yn hysbys gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r mater i wneud sylwadau ar yr ymchwiliad (i'r graddau y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'r person hwnnw).

(6) Rhaid i ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat.

(7) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yn yr adran hon, y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad yw'r un sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon yn amgylchiadau'r achos.

(8) Yn benodol, caiff yr Ombwdsmon—

(a) gwneud y cyfryw ymholiadau y mae'r Ombwdsmon o'r farn eu bod yn briodol;

(b) penderfynu a gaiff unrhyw berson ei gynrychioli yn yr ymchwiliad gan berson awdurdodedig neu fel arall.

(9) Yn is-adran (8) ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd, at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig mewn perthynas â gweithgaredd sy'n golygu arfer hawl i ymddangos mewn achos neu ymladd achos (o fewn ystyr y Ddeddf honno).

(10) Caiff yr Ombwdsmon dalu i'r person a wnaeth y gŵyn (os oes un) ac i unrhyw berson arall sy'n bresennol neu sy'n rhoi gwybodaeth at ddibenion yr ymchwiliad—

(a) y cyfryw symiau y penderfyna'r Ombwdsmon arnynt mewn perthynas â threuliau yr aethpwyd iddynt yn briodol gan y person, a

(b) y cyfryw lwfansau y penderfyna'r Ombwdsmon arnynt i ddigolledu'r person am ei amser,

yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau y penderfyna'r Ombwsdmon arnynt.

(11) Nid yw cynnal ymchwiliad mewn perthynas ag awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat yn effeithio ar y canlynol—

(a) dilysrwydd unrhyw gamau gweithredu a gymerodd yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat, neu

(b) unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat i gymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas ag unrhyw fater yr ymchwilir iddo.

**17 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir o dan y Rhan hon.

(2) At ddibenion ymchwiliad caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, i wneud hynny.

(3) At ddibenion ymchwiliad mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys mewn perthynas â—

(a) presenoldeb tystion a holi tystion (gan gynnwys gweinyddu llwon a chadarnhadau ac archwilio tystion dramor), a

(b) dangos dogfennau.

(4) At ddibenion ymchwiliad caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, i ddarparu unrhyw gyfleuster y caiff yr Ombwdsmon ei wneud yn rhesymol ofynnol.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adran (7), ni chaniateir gorfodi unrhyw berson at ddibenion ymchwiliad i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen na allai gael ei orfodi i'w rhoi neu ei dangos mewn achosion sifil gerbron yr Uchel Lys.

(6) Nid oes rhwymedigaeth i gadw cyfrinachedd neu gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi, neu a roddwyd i bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi,pa un a osodwyd y rhwymedigaeth honno gan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol, i fod yn gymwys i ddatgelu gwybodaeth at ddibenion ymchwiliad.

(7) Nid oes gan y Goron hawl, mewn perthynas ag ymchwiliad, i unrhyw fraint o ran dangos dogfennau neu o ran rhoi tystiolaeth a fyddai'n cael ei chaniatáu fel arall yn ôl y gyfraith mewn achosion cyfreithiol.

**18 Rhwystro a dirmygu**

(1) Os bodlonir yr Ombwdsmon fod yr amod yn is-adran (2) wedi cael ei fodloni o ran person, caiff yr Ombwdsmon ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

(2) Yr amod yw bod y person—

(a) heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon rhag cael eu cyflawni o dan y Rhan hon, neu

(b) wedi cyflawni gweithred o ran ymchwiliad a fyddai, pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, yn ddirmyg llys.

(3) Ond nid yw'r amod yn is-adran (2) wedi'i fodloni mewn perthynas â pherson dim ond am fod y person hwnnw wedi cymryd camau gweithredu yn y modd a grybwyllir yn adran 16(11).

(4) Os bydd yr Ombwdsmon yn dyroddi tystysgrif o dan is-adran (1), caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater.

(5) Os bodlonir yr Uchel Lys fod yr amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni o ran y person, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai'r person wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

*Adroddiadau ar ymchwiliadau*

**19 Adroddiadau ar ymchwiliadau**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon, ar ôl cynnal ymchwiliad—

(a) paratoi adroddiad ynghylch canfyddiadau'r Ombwdsmon, a

(b) anfon copi o'r datganiad at y personau a restrir yn is-adran (2) sydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad.

Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 25.

(2) Y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b) yw—

(a) unrhyw berson a dramgwyddwyd;

(b) unrhyw awdurdod rhestredig;

(c) unrhyw ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat;

(d) unrhyw berson yr honnir mewn unrhyw gŵyn ei fod wedi cymryd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt neu wedi awdurdodi'r camau gweithredu yr achwynir amdanynt neu a wneir yn hysbys gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r mater;

(e) os yw'r awdurdod a restrir yn ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru—

(i) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol yr oedd yr awdurdod, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun yr ymchwiliad, wedi ymrwymo i gontract ag ef i ddarparu'r gwasanaethau iechyd teulu sy'n destun ymchwiliad;

(ii) unrhyw berson yr oedd yr awdurdod, bryd hynny, wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau hynny iddo;

(iii) unrhyw berson yr oedd yr awdurdod, bryd hynny, wedi gwneud trefniadau ag ef ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny;

(f) os yw'r awdurdod a restrir yn ddarparwr annibynnol yng Nghymru—

(i) unrhyw gorff yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yr oedd yr awdurdod, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun yr ymchwiliad, wedi gwneud trefniadau ag ef i ddarparu'r gwasanaethau sy'n destun ymchwiliad;

(ii) unrhyw ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru yr oedd yr awdurdod, bryd hynny, wedi gwneud trefniadau ag ef i ddarparu'r gwasanaethau hynny;

(g) Prif Weinidog Cymru (oni bai mai'r awdurdod rhestredig yw Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru).

(3) Caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(4) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad a baratowyd o dan yr adran hon os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(5) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (4), neu unrhyw ran o adroddiad o'r fath, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(6) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad, neu ran o adroddiad, o dan is-adran (5).

(7) Os bydd adroddiad a baratowyd o dan yr adran hon—

(a) yn crybwyll enw unrhyw berson heblaw awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat y mae a wnelo'r adroddiad ag ef, neu

(b) yn cynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad,

rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth honno mewn fersiwn o'r adroddiad a anfonir at berson o dan is-adran (1)(b) neu (3) neu a gyhoeddir o dan is-adran (4), yn ddarostyngedig i is-adran (8).

(8) Nid yw is-adran (7) yn gymwys mewn perthynas â fersiwn o'r adroddiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

**20 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau**

(1) Os bydd awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat (yn ôl y digwydd) yn cael copi o adroddiad o dan adran 19(1)(b), rhaid i'r awdurdod neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat sicrhau bod copïau o'r fersiwn honno o'r adroddiad ar gael am gyfnod o dair wythnos o leiaf—

(a) yn un neu ragor o'i swyddfeydd, a

(b) ar ei wefan (os oes un).

(2) Drwy gydol y cyfnod hwnnw o dair wythnos, caiff unrhyw berson—

(a) archwilio copi o'r adroddiad yn y swyddfa neu'r swyddfeydd dan sylw ar unrhyw adeg resymol yn ddi-dâl;

(b) gwneud copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono ar unrhyw adeg resymol yn ddi-dâl;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat roi copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono i'r person, wedi i'r person dalu swm rhesymol os gofynnir am hynny;

(d) gweld copi o'r adroddiad ar y wefan (os oes un) yn ddi-dâl.

(3) Heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl i'r copi o'r adroddiad ddod i law rhaid i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat sicrhau bod hysbysiad yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y rhan honno o Gymru lle digwyddodd y mater sy'n destun yr adroddiad.

(4) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) y dyddiad y bydd y cyfnod o dair wythnos y cyfeirir ato yn is-adran (1) yn cychwyn,

(b) y swyddfa neu'r swyddfeydd lle gellir archwilio copi o'r adroddiad, ac

(c) y wefan (os oes un) a enwir yn is-adran (1)(b).

(5) Caiff yr Ombwdsmon roi cyfarwyddydau i awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

(6) Caiff cyfarwyddydau o dan is-adran (5) ymwneud â'r canlynol—

(a) awdurdod rhestredig penodol neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat mewn perthynas ag adroddiad penodol, neu

(b) pob awdurdod rhestredig neu unrhyw un neu ragor ohonynt neu unrhyw ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat o ran cyflawni swyddogaethau yn gyffredinol o dan yr adran hon.

(7) Mae person yn cyflawni trosedd—

(a) os bydd y person yn fwriadol yn rhwystro person wrth iddo arfer hawl a roddir gan is-adran (2)(a), (b) neu (d), neu

(b) os bydd y person yn gwrthod cydymffurfio â gofyniad o dan is-adran (2)(c).

(8) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (7) yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(9) Caiff yr Ombwdsmon gyfarwyddo bod is-adrannau (1) i (4) yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas ag adroddiad penodol.

(10) Wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd o dan is-adran (9), rhaid i'r Ombwdsmon ystyried y canlynol—

(a) budd y cyhoedd,

(b) buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un), ac

(c) buddiannau unrhyw bersonau eraill sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol.

**21 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau: darparwyr gofal iechyd**

(1) Os caiff ymchwiliad ei gynnal yn achos awdurdod rhestredig sy'n ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, mae adran 20 yn cael effaith gyda'r addasiadau a bennir yn is-adrannau (2) i (4).

(2) Yn lle is-adran (1) mewnosoder—

"(1) Rhaid i berson sydd wedi cael copi o adroddiad o dan adran 19 yn rhinwedd adran 19(2)(e) drefnu bod copïau o'r adroddiad ar gael am gyfnod o dair wythnos o leiaf—

(a) yn un neu ragor o swyddfeydd y person, a

(b) os oes gan y person wefan, ar y wefan honno.".

(3) Mae'r cyfeiriadau at yr awdurdod rhestredig i'w cymryd yn gyfeiriadau at y person hwnnw.

(4) Mae'r cyfeiriadau at awdurdodau rhestredig, neu at awdurdod rhestredig penodol, i'w cymryd i fod yn gyfeiriadau at bersonau, neu berson penodol, o'r un disgrifiad â'r person hwnnw.

(5) Os caiff ymchwiliad ei gynnal yn achos awdurdod rhestredig sy'n ddarparwr annibynnol yng Nghymru, mae adran 20 yn cael effaith gyda'r addasiadau a bennir yn is-adrannau (6) i (8).

(6) Yn lle is-adran (1) mewnosoder—

"(1) Rhaid i berson sydd wedi cael copi o adroddiad o dan adran 19 yn rhinwedd adran 19(2)(f) drefnu bod copïau o'r adroddiad ar gael am gyfnod o dair wythnos o leiaf—

(a) yn un neu ragor o swyddfeydd y person, a

(b) os oes gan y person wefan, ar y wefan honno.".

(7) Mae'r cyfeiriadau at yr awdurdod rhestredig i'w cymryd yn gyfeiriadau at y person hwnnw.

(8) Mae'r cyfeiriadau at awdurdodau rhestredig, neu at awdurdod rhestredig penodol, i'w cymryd i fod yn gyfeiriadau at bersonau, neu berson penodol, o'r un disgrifiad â'r person hwnnw.

**22 Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i awdurdod rhestredig**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, mewn adroddiad o dan adran 19 o ymchwiliad mewn perthynas ag awdurdod rhestredig, yn dod i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo.

(2) Rhaid i'r awdurdod rhestredig ystyried yr adroddiad a hysbysu'r Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod a ganiateir—

(a) am y camau gweithredu y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb iddo, a

(b) cyn diwedd pa gyfnod y mae'n bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny (os nad yw wedi gwneud hynny eisoes).

(3) Y cyfnod a ganiateir yw—

(a) y cyfnod o fis sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r awdurdod yn cael yr adroddiad, neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

**23 Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i wasanaethau iechyd preifat**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, mewn adroddiad a gyhoeddir o dan adran 19(4) o ymchwiliad mewn perthynas â gwasanaethau iechyd preifat, yn dod i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r gwasanaethau iechyd preifat.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon roi cyfle i'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat hysbysu'r Ombwdsmon—

(a) am y camau gweithredu y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb iddo, a

(b) cyn diwedd pa gyfnod y mae'n bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny (os nad yw wedi gwneud hynny eisoes).

(3) Os yw awdurdod rhestredig yn ystyried trefnu contract am wasanaethau gyda'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat, rhaid i'r awdurdod rhestredig roi sylw i'r adroddiad ac i unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr gwasanaethau iechyd preifat mewn ymateb i'r adroddiad.

**24 Diffyg gweithredu ar ôl cael adroddiad**

(1) Os bodlonir yr Ombwdsmon fod yr amod yn is-adran (2) wedi cael ei fodloni o ran awdurdod rhestredig, caiff yr Ombwdsmon ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

(2) Yr amod yw bod yr awdurdod rhestredig wedi anwybyddu adroddiad yr Ombwdsmon yn fwriadol heb esgus cyfreithlon.

**25 Adroddiadau: gweithdrefn amgen**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys, ar ôl i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad—

(a) os yw'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo, a

(b) os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau 19 i 23 fod yn gymwys.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys, ar ôl i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad—

(a) os daw'r Ombwdsmon i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo, a

(b) bod yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat yn cytuno i weithredu, cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, unrhyw argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon, ac

(c) os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau 19 i 23 fod yn gymwys.

(3) Y cyfnod a ganiateir yw—

(a) cyfnod y cytunwyd arno rhwng yr Ombwdsmon, yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat (yn ôl y digwydd) a'r person a wnaeth y gŵyn (os oes un), neu

(b) os yw'r Ombwdsmon o'r farn na ellir gwneud cytundeb o'r fath, y cyfnod a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

(4) Caiff yr Ombwdsmon benderfynu paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Ombwdsmon o dan yr adran hon yn hytrach nag o dan adran 19.

(5) Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu paratoi adroddiad o dan yr adran hon—

(a) nid yw adrannau 19 i 23 yn gymwys;

(b) rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at y canlynol—

(i) y person a dramgwyddwyd (os oes un);

(ii) unrhyw awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat y mae a wnelo'r adroddiad ag ef;

(c) caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(6) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad a baratowyd o dan yr adran hon os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(7) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (6), neu unrhyw ran o adroddiad o'r fath, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(8) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad, neu ran o adroddiad, o dan is-adran (7).

(9) Os bydd adroddiad a baratowyd o dan yr adran hon—

(a) yn crybwyll enw unrhyw berson heblaw'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat y mae a wnelo'r adroddiad ag ef, neu

(b) yn cynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad,

rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth honno mewn fersiwn o'r adroddiad a anfonir at berson o dan is-adran (5) neu a gyhoeddir o dan is-adran (6), yn ddarostyngedig i is-adran (10).

(10) Nid yw is-adran (9) yn gymwys mewn perthynas â fersiwn o'r adroddiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

*Adroddiadau arbennig*

**26 Adroddiadau arbennig**

(1) Caiff yr Ombwdsmon baratoi adroddiad o dan yr adran hon ("adroddiad arbennig") os bydd is-adran (2), (4) neu (6) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, mewn adroddiad o dan adran 19, wedi dod i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo, ac—

(a) nad yw'r Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan adran 22 cyn diwedd y cyfnod a ganiateir o dan yr adran honno,

(b) bod yr Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad hwnnw, ond nad yw'n fodlon â'r canlynol—

(i) y camau gweithredu y mae'r awdurdod rhestredig wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd, neu

(ii) cyn diwedd pa gyfnod y mae'n bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny,

(c) bod yr Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad hwnnw, ond nad yw'n fodlon bod yr awdurdod rhestredig, cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, wedi cymryd y camau gweithredu y bwriadai eu cymryd,

(d) nad yw'r Ombwdsmon wedi cael unrhyw hysbysiad o dan adran 23 o fewn amser rhesymol, neu

(e) bod yr Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad hwnnw, ond nad yw'n fodlon â'r canlynol—

(i) y camau gweithredu y mae'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd, neu

(ii) cyn diwedd pa gyfnod y mae'n bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Y cyfnod a ganiateir at ddibenion is-adran (2)(c) yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn adran 22(2)(b), neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r Ombwdsmon—

(a) wedi paratoi adroddiad o dan adran 25(2), a

(b) os nad yw'n fodlon bod yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi gweithredu argymhellion yr Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

(5) Y cyfnod a ganiateir at ddibenion is-adran (4)(b) yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn adran 25(2)(b), neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

(6) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os cafodd mater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo ei ddatrys,

(b) os daeth yr Ombwdsmon, wrth ddatrys y mater, i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater,

(c) os yw'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi cytuno i gymryd camau gweithredu penodol cyn diwedd cyfnod penodol, a

(d) os nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon bod yr awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi cymryd y camau gweithredu hynny cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

(7) Y cyfnod a ganiateir at ddibenion is-adran (6)(d) yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (6)(c), neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

(8) Rhaid i adroddiad arbennig—

(a) nodi'r ffeithiau sy'n sail i gymhwyso is-adran (2), (4) neu (6), a

(b) gwneud y cyfryw argymhellion sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon o ran y camau gweithredu y dylid, ym marn yr Ombwdsmon, eu cymryd—

(i) i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi i'r person, a

(ii) i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi yn y dyfodol.

(9) Rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig—

(a) os caiff yr adroddiad arbennig ei baratoi am fod is-adran (2) yn gymwys, at bob person yr anfonwyd copi o'r adroddiad o dan adran 19 ato o dan adran 19(1)(b);

(b) os caiff yr adroddiad arbennig ei baratoi am fod is-adran (4) neu (6) yn gymwys, at y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat y mae a wnelo'r adroddiad ag ef.

(10) Caiff yr Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig at unrhyw bersonau eraill sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol.

**27 Adroddiadau arbennig: atodol**

(1) Caiff yr Ombwdsmon—

(a) cyhoeddi adroddiad arbennig a wnaed o dan adran 26;

(b) rhoi copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd neu unrhyw ran ohono i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(2) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad (neu ran o adroddiad) o dan is-adran (1)(b).

(3) Rhaid i'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat y gwneir adroddiad arbennig ar ei gyfer ad-dalu'r Ombwdsmon am y gost o gyhoeddi adroddiad arbennig os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ombwdsmon.

(4) Os bydd adroddiad arbennig—

(a) yn crybwyll enw unrhyw berson heblaw'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat y mae a wnelo'r adroddiad ag ef, neu

(b) yn cynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad,

rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth honno mewn fersiwn o'r adroddiad a anfonir at berson o dan adran 26(9) neu (10) neu a gyhoeddir o dan is-adran (1) o'r adran hon, yn ddarostyngedig i is-adran (5).

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys mewn perthynas â fersiwn o'r adroddiad arbennig os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau unrhyw berson a dramgwyddwyd ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

(6) Mae adrannau 20 a 21 (rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau o dan adran 19) yn gymwys mewn perthynas ag adroddiad arbennig o dan adran 26 yn yr un modd ag y maent yn gymwys mewn perthynas ag adroddiad o dan adran 19.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys os caiff adroddiad arbennig mewn perthynas â darparwr gwasanaethau iechyd preifat ei gyhoeddi o dan is-adran (1)(a).

(8) Os yw awdurdod lleol yn ystyried trefnu contract am wasanaethau gyda'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat, rhaid i'r awdurdod rhestredig roi sylw i'r adroddiad arbennig ac i unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr gwasanaethau iechyd preifat yn sgil yr argymhellion a wnaeth yr Ombwdsmon yn yr adroddiad arbennig.

**28 Adroddiadau arbennig sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru etc**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os caiff adroddiad arbennig ei wneud mewn achos pan gafodd yr ymchwiliad ei wneud mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Rhaid i'r person perthnasol osod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad.

(3) Yn is-adran (2) ystyr "y person perthnasol" yw—

(a) os cafodd yr ymchwiliad ei wneud mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru, Prif Weinidog Cymru, a

(b) os cafodd yr ymchwiliad ei wneud mewn cysylltiad â Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, aelod o'r Comisiwn hwnnw.

*Pŵer i fynnu treuliau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat*

**29 Pŵer i fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Ombwdsmon yn ymchwilio i ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat a phan fo'r Ombwdsmon yn fodlon bod yr amod yn is-adran (2) wedi'i bodloni.

(2) Yr amod yw bod y darparwr gwasanaethau iechyd preifat—

(a) heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon rhag cael eu cyflawni o dan y Rhan hon, neu

(b) wedi cyflawni gweithred o ran ymchwiliad a fyddai, pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, yn ddirmyg llys.

(3) Ond nid yw'r amod yn is-adran (2) wedi ei bodloni o ran person dim ond am fod y person wedi cyflawni gweithred fel y crybwyllir yn adran 16(11).

(4) Caiff yr Ombwdsmon gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad adennill costau") i'r darparwr fel modd o adennill costau yr aeth yr Ombwdsmon iddynt o ganlyniad i unrhyw rwystr neu weithred y cyfeirir atynt yn yr amod yn is-adran (2)

(5) Mae'r costau y cyfeirir atynt yn is-adran (4) yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y costau o gael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(6) Rhaid i hysbysiad adennill costau—

(a) pennu cyfanswm y costau y mae'r Ombwdsmon am eu hadennill o dan is-adran (4), gan gynnwys manylion y costau hynny,

(b) pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu, ac

(c) egluro'r hawl i apelio yn is-adran (9).

(7) Rhaid i'r dyddiad y cyfeirir ato yn is-adran (6)(b) fod o leiaf 28 diwrnod yn hwyrach na'r dyddiad y caiff yr hysbysiad adennill costau ei gyflwyno i'r darparwr.

(8) Rhaid i'r darparwr dalu'r costau erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad adennill costau (ond mae hyn yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn yr adran hon).

(9) Caiff y darparwr apelio i'r llys ynadon yn erbyn hysbysiad adennill costau cyn pen 21 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad.

(10) Mae apêl fod ar ffurf cwyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llys Ynadon 1980 (p.43).

(11) At ddibenion y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl, mae gwneud cwyn i gael ei drin fel gwneud apêl.

(12) Ar apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau'r hysbysiad;

(b) dileu neu amrywio'r hysbysiad;

(c) mewn unrhyw achos, cyfeirio'r achos at yr Ombwdsmon i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau'r Llys;

a chaiff wneud y cyfryw orchymyn o ran costau sydd, yn ei farn ef, yn briodol.

(13) Pan fo llys ynadon, ar apêl o dan yr adran hon, yn dileu neu'n amrywio hysbysiad, caiff orchymyn yr Ombwdsmon i ddigolledu'r darparwr am y golled a ddioddefodd o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad.

(14) Os cyflwynir apêl yn erbyn hysbysiad adennill costau o dan yr adran hon, yna i'r graddau y caiff yr hysbysiad ei gynnal, rhaid i'r darparwr dalu'r costau cyn pen 28 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y penderfynir ar yr apêl.

(15) Mae costau y gellir eu hadennill o dan yr adran hon i'w hadennill fel dyled.

*Awdurdodau rhestredig*

**30 Awdurdodau rhestredig**

(1) Mae'r personau a bennir yn Atodlen 3 yn awdurdodau rhestredig at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 3 drwy—

(a) ychwanegu person;

(b) hepgor person;

(c) newid y disgrifiad o berson.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) sy'n ychwanegu person at Atodlen 3 ddarparu bod y Ddeddf hon yn gymwys i'r person hwnnw gyda'r addasiadau a bennir yn y rheoliadau.

(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon ac unrhyw bersonau eraill sydd, yn eu barn hwy, yn briodol.

(5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (2) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(6) Mae adrannau 31 a 32 yn cynnwys cyfyngiadau pellach ar y pŵer yn is-adran (2).

**31 Cyfyngiadau ar bŵer i ddiwygio Atodlen 3**

(1) Ni chaniateir i reoliadau o dan adran 30(2) hepgor Llywodraeth Cymru na Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Atodlen 3.

(2) Caniateir i reoliadau o dan adran 30(2) ychwanegu person at Atodlen 3 dim ond—

(a) os oes gan y person swyddogaethau i'w cyflawni mewn perthynas â Chymru neu ran o Gymru (pa un a yw'r swyddogaethau hynny hefyd i'w cyflawni yn rhywle heblaw mewn perthynas â Chymru ai peidio),

(b) os yw holl swyddogaethau'r person neu rai ohonynt mewn maes y mae gan Weinidogion Cymru, neu Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru swyddogaethau, ac

(c) os yw'r person yn dod o fewn is-adran (3), (4) neu (5).

(3) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n gorff a sefydlwyd gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad neu yn rhinwedd uchelfraint Ei Mawrhydi neu mewn unrhyw fodd arall gan Weinidog y Goron, adran o'r llywodraeth, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru neu awdurdod rhestredig arall,

(b) os yw'n gorff a gyfansoddwyd yn llwyr neu'n rhannol drwy benodiad a wnaed gan Ei Mawrhydi, Gweinidog y Goron, adran o'r llywodraeth, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru neu awdurdod rhestredig arall, ac

(c) os yw o leiaf hanner ei wariant ar gyflawni'i swyddogaethau o ran Cymru yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru neu'n cael ei dalu'n uniongyrchol o daliadau a wneir gan awdurdodau rhestredig eraill.

(4) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n gorff a sefydlwyd gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad, a

(b) os oes ganddo bŵer i ddyroddi praesept neu ardoll.

(5) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y person yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, a

(b) os yw o leiaf hanner gwariant y person ar gyflawni'r swyddogaethau hynny o ran Cymru yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru neu'n uniongyrchol neu anuniongyrchol o daliadau a wneir gan awdurdodau rhestredig eraill.

(6) Ni chaniateir i reoliadau o dan adran 30(2) ychwanegu at Atodlen 3—

(a) Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu'n bennaf;

(b) person sy'n cyflawni, o dan berchnogaeth genedlaethol, ddiwydiant neu ymgymeriad neu ran o ddiwydiant neu ymgymeriad.

**32 Darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ychwanegu personau at Atodlen 3**

Os bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud rheoliadau o dan adran 30(2) sy'n ychwanegu person at Atodlen 3, rhaid iddynt hefyd bennu'r canlynol yn y rheoliadau—

(a) pa un a yw holl swyddogaethau'r person, ai dim ond rhai ohonynt, yn dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon o dan y Rhan hon;

(b) os mai dim ond rhai o swyddogaethau'r person sydd yn dod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon o dan y Rhan hon, pa rai yw'r swyddogaethau hynny.

**33 Pŵer i ddyroddi canllawiau**

(1) Caiff yr Ombwdsmon ddyroddi i un neu ragor o awdurdodau rhestredig y cyfryw ganllawiau ynghylch arferion gweinyddu da sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(2) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r cyfryw awdurdodau rhestredig, neu bersonau y cred yr Ombwdsmon y mae'n eu cynrychioli, sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(3) Os yw canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon yn gymwys i awdurdod rhestredig, rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r canllawiau wrth gyflawni ei swyddogaethau.

(4) Wrth gynnal ymchwiliad mewn perthynas ag awdurdod rhestredig, caiff yr Ombwdsmon ystyried i ba raddau y mae'r awdurdod wedi cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan yr adran hon sy'n gymwys i'r awdurdod.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon mewn unrhyw ffordd sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, gan gynnwys yn benodol drwy roi'r canllawiau mewn adroddiad blynyddol neu eithriadol.

(6) Caiff canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gynnwys darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(7) Yn ddarostyngedig i is-adran (8), rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon—

(a) peidio â chrybwyll enw unrhyw berson heblaw'r awdurdodau rhestredig y mae a wnelo'r canllawiau â hwy, neu awdurdod rhestredig yr ymchwiliwyd iddo o dan y Ddeddf hon, neu

(b) peidio â chynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd y canllawiau.

(8) Nid yw is-adran (7) yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau unrhyw bersonau sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y canllawiau.

*Awdurdodau rhestredig: gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion*

**34 Ymdrin â chwynion: Datganiad o egwyddorion**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau awdurdodau rhestredig ar gyfer ymdrin â chwynion.

(2) Rhaid i awdurdod rhestredig sicrhau—

(a) bod ganddo weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion mewn cysylltiad â chamau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod rhestredig, a

(b) bod unrhyw weithdrefn o'r fath yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

(3) Rhaid i awdurdod rhestredig sy'n gyfrifol, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, am weithdrefn ymdrin â chwynion—

(a) mewn perthynas â, neu

(b) a weithredir gan,

awdurdod rhestredig arall, sicrhau bod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

(4) Ni chaniateir cyhoeddi'r datganiad cyntaf o egwyddorion o dan is-adran (1) oni bai bod drafft o'r datganiad wedi'i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(5) Ni chaniateir i'r Cynulliad gymeradwyo'r drafft ar ôl dau fis wedi iddo gael ei osod.

(6) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddau fis at ddibenion is-adran (5), ni chaniateir ystyried unrhyw amser pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod.

(7) Cyn gosod datganiad drafft o egwyddorion gerbron y Cynulliad yn unol ag is-adran (4) rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) y cyfryw awdurdodau rhestredig a phersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(8) Rhaid i'r Ombwdsmon, wrth baratoi'r datganiad drafft o egwyddorion sydd i'w osod gerbron y Cynulliad yn unol ag is-adran (4), roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad a grybwyllir yn is-adran (7).

(9) Daw'r datganiad o egwyddorion i rym pan gaiff ei gyhoeddi gan yr Ombwdsmon.

(10) O dro i dro, caiff yr Ombwdsmon adolygu ac ailgyhoeddi'r datganiad o egwyddorion.

(11) Pan fo'r Ombwdsmon o'r farn bod unrhyw adolygiad o'r datganiad o egwyddorion o dan is-adran (10) yn berthnasol, mae is-adrannau (4) i (8) yn gymwys i'r datganiad o egwyddorion hwnnw fel y maent yn gymwys i'r datganiad cyntaf o egwyddorion.

(12) Yn yr adran hon ac adrannau 35 i 38, ystyr "gweithdrefnau ymdrin â chwynion" yw gweithdrefnau awdurdodau rhestredig sy'n archwilio cwynion neu'n adolygu penderfyniadau o ran camau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig pan fo'r mater o dan sylw yn un y gellir gwneud cŵyn i'r Ombwdsmon yn ei gylch a'i ymchwilio o dan adran 3.

**35 Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion**

(1) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig.

(2) Rhaid i weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion (y cyfeirir ati yn y Ddeddf hon fel "gweithdrefn enghreifftiol") gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

(3) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol gwahanol at ddibenion gwahanol.

(4) Cyn cyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r cyfryw awdurdodau rhestredig neu grwpiau o awdurdodau rhestredig sy'n briodol yn marn yr Ombwdsmon.

(5) O dro i dro, caiff yr Ombwdsmon adolygu ac ailgyhoeddi unrhyw weithdrefn enghreifftiol; ac os gwna hynny bydd is-adran (4) yn gymwys.

(6) Pan fo gweithdrefn enghreifftiol yn cael ei hadolygu a'i hailgyhoeddi yn rhinwedd is-adran (5), mae adran 36 yn cael effaith gyda'r addasiadau canlynol—

(a) mae unrhyw fanyleb o dan is-adran (1) o'r adran honno mewn perthynas â'r weithdrefn enghreifftiol yn parhau i gael effaith fel manyleb mewn perthynas â'r weithdrefn enghreifftiol a adolygwyd ac a ailgyhoeddwyd,

(b) mae unrhyw gyfeiriad arall at weithdrefn enghreifftiol yn gyfeiriad at y weithdrefn enghreifftiol a adolygwyd ac a ailgyhoeddwyd,

(c) hepgorir is-adran (3) o'r adran honno.

(7) Caiff yr Ombwdsmon dynnu'r weithdrefn enghreifftiol yn ôl ar unrhyw adeg; a bydd unrhyw fanyleb o dan adran 36(1) mewn perthynas â'r weithdrefn enghreifftiol yn peidio â chael effaith.

**36 Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig**

(1) Caiff yr Ombwdsmon bennu unrhyw awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo; a rhaid hysbysu'r awdurdod yn unol â hynny.

(2) Pan fo gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol i awdurdod rhestredig yn rhinwedd manyleb o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod sicrhau bod gweithdrefn ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol at ddibenion y fanyleb.

(3) Pan fo is-adran (2) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod gyflwyno disgrifiad o'r weithdrefn ymdrin â chwynion, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r weithdrefn enghreifftiol, o fewn chwe mis i'r fanyleb a enwir yn yr is-adran honno.

(4) Caiff awdurdod rhestredig, gyda chydsyniad yr Ombwdsmon, addasu cymhwysiad y weithdrefn enghreifftiol sy'n berthnasol iddo, ond dim ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn i'r awdurdod weithredu'r weithdrefn yn effeithiol.

(5) Caiff yr Ombwdsmon ddirymu unrhyw fanyleb o dan is-adran (1) ar unrhyw adeg.

**37 Datganiadau o beidio â chydymffurfio**

(1) Pan fo gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol i awdurdod rhestredig yn rhinwedd manyleb o dan adran 36(1), caiff yr Ombwdsmon ddatgan nad yw gweithdrefn yr awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion, y rhoddwyd disgrifiad ohoni gan yr awdurdod o dan adran 36(3) neu fel arall, yn cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol.

(2) Pan nad oes manyleb o dan adran 36(1) mewn perthynas ag awdurdod rhestredig, caiff yr Ombwdsmon ddatgan nad yw gweithdrefn yr awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion, y rhoddwyd disgrifiad ohoni gan yr awdurdod o dan adran 38 neu fel arall, yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

(3) Pan fo datganiad yn cael ei wneud o dan is-adran (1) neu (2)—

(a) rhaid i'r Ombwdsmon roi rhesymau ysgrifenedig,

(b) caiff yr Ombwdsmon bennu'r cyfryw addasiadau i'r weithdrefn ymdrin â chwynion a fyddai'n arwain at dynnu'r datganiad yn ôl.

(4) Pan fo datganiad yn cael ei wneud o dan is-adran (1) neu (2), rhaid i'r awdurdod rhestredig gyflwyno disgrifiad o'i weithdrefn ymdrin â chwynion, ar ôl ystyried y rhesymau a roddir o dan is-adran (3)(a) ac unrhyw addasiadau a bennir yn is-adran (3)(b), o fewn dau fis i'r datganiad.

(5) Caiff yr Ombwdsmon dynnu'n ôl ddatganiad o beidio â chydymffurfio a wneir o dan is-adran (1) neu (2) ar unrhyw adeg os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n addas.

**38 Cyflwyno disgrifiad o weithdrefn ymdrin â chwynion: cyffredinol**

(1) Rhaid i awdurdod rhestredig gyflwyno disgrifiad o'i weithdrefn ymdrin â chwynion os bydd yr Ombwdsmon yn cyfarwyddo hynny; a rhaid gwneud hynny cyn pen tri mis ar ôl cael cyfarwyddyd o'r fath neu cyn pen y cyfryw gyfnod arall a gyfarwyddir gan yr Ombwdsmon.

(2) Mae adrannau 36(3)a 37(4) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon.

(3) Pan fo awdurdod rhestredig wedi cyflwyno disgrifiad o'i weithdrefn ymdrin â chwynion i'r Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon neu fel arall, rhaid i'r awdurdod ddarparu'r cyfryw wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r weithdrefn honno y caiff yr Ombwdsmon yn rhesymol ofyn amdani; a rhaid gwneud hynny cyn pen y cyfryw gyfnod a gyfarwyddir gan yr Ombwdsmon.

**39 Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: cymhwyso deddfiadau eraill**

Nid yw'r dyletswyddau yn adrannau 34(2) a (3) a 36(2) yn gymwys i'r graddau—

(a) nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pwerau angenrheidiol (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf hon) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau, neu

(b) bod y dyletswyddau yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall.

**40 Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: hybu arferion gorau etc**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) monitro arferion a nodi unrhyw dueddiadau yn yr arferion o ran y ffordd y mae awdurdodau rhestredig yn ymdrin â chwynion,

(b) hybu arferion gorau o ran y ffordd yr ymdrinnir â chwynion,

(c) annog cydweithrediad a rhannu arferion gorau ymhlith awdurdodau rhestredig o ran ymdrin â chwynion.

(2) Rhaid i awdurdod rhestredig gydweithredu â'r Ombwdsmon wrth arfer y swyddogaeth yn is-adran (1).

(3) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys i'r graddau—

(a) nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pwerau angenrheidiol (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf hon) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd, neu

(b) bod y ddyletswydd yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall.

*Digolledu*

**41 Digolledu'r person a dramgwyddwyd**

(1) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os caiff cwyn mewn perthynas â mater ei gwneud neu ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon, a

(b) os yw'r gŵyn yn un y mae gan yr Ombwdsmon bŵer i ymchwilio iddi o dan adran 3.

(2) Caiff yr awdurdod rhestredig y mae a wnelo'r gŵyn ag ef wneud taliad i'r person a dramgwyddwyd, neu ddarparu unrhyw fudd arall i'r person a dramgwyddwyd, mewn perthynas â'r mater sy'n destun y gŵyn.

(3) Nid yw'n berthnasol at ddibenion yr adran hon fod yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'r gŵyn, wedi dod ag ymchwiliad i'r gŵyn i ben, nad yw eto wedi cwblhau ymchwiliad i'r gŵyn, neu nad yw wedi cynnal y gŵyn.

(4) Nid yw'r pŵer yn is-adran (2) yn effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod rhestredig i wneud y taliad neu i ddarparu'r budd.

## RHAN 4

## YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Cymhwyso'r Rhan hon*

### 42 Materion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt

(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r materion canlynol—

(a) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr cartref gofal mewn cysylltiad â darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru;

(b) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr gofal cartref mewn cysylltiad â gofal cartref yng Nghymru;

(c) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal lliniarol yng Nghymru.

(2) Ond nid yw'r Rhan hon yn gymwys i'r canlynol—

(a) materion y caniateir ymchwilio iddynt o dan Ran 3, neu

(b) materion a ddisgrifir yn Atodlen 4.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 4 drwy—

(a) ychwanegu cofnod,

(b) dileu cofnod, neu

(c) newid cofnod.

(4) Cyn gwneud rheoliadau dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon.

(5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(6) I gael ystyr y termau canlynol gweler adrannau 61 i 63—

"cartref gofal" ("*care home*");

"darparwr cartref gofal" ("*care home provider*");

"gofal cartref" ("*domiciliary care*");

"darparwr gofal cartref" ("*domiciliary care provider*");

"gwasanaeth gofal lliniarol" ("*palliative care service*");

"darparwr gofal lliniarol annibynnol" ("*independent palliative care provider*").

*Ymchwilio i gwynion*

**43 Pŵer i ymchwilio i gwynion**

(1) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn ynghylch mater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo—

(a) os yw'r gŵyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon, a

(b) yn achos cwyn sy'n ymwneud â darparwr gofal lliniarol annibynnol, os bodlonir yr amod yn is-adran (2).

(2) Yr amod yw bod y darparwr gofal lliniarol annibynnol wedi cael cyllid cyhoeddus, o fewn y tair blynedd cyn dyddiad y weithred y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â hi, mewn perthynas â gwasanaeth gofal lliniarol y mae'n ei ddarparu yng Nghymru.

(3) Yn is-adran (2) ystyr "cyllid cyhoeddus" yw cyllid gan—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006,

(c) Ymddiriedolaeth GIG, neu

(d) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

(4) Mae cwyn wedi'i "gwneud yn briodol" i'r Ombwdsmon os (ond dim ond os)—

(a) caiff y gŵyn ei gwneud gan berson sydd â hawl o dan adran 47 i wneud cwyn i'r Ombwdsmon,

(b) cyn i'r gŵyn gael ei gwneud—

(i) caiff y mater y mae'n ymwneud ag ef ei ddwyn, gan neu ar ran y person yr effeithir arno, i sylw'r darparwr y mae a wnelo'r gŵyn ag ef, a

(ii) caiff y darparwr gyfle rhesymol i ymchwilio i'r mater ac ymateb iddo, ac

(c) caiff gofynion adran 48 eu bodloni mewn perthynas â'r gŵyn.

(5) Mae cwyn wedi'i "hatgyfeirio'n briodol" at yr Ombwdsmon os (ond dim ond os)—

(a) caiff y gŵyn ei gwneud gan berson sydd â hawl o dan adran 47 i wneud cwyn i'r Ombwdsmon, a

(b) caiff gofynion adran 49 eu bodloni mewn perthynas â hi.

(6) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw gofynion is-adran (1) wedi eu bodloni mewn perthynas â chŵyn.

(7) Pan fo'r Ombwdsmon yn penderfynu na chafodd gofynion is-adran (1) eu bodloni mewn perthynas â chŵyn am na fodlonwyd gofynion is-adran (4)(b), adran 48 neu adran 49(1)(b), (c) neu (d) mewn perthynas â'r gŵyn honno, caiff yr Ombwdsmon, er hynny, ymchwilio i'r gŵyn—

(a) os yw'n ymwneud â mater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo, a

(b) os yw'r Ombwdsmon o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny.

(8) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad ai i ddod ag ymchwiliad i ben.

(9) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (8).

(10) Caiff yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad i gŵyn neu barhau ag ymchwiliad i gŵyn hyd yn oed os yw'r gŵyn wedi'i thynnu'n ôl.

**44 Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

(1) Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo pa un a oes cwyn wedi'i gwneud yn briodol neu wedi'i hatgyfeirio at yr Ombwdsmon ai peidio.

(2) Ond os yw'r mater yn ymwneud â darparwr gofal lliniarol annibynnol, dim ond os bodlonir yr amod yn adran 43(2) y caniateir defnyddio'r pŵer yn is-adran (1).

(3) Caiff y mater ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn i'r Ddeddf hon gael Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl hynny, ond os yw'r mater yn ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn y Cydsyniad Brenhinol, dim ond os yw'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r mater wedi'i ddatrys yn foddhaol y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddo.

(4) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad ai i ddod ag ymchwiliad i ben o dan yr adran hon, ond rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r cyfryw bersonau sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol wrth wneud y cyfryw benderfyniad.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (4).

**45 Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon sefydlu meini prawf (a chaiff eu diwygio o dro i dro) i'w defnyddio i benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 44.

(2) Rhaid i'r meini prawf gynnwys y gofynion tystiolaeth i'w defnyddio i benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 44.

(3) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf.

**46 Dulliau amgen o ddatrys cwynion**

(1) Caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol er mwyn datrys cwyn neu fater y mae gan yr Ombwdsmon bŵer i ymchwilio iddi o dan y Rhan hon.

(2) Caiff yr Ombwdsmon gymryd camau gweithredu o dan yr adran hon yn ychwanegol at gynnal ymchwiliad neu yn lle hynny.

(3) Rhaid cymryd unrhyw gamau gweithredu o dan yr adran hon yn breifat.

**47 Pwy sy'n cael cwyno**

(1) Y personau sydd â hawl i gwyno i'r Ombwdsmon yw—

(a) aelod o'r cyhoedd (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y person a dramgwyddwyd") sy'n honni neu sydd wedi honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i fater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo,

(b) person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y person a dramgwyddwyd i weithredu ar ran y person hwnnw, neu

(c) os nad yw'r person a dramgwyddwyd yn gallu awdurdodi person i weithredu ar ei ran (er enghraifft, oherwydd ei fod wedi marw), person sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol i weithredu ar ran y person a dramgwyddwyd.

(2) Nid yw "aelod o'r cyhoedd" yn cynnwys person sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel—

(a) darparwr cartref gofal,

(b) darparwr gofal cartref,

(c) darparwr gofal lliniarol annibynnol, neu

(d) awdurdod rhestredig.

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a oes gan berson hawl i wneud cwyn o dan yr adran hon.

**48 Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon**

(1) Y gofynion a grybwyllir yn adran 43(4)(c) yw bod yn rhaid i'r gŵyn—

(a) bod ar ffurf a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(b) cynnwys y cyfryw wybodaeth a bennir gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(c) cael ei gwneud cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hybysu gyntaf am y mater.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw gofynion is-adran (1) wedi eu bodloni mewn perthynas â chŵyn.

(4) Os caiff cwyn sy'n bodloni gofynion is-adran (1) ei gwneud ar lafar, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) esbonio i'r person a dramgwyddwyd fod cwyn wedi'i gwneud yn briodol yn unol â'r Ddeddf hon, a'r goblygiadau o wneud cwyn o'r fath, a

(b) gofyn i'r person a dramgwyddwyd a yw'n awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol.

(5) Os nad yw'r person yn awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol, rhaid i'r Ombwdsmon beidio â defnyddio'r pŵer yn adran 43 i ymchwilio i'r mater.

(6) Os yw'r person yn awyddus i'r gŵyn barhau i gael ei thrin yn gŵyn a wnaed yn briodol, rhaid i'r Ombwdsmon ofyn i'r person a yw am gadarnhau'r gŵyn yn ysgrifenedig.

(7) Os yw’r person yn awyddus i gadarnhau’r gŵyn yn ysgrifenedig, rhaid i’r Ombwdsmon wneud y cyfryw drefniadau angenrheidiol i gadarnhau’r gŵyn yn ysgrifenedig.

(8) Os nad yw'r person yn awyddus i gadarnhau’r gŵyn yn ysgrifenedig, rhaid i’r Ombwdsmon gofnodi hynny'n ysgrifenedig.

(9) Rhaid i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o'r holl gwynion llafar.

(10) Yn yr adran hon, mae "ysgrifenedig" yn cynnwys ar ffurf electronig.

**49 Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon**

(1) Y gofynion a grybwyllir yn adran 43(5)(b) yw bod yn rhaid i'r gŵyn—

(a) bod wedi cael ei gwneud i'r darparwr y mae'n ymwneud ag ef gan berson a fyddai wedi bod â hawl o dan adran 47 i wneud y gŵyn i'r Ombwdsmon;

(b) bod wedi cael ei gwneud i’r darparwr y mae’n ymwneud ag ef cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddwyd ei hybysu gyntaf am y mater;

(c) bod wedi cael ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon ar ffurf a bennwyd gan yr Ombwdsmon mewn canllawiau ac yn cynnwys y cyfryw wybodaeth a bennwyd gan yr yr Ombwdsmon mewn canllawiau;

(d) bod wedi cael ei gwneud cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau ar y diwrnod y cafodd y gŵyn ei gwneud i’r darparwr.

(2) Rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi’r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw gofynion is-adran (1) wedi eu bodloni mewn perthynas â chŵyn.

*Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio etc*

**50 Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio i gwynion neu i ddod ag ymchwiliadau i ben**

(1) Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu o dan adran 43(8) neu adran 44(4)—

(a) i beidio â dechrau ymchwiliad, neu

(b) i ddod ag ymchwiliad i ben,

rhaid i'r Ombwdsmon baratoi datganiad o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(2) Rhaid i’r Ombwdsmon anfon copi o’r datganiad at y canlynol—

(a) y person a wnaeth y gŵyn (os oes un), a

(b) y darparwr y mae’r gŵyn yn ymwneud ag ef.

(3) Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o’r datganiad at unrhyw bersonau eraill sy’n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(4) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o dan yr adran hon os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau’r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy’n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o’r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(5) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o’r datganiad a gyhoeddwyd, neu ran o’r datganiad hwnnw, i unrhyw berson sy’n gofyn amdano.

(6) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o ddatganiad, neu ran o ddatganiad, o dan is-adran (5).

(7) Rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn fersiwn o ddatganiad a anfonir at berson o dan is-adran (2)(b) neu (3) neu a gyhoeddir o dan is-adran (4)—

(a) enw person heblaw'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef;

(b) gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud y cyfryw berson yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd y datganiad.

(8) Nid yw is-adran (7) yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r datganiad.

*Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth*

**51 Gweithdrefn ymchwilio**

(1) Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu o dan adran 43 i gynnal ymchwiliad, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) rhoi cyfle i'r darparwr y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef i wneud sylwadau ar yr honiadau yn yr ymchwiliad, a

(b) rhoi i unrhyw berson arall yr honnir yn y gŵyn ei fod wedi cymryd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt, neu wedi awdurdodi'r camau gweithredu yr achwynir amdanynt, gyfle i wneud sylwadau ar unrhyw honiadau sy'n ymwneud â'r person hwnnw.

(2) Os bydd yr Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad o dan adran 44, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) paratoi cynnig ymchwilio, a

(b) cyflwyno'r cynnig ymchwilio i'r darparwr yr ymchwilir iddo.

Ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r Ombwdsmon yn fodlon, ar ôl rhoi sylw i'r mater yr ymchwilir iddo, ei bod yn anymarferol paratoi cynnig ymchwilio a'i gyflwyno i'r darparwr yr ymchwilir iddo.

(3) Rhaid i gynnig ymchwilio gynnwys—

(a) y rhesymau dros yr ymchwiliad, a

(b) y modd y bodlonwyd y meini prawf y cyfeirir atynt yn adran 45.

(4) Rhaid i'r Ombwdsmon bennu a chyhoeddi gofynion gweithdrefnol y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon eu dilyn (yn ogystal â'r gofynion a bennir yn is-adran (2)) wrth gynnal ymchwiliad o dan adran 44.

(5) Rhaid i'r gofynion yn is-adran (4) gynnwys gweithdrefnau sy'n caniatáu'r canlynol—

(a) cyfle i'r darparwr wneud sylwadau ynghylch y cynnig ymchwilio, a

(b) cyfle i unrhyw berson y'i gwneir yn hysbys mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio i wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio (i'r graddau y mae'r cynnig ymchwilio yn ymwneud â'r person hwnnw);

(c) pan nad oes unrhyw gynnig ymchwilio—

(i) cyfle i ddarparwr wneud sylwadau ynghylch yr ymchwiliad;

(ii) cyfle i unrhyw berson y'i gwneir yn hysbys gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r mater wneud sylwadau ar yr ymchwiliad (i'r graddau y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'r person hwnnw).

(6) Rhaid i ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat.

(7) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr adran hon, y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad yw'r un sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon yn amgylchiadau'r achos.

(8) Caiff yr Ombwdsmon, ymhlith pethau eraill—

(a) gwneud unrhyw ymholiadau sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, a

(b) penderfynu a gaiff unrhyw berson ei gynrychioli yn yr ymchwiliad gan berson awdurdodedig neu berson arall.

(9) Yn is-adran (8) ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd, at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig mewn perthynas â gweithgaredd sy'n golygu arfer hawl i ymddangos mewn achos neu ymladd achos (o fewn ystyr y Ddeddf honno).

(10) Caiff yr Ombwdsmon dalu i'r person a wnaeth y gŵyn (os oes un) ac i unrhyw berson arall sy'n bresennol neu sy'n rhoi gwybodaeth at ddibenion yr ymchwiliad—

(a) symiau mewn perthynas â threuliau yr aethpwyd iddynt yn briodol gan y person, a

(b) lwfansau i ddigolledu'r person am ei amser.

(11) Caiff yr Ombwdsmon osod amodau ar y taliadau hynny.

**52 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion ymchwiliad o dan y Rhan hon.

(2) Caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, i wneud hynny.

(3) Mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys o ran—

(a) presenoldeb tystion a holi tystion (gan gynnwys gweinyddu llwon a chadarnhadau ac archwilio tystion dramor), a

(b) dangos dogfennau.

(4) Caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, ddarparu unrhyw gyfleuster y caiff yr Ombwdsmon ei wneud yn rhesymol ofynnol.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adran (6), ni chaniateir gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen na allai'r person gael ei orfodi i'w rhoi neu ei dangos mewn achosion sifil gerbron yr Uchel Lys.

(6) Nid oes gan y Goron hawl i unrhyw fraint o ran dangos dogfennau neu o ran rhoi tystiolaeth a fyddai'n cael ei chaniatáu fel arall yn ôl y gyfraith mewn achosion cyfreithiol.

(7) Pan fo rhwymedigaeth i gadw cyfrinachedd neu gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi, neu a roddwyd i bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi, wedi'i gosod gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol, nid yw'r rhwymedigaeth neu'r cyfyngiad yn gymwys i ddatgelu gwybodaeth at ddibenion yr ymchwiliad.

**53 Rhwystro a dirmygu**

(1) Os bodlonir yr Ombwdsmon fod yr amod yn is-adran (2) wedi cael ei fodloni o ran person, caiff yr Ombwdsmon ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

(2) Yr amod yw bod y person—

(a) heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon rhag cael eu cyflawni o dan y Rhan hon, neu

(b) wedi cyflawni gweithred o ran ymchwiliad a fyddai, pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, yn ddirmyg llys.

(3) Os bydd yr Ombwdsmon yn dyroddi tystysgrif, caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater.

(4) Os bodlonir yr Uchel Lys fod yr amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni o ran y person, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai'r person wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

*Adroddiadau am ymchwiliadau*

**54 Adroddiadau am ymchwiliadau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i ymchwiliadau o dan y Rhan hon oni bai bod adran 57 yn gymwys.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon, ar ôl cynnal ymchwiliad mewn perthynas â mater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo—

(a) paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r ymchwiliad ("adroddiad am ymchwiliad"), a

(b) anfon copi o'r adroddiad at y personau priodol.

(3) Y personau priodol yw—

(a) y person a wnaeth y gŵyn (os oes un),

(b) y darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef,

(c) unrhyw berson arall yr honnir yn y gŵyn ei fod wedi cymryd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt (os oes rhai) neu wedi awdurdodi'r camau gweithredu yr achwynir amdanynt (os oes rhai) neu a gaiff ei wneud yn hysbys gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r mater, a

(d) Gweinidogion Cymru.

(4) Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi'r adroddiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(6) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd, neu ran o'r adroddiad hwnnw, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(7) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad, neu ran o adroddiad, o dan is-adran (6).

(8) Rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn fersiwn o adroddiad a anfonir at berson o dan is-adran (3)(b) neu (c) neu (4) neu a gyhoeddir o dan is-adran (5)—

- (a) enw person heblaw'r darparwr y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef;
- (b) gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud y cyfryw berson yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad.

(9) Nid yw is-adran (8) yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

**55 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau am ymchwiliadau**

(1) Caiff yr Ombwdsmon drefnu i hysbysiad am adroddiad am ymchwiliad gael ei gyhoeddi—

- (a) mewn un neu ragor o bapurau newydd, neu
- (b) drwy gyfrwng darlledu neu gyfryngau electronig eraill.

(2) Caiff yr hysbysiad, er enghraifft—

- (a) darparu crynodeb o ganfyddiadau'r Ombwdsmon,
- (b) pennu cyfeiriad neu gyfeiriadau lle gellir archwilio copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ystod oriau swyddfa arferol, a lle y ceir copi o'r adroddiad hwnnw (neu ran o'r adroddiad hwnnw), a
- (c) pennu cyfeiriad gwefan lle gellir gweld copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd.

(3) Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ombwdsmon, ad-dalu'r Ombwdsmon y costau rhesymol o drefnu i gyhoeddi'r hysbysiad.

(4) Wrth benderfynu a yw'n briodol i wneud trefniadau o dan is-adran (1), rhaid i'r Ombwdsmon ystyried y canlynol—

- (a) budd y cyhoedd,
- (b) buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un), ac
- (c) buddiannau unrhyw bersonau eraill sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol.

**56 Camau gweithredu ar ôl i adroddiadau am ymchwiliadau ddod i law**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad mewn adroddiad am ymchwiliad fod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo.

(2) Rhaid i'r darparwr y mae'r mater yn ymwneud ag ef ystyried yr adroddiad a hysbysu'r Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod a ganiateir—

(a) am y camau gweithredu y mae'r darparwr wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad, a

(b) cyn diwedd pa gyfnod y mae'r darparwr yn bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny (os nad yw eisoes wedi cymryd y camau gweithredu hynny).

(3) Yn is-adran (2) ystyr "y cyfnod a ganiateir" yw—

(a) y cyfnod o fis sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r awdurdod yn cael yr adroddiad, neu

(b) cyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig (os oes un).

**57 Adroddiadau: gweithdrefn amgen**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys, ar ôl i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad o dan y Rhan hon—

(a) os bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr achwynwyd amdano, a

(b) os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau 54 i 56 fod yn gymwys.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys, ar ôl i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad o dan y Rhan hon—

(a) os bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr achwynwyd amdano, a

(b) os bydd y darparwr y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef yn cytuno i weithredu, cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, unrhyw argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon, ac

(c) os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau 54 i 56 fod yn gymwys.

(3) Yn is-adran (2)(b) ystyr "y cyfnod a ganiateir" yw—

(a) cyfnod y cytunwyd arno rhwng yr Ombwdsmon, y darparwr a'r person a wnaeth y gŵyn (os oes un), neu

(b) os yw'r Ombwdsmon o'r farn na ellir gwneud cytundeb o'r fath, cyfnod a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig.

(4) Caiff yr Ombwdsmon benderfynu paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Ombwdsmon o dan yr adran hon yn hytrach nag o dan adran 54; ac os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu gwneud hynny, ni fydd adrannau 54 i 56 yn gymwys.

(5) Os caiff adroddiad ei baratoi o dan yr adran hon,—

(a) rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at y person a wnaeth y gŵyn (os oes un) ac at y darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, a

(b) caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(6) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi'r adroddiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r personau a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

(7) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (6), neu ran o'r adroddiad hwnnw, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(8) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad, neu ran o adroddiad, o dan is-adran (7).

(9) Rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn fersiwn o'r adroddiad a anfonir at berson o dan is-adran (5) neu a gyhoeddir o dan is-adran (6)—

(a) enw person heblaw'r darparwr y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef;

(b) gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud y cyfryw berson yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad.

(10) Nid yw is-adran (9) yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

*Adroddiadau arbennig*

**58 Amgylchiadau lle caiff adroddiadau arbennig eu paratoi**

(1) Caiff Ombwdsmon baratoi adroddiad arbennig o dan adran 59 os bydd achos 1, 2 neu 3 yn gymwys.

(2) Mae achos 1 yn gymwys—

(a) os yw'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad mewn adroddiad am ymchwiliad fod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo, a

(b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-adran (3) yn gymwys.

(3) Yr amgylchiadau hynny yw—

(a) nad yw'r Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan adran 56 cyn diwedd y cyfnod a ganiateir o dan yr adran honno;

(b) bod yr Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad hwnnw, ond nad yw'n fodlon â'r canlynol—

(i) y camau gweithredu y mae'r darparwr wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd, neu

(ii) cyn diwedd pa gyfnod y mae'r darparwr yn bwriadu cymryd y camau gweithredu hynny;

(c) bod yr Ombwdsmon wedi derbyn yr hysbysiad hwnnw, ond nad yw'n fodlon bod y darparwr, cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, wedi cymryd y camau gweithredu y bwriadai eu cymryd.

(4) Yn is-adran (3)(c) ystyr "y cyfnod a ganiateir" yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn adran 56(2)(b), neu

(b) cyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig (os oes un).

(5) Mae achos 2 yn gymwys—

(a) os yw'r Ombwdsmon wedi paratoi adroddiad o dan adran 57 yn rhinwedd is-adran (2) o'r adran honno, a

(b) os nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon bod y darparwr wedi gweithredu argymhellion yr Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

(6) Yn is-adran (5)(b) ystyr "y cyfnod a ganiateir" yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn adran 57(2)(b), neu

(b) cyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig (os oes un).

(7) Mae achos 3 yn gymwys—

(a) os cafodd mater (y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo) mewn perthynas â darparwr ei ddatrys,

(b) os daeth yr Ombwdsmon, wrth ddatrys y mater, i'r casgliad bod unrhyw berson wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater,

(c) bod y darparwr wedi cytuno i gymryd camau gweithredu penodol cyn diwedd cyfnod penodol, a

(d) nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon bod y darparwr wedi cymryd y camau gweithredu hynny cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

(8) Yn is-adran (7)(d) ystyr "y cyfnod a ganiateir" yw—

(a) y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (7)(c), neu

(b) cyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ysgrifenedig (os oes un).

**59 Adroddiadau arbennig**

(1) Rhaid i adroddiad arbennig—

(a) nodi'r ffeithiau sy'n rhoi hawl i'r Ombwdsmon baratoi'r adroddiad arbennig (hynny yw, y ffeithiau sy'n gwneud achos 1, 2 neu 3 o adran 58 yn gymwys), a

(b) gwneud y cyfryw argymhellion sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon o ran y camau gweithredu y dylid, ym marn yr Ombwdsmon, eu cymryd—

(i) i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi i'r person, a

(ii) i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi yn y dyfodol.

(2) Os bydd yr adroddiad arbennig yn cael ei baratoi am fod achos 1 o adran 58 yn gymwys, rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at bob person yr anfonwyd copi o'r adroddiad adran 54 ato o dan adran 54(2)(b).

(3) Os caiff yr adroddiad arbennig ei baratoi oherwydd bod achos 2 neu 3 o adran 58 yn gymwys, rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at y person a wnaeth y gŵyn (os oes un) a'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef.

(4) Caiff yr Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig.

(6) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o adroddiad arbennig a gyhoeddwyd, neu ran o adroddiad o'r fath, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

(7) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad arbennig, neu ran o adroddiad o'r fath, o dan is-adran (6).

(8) Rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn fersiwn o adroddiad arbennig a anfonir at berson o dan is-adran (2), (3) neu (4) neu a gyhoeddir o dan is-adran (5)—

(a) enw unrhyw berson heblaw'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef;

(b) gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud y cyfryw berson yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad arbennig.

(9) Nid yw is-adran (8) yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad arbennig.

**60 Cyhoeddusrwydd pellach i adroddiadau arbennig**

(1) Caiff yr Ombwdsmon drefnu i hysbysiad am adroddiad arbennig gael ei gyhoeddi—

(a) mewn un neu ragor o bapurau newydd, neu

(b) drwy gyfrwng darlledu neu gyfryngau electronig eraill.

(2) Caiff yr hysbysiad, er enghraifft—

(a) darparu crynodeb o ganfyddiadau'r Ombwdsmon,

(b) pennu cyfeiriad neu gyfeiriadau lle gellir archwilio copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ystod oriau swyddfa arferol, a lle y ceir copi o'r adroddiad hwnnw (neu ran o'r adroddiad hwnnw), a

(c) pennu cyfeiriad gwefan lle gellir gweld copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd.

(3) Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ombwdsmon, ad-dalu'r Ombwdsmon y costau rhesymol o drefnu i gyhoeddi'r hysbysiad.

(4) Wrth benderfynu pa un ai i wneud trefniadau o dan is-adran (1), rhaid i'r Ombwdsmon ystyried y canlynol—

(a) budd y cyhoedd,

(b) buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un), ac

(c) buddiannau unrhyw berson arall sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol.

*Dehongli*

**61 Ystyr "cartref gofal" a "darparwr cartref gofal"**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Mae i "cartref gofal" yr ystyr a roddir i "care home" yn Neddf Safonau Gofal 2000.

(3) Ystyr "darparwr cartref gofal" yw person sy'n rhedeg cartref gofal.

(4) Mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr cartref gofal os caiff ei gymryd gan—

(a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,

(b) person sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu

(c) person y mae'r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

(5) Hefyd, mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr cartref gofal—

(a) os yw'r darparwr hwnnw'n darparu, drwy gyfrwng trefniant gyda pherson arall, llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru ar gyfer person sy'n dod o fewn adran 3(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a

(b) os caiff y cam gweithredu ei gymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi'r trefniant ar waith.

**62 Ystyr "gofal cartref " a "darparwr gofal cartref"**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "gofal cartref" yw gofal personol a ddarperir yn eu cartrefi eu hunain i bersonau sydd, oherwydd salwch, gwendid neu anabledd, yn methu â'i ddarparu drostynt eu hunain heb gymorth.

(3) Ystyr "darparwr gofal cartref" yw person sy'n cyflawni gweithgaredd sy'n ymwneud â darparu gofal cartref, ond nid yw'n cynnwys unigolyn—

(a) sydd yn cyflawni'r gweithgaredd heblaw mewn partneriaeth ag eraill,

(b) nad yw'n cael ei gyflogi gan gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig i'w gyflawni,

(c) nad yw'n cyflogi unrhyw berson arall i gyflawni'r gweithgaredd, a

(d) sydd yn darparu neu'n trefnu i ddarparu gofal cartref i lai na phedwar o bobl.

(4) Mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal cartref os yw'n cael ei gymryd gan—

(a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,

(b) person sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu

(c) person y mae'r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

(5) Hefyd, mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal cartref—

(a) os yw'r darparwr hwnnw yn darparu gofal cartref drwy drefniant gyda pherson arall, a

(b) os caiff y cam gweithredu ei gymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi'r trefniant ar waith.

**63 Ystyr "gwasanaeth gofal lliniarol" a "darparwr gofal lliniarol annibynnol"**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "gwasanaeth gofal lliniarol" yw gwasanaeth sydd â'r prif bwrpas o ddarparu gofal lliniarol.

(3) Ystyr "darparwr gofal lliniarol annibynnol" yw person—

(a) sydd yn darparu gwasanaeth gofal lliniarol, a

(b) nad yw'n gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

(4) Mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol os yw'n cael ei gymryd gan—

(a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,

(b) person sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu

(c) person y mae'r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

(5) Hefyd, mae cam gweithredu i gael ei drin yn gam gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol—

(a) os yw'r darparwr hwnnw yn darparu gofal lliniarol drwy drefniant gyda pherson arall, a

(b) os caiff y cam gweithredu ei gymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi'r trefniant ar waith.

## RHAN 5

## YMCHWILIADAU: ATODOL

*Ymgynghori a chydweithredu*

**64 Ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd yr Ombwdsmon, wrth wneud penderfyniad o dan adran 3(5), 4(3), 43(8) neu 44(4) wrth gynnal ymchwiliad o dan Ran 3 neu 4, yn dod i'r farn y gallai mater sy'n destun y gŵyn neu'r ymchwiliad fod yn destun ymchwiliad gan ombwdsmon a grybwyllir yn is-adran (7).

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r ombwdsmon hwnnw ynghylch y mater.

(3) Caiff yr Ombwdsmon gydweithredu â'r ombwdsmon hwnnw mewn perthynas â'r mater.

(4) Caiff ymgynghoriad o dan is-adran (2), a chydweithrediad o dan is-adran (3), ymestyn i unrhyw beth sy'n ymwneud â mater sy'n destun y gŵyn neu'r ymchwiliad, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(a) cynnal ymchwiliad i'r gŵyn, a

(b) ffurf, cynnwys a chyhoeddiad adroddiad yr ymchwiliad.

(5) Os bydd yr Ombwdsmon yn ymgynghori ag ombwdsmon am fater o dan is-adran (2), caiff yr Ombwdsmon a'r ombwdsmon hwnnw—

(a) cynnal ymchwiliad ar y cyd i'r mater,

(b) paratoi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad, ac

(c) cyhoeddi'r adroddiad ar y cyd.

(6) Nid yw is-adran (5) yn gymwys os mai'r ombwdsman yr ymgynghorir ag ef o dan is-adran (2) yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban.

(7) Yr ombwdsmyn y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw—

(a) y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth;

(b) Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Lloegr;

(c) Comisiynydd Lleol;

(d) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban;

(e) ombwdsmon tai a benodwyd yn unol â chynllun a gymeradwywyd o dan adran 51 o Ddeddf Tai 1996.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (7) drwy—

(a) ychwanegu person,

(b) hepgor person, neu

(c) newid y disgrifiad o berson.

(9) Caiff rheoliadau o dan is-adran (8) ychwanegu person at is-adran (7) dim ond os oes gan y person, ym marn Gweinidogion Cymru, swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion.

(10) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (8) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**65 Cydweithio â phersonau penodol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Ombwdsmon—

(a) bod mater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo, a

(b) bod y mater yn un a allai hefyd fod yn destun archwiliad gan berson a bennir yn is-adran (2) ("person penodol").

(2) Mae'r canlynol yn bersonau penodol—

(a) Comisiynydd Plant Cymru;

(b) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(c) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru;

(d) Comisiynydd y Gymraeg;

(e) unrhyw gomisiynydd neu gynghorydd statudol a grëwyd gan Ddeddf Cynulliad;

(f) rheoleiddwyr Cymru.

(3) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) rhoi gwybod i'r person penodol perthnasol am y mater, a

(b) ymgynghori â'r person penodol mewn perthynas ag ef.

(4) Os bydd yr Ombwdsmon yn ymgynghori â pherson penodol o dan yr adran hon, caiff yr Ombwdsmon a'r person penodol—

(a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'r mater,

(b) cynnal ymchwiliad ar y cyd i'r mater, ac

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

(5) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (2) drwy—

(a) ychwanegu person penodol at y rhestr neu ei ddileu o'r rhestr, neu

(b) amrywio cyfeiriad at fath neu ddisgrifiad o berson penodol a gynhwysir yn yr is-adran honno.

(6) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (5) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**66 Cydlafurio â phersonau penodol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os ymddengys i'r Ombwdsmon y gallai mater fod yn destun archwiliad gan berson penodol ("y mater cysylltiedig").

(2) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid i'r Ombwdsmon roi gwybod i'r person penodol perthnasol am y mater cysylltiedig.

(3) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod y mater hefyd yn fater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i gynnal ymchwiliad iddo ("y mater Ombwdsmon"), rhaid i'r Ombwdsmon hefyd, os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol—

(a) rhoi gwybod i'r person penodol perthnasol am gynigion yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad, a

(b) ymgynghori â'r person penodol am y cynigion hynny.

(4) Os yw'r Ombwdsmon a'r person penodol o'r farn bod ganddynt hawl i ymchwilio, yn y drefn honno, y mater Ombwdsmon a'r mater cysylltiedig, caniateir iddynt—

(a) cydweithredu â'i gilydd yn yr ymchwiliad ar wahân o bob un o'r materion hynny,

(b) gweithredu gyda'i gilydd wrth ymchwilio i'r materion hynny, ac

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd sy'n cynnwys eu casgliadau unigol o ran y materion y maent ill dau wedi ymchwilio iddynt.

(5) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn—

(a) nad yw'r mater yn un y mae gan yr Ombwdsmon hawl i gynnal ymchwiliad iddo, a

(b) ei bod yn briodol gwneud hynny,

rhaid i'r Ombwdsmon roi gwybod i'r person a gychwynnodd y gŵyn (os oes un) ynghylch sut i atgyfeirio'r mater cysylltiedig at y person penodol perthnasol.

**67 Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(1) Os yw’r Ombwdsmon o’r farn bod hynny’n briodol, rhaid i’r Ombwdsmon—

(a) rhoi gwybod i Archwilydd Cyffredinol Cymru am gynigion yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad, a

(b) ymgynghori â’r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y dull mwyaf effeithiol o gynnal ymchwiliad.

(2) Os yw’r Ombwdsmon yn ymgynghori â’r Archwilydd Cyffredinol o dan yr adran hon, caiff yr Ombwdsmon a’r Archwilydd Cyffredinol—

(a) cydweithredu â’i gilydd mewn perthynas â’r mater,

(b) cynnal ymchwiliad ar y cyd i’r mater, ac

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â’r ymchwiliad.

*Datgelu*

**68 Datgelu gwybodaeth**

(1) Yr wybodaeth y mae’r adran hon yn gymwys iddi yw—

(a) gwybodaeth y mae’r Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy’n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu’n cynorthwyo’r Ombwdsmon, yn ei chael i gyflawni swyddogaethau’r Ombwdsmon—

(i) wrth benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad,

(ii) yn ystod ymchwiliad, neu

(iii) wrth ddatrys cwyn o dan adran 6 neu 46;

(b) gwybodaeth a gafwyd gan ombwdsmon a grybwyllir yn adran 64(7) yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn adran 64 neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad sy’n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o’r ombwdsmyn hynny;

(c) gwybodaeth a gafwyd gan berson penodol yn adran 65(2) yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn adran 65 neu 66 neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad sy’n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o’r personau penodol hynny;

(d) gwybodaeth a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 67 o’r Ddeddf hon neu adran 29A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;

(e) gwybodaeth a gafwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn rhinwedd adran 76 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (datgeliad rhwng y Comisiynydd Gwybodaeth ac ombwdsmyn).

(2) Rhaid peidio â datgelu’r wybodaeth ac eithrio—

(a) at ddibenion penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad;

(b) at ddibenion ymchwiliad;

(c) at ddibenion datrys cwyn o dan adran 6 neu 46;

(d) at ddibenion datganiad neu adroddiad a wneir mewn perthynas â chŵyn neu ymchwiliad;

(e) at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn adran 64, 65, 66 neu 67;

(f) at ddibenion achosion llys ar gyfer—

(i) trosedd o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 yr honnir iddi gael ei chyflawni gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;

(ii) trosedd o dyngu anudon yr honnir iddi gael ei chyflawni yn ystod ymchwiliad;

(g) at ddibenion ymchwiliad gyda golwg ar gychwyn yr achosion llys a grybwyllir ym mharagraff (f);

(h) at ddibenion achosion llys o dan adran 18 neu 53;

(i) yn achos gwybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau, i unrhyw berson y mae'r Ombwdsmon yn credu y dylid ei datgelu er budd y cyhoedd;

(j) yn achos gwybodaeth y mae is-adran (3) yn gymwys iddi, i'r Comisiynydd Gwybodaeth;

(k) at ddibenion ymchwiliad ac unrhyw adroddiad sydd i'w wneud o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i wybodaeth os yw'n ymddangos i'r Ombwdsmon ei bod yn ymwneud â'r canlynol—

(a) mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas ag ef, arfer pŵer a roddir mewn deddfiad a grybwyllir yn is-adran (4), neu

(b) cyflawni trosedd a grybwyllir yn is-adran (5).

(4) Y deddfiadau yw—

(a) Rhan 5 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (gorfodi);

(b) adran 48 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (argymhellion arfer);

(c) Rhan 4 o'r Ddeddf honno.

(5) Y troseddau yw'r rhai o dan—

(a) unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Diogelu Data 1998 ac eithrio paragraff 12 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno (rhwystro gweithredu gwarant);

(b) adran 77 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y drosedd o newid etc cofnodion gyda'r bwriad o atal datgelu).

(6) Ni chaniateir galw unrhyw berson i roi tystiolaeth mewn unrhyw achos llys (ac eithrio achosion a grybwyllir yn is-adran (2)) o wybodaeth a gafwyd gan y person hwnnw fel y crybwyllir yn is-adran (1)(a) neu (b).

**69 Datgeliad niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu yn groes i fudd y cyhoedd**

(1) Caiff Gweinidog y Goron roi hysbysiad i'r Ombwdsmon o ran—

(a) unrhyw ddogfen neu wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) unrhyw ddosbarth o ddogfen neu wybodaeth a bennir felly,

pe byddai datgelu'r ddogfen neu'r wybodaeth honno, neu ddogfennau neu wybodaeth o'r un dosbarth, ym marn y Gweinidog, yn niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd.

(2) Os cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (1), nid oes dim yn y Ddeddf hon i'w ddehongli mewn modd sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni swyddogaethau'r Ombwdsmon, i ddatgelu i unrhyw berson neu at unrhyw ddiben unrhyw ddogfen neu wybodaeth, neu ddosbarth o ddogfen neu wybodaeth, a bennir yn yr hysbysiad.

**70 Diogelu rhag hawliadau difenwi**

(1) At ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, mae'r canlynol yn gwbl freintiedig—

(a) cyhoeddi mater, wrth gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon, gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;

(b) cyhoeddi mater gan berson wrth gyflawni swyddogaethau o dan adran 17;

(c) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chŵyn a wnaed neu a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon, mewn cyfathrebiadau rhwng—

(i) awdurdod rhestredig, aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod rhestredig, swyddog neu aelod o staff awdurdod rhestredig neu berson arall sy'n gweithredu ar ran awdurdod rhestredig neu'n ei gynorthwyo i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat, a

(ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;

(d) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chŵyn a wnaed neu a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon, mewn cyfathrebiadau rhwng—

(i) darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol, swyddog neu aelod o staff darparwr o'r fath neu berson arall sy'n gweithredu ar ran darparwr o'r fath neu'n ei gynorthwyo i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, a

(ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;

(e) cyhoeddi mater mewn cysylltiad ag ymchwiliad, mewn cyfathrebiadau rhwng person ac Aelod Cynulliad;

(f) cyhoeddi mater mewn cysylltiad ag ymchwiliad, mewn cyfathrebiadau rhwng—

(i) y person, a

(ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon.

(2) At ddibenion is-adran 70(1)(d)(i) mae person yn swyddog i ddarparwr os yw'r person yn rheoli darparwr nad yw'n unigolyn neu'n rheoli materion darparwr o'r fath.

(3) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at faterion sy'n ymwneud ag ymchwiliad yn cynnwys materion sy'n ymwneud â phenderfyniad yr Ombwdsmon pa un ai i ymchwilio ai peidio.

*Strategaeth ar gyfer y Gymraeg*

**71 Strategaeth ar gyfer y Gymraeg**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

(2) Rhaid i'r strategaeth gynnwys—

(a) asesiad o'r angen i swyddogaethau'r Ombwdsmon gael eu cyflawni yn Gymraeg,

(b) datganiad yn pennu'r camau y mae'r Ombwdsmon yn bwriadu'u cymryd i fodloni'r angen hwnnw, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol.

(3) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r strategaeth heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf hon gael Cydsyniad Brenhinol.

(4) Caiff yr Ombwdsmon adolygu'r strategaeth ar unrhyw adeg.

(5) Pan fo'r Ombwdsmon yn adolygu'r strategaeth ac o'r farn bod angen newid, rhaid i'r Ombwdsmon

(a) adolygu'r strategaeth, a

(b) cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

*Adolygiad o'r Ddeddf*

**72 Adolygiad o'r Ddeddf**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf hon dros gyfnod o bum mlynedd o'r dyddiad y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad o'r adolygiad cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfnod o bum mlynedd.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad.

(4) Yn dilyn hynny, caiff Gweinidogion Cymru gynnal adolygiadau pellach o weithrediad y Ddeddf hon ar unrhyw adeg, ac os cynhelir y cyfryw adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad o'r adolygiad a gosod yr adroddiad gerbron y Cynulliad.

## RHAN 6

## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

**73 Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw'r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i fater cyn y dyddiad y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym ac nad yw'r Ombwdsmon wedi penderfynu ar yr ymchwiliad neu nad yw'r mater wedi'i ddatrys erbyn y dyddiad hwnnw.

(2) Ar y dyddiad hwnnw, ac wedi hynny, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn parhau i fod yn gymwys at ddibenion yr ymchwiliad er gwaethaf darpariaethau eraill y Ddeddf hon.

*Cyffredinol*

**74 Diwygiadau a diddymiadau**

(1) Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 wedi ei diddymu, ond—

(a) gweler adran 73 (ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym);

(b) mae adran 35 o Ddeddf 2005 yn parhau i gael effaith.

(2) Mae Atodlen 5 (diwygiadau canlyniadol) yn cael effaith.

**75 Cychwyn**

(1) Mae darpariaethau blaenorol y Ddeddf hon yn dod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1)—

(a) benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn perthynas â darpariaeth yn y Ddeddf hon yn dod i rym.

**76 Dehongli**

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae i "adroddiad arbennig" ("*special report*") yn Rhan 3 yr ystyr a roddir yn adran 26 ac yn Rhan 4 yr ystyr a roddir yn adran 59;

mae i "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 14 o Atodlen 1;

mae i "adroddiad eithriadol" ("*extraordinary report*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 14 o Atodlen 1;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond sydd—

(a) yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu

(b) yn aelod o gyd-bwyllgor ac yn cynrychioli'r awdurdod ar gyd-bwyllgor y caiff yr awdurdod ei gynrychioli arno, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath,

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor;

ystyr "annedd a ariennir yn gyhoeddus" ("*publicly-funded dwelling*") yw—

(a) annedd a ddarparwyd drwy gyfrwng grant o dan—

(i) adran 18 o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (grant tai cymdeithasol), neu

(ii) adran 50 o Ddeddf Tai 1988 (p.50), adran 41 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (p.69), neu adran 29 neu 29A o Ddeddf Tai 1974 (p.44) (grant cymdeithasau tai);

(b) annedd a gaffaelwyd drwy warediad gan landlord sector cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996);

ystyr "awdurdod lleol yng Nghymru" ("*local authority in Wales*") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru;

mae i "awdurdod rhestredig" ("*listed authority*") yr ystyr a roddir yn adran 30;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i "cartref gofal" ("*care home*") yr ystyr a roddir gan adran 61(2);

mae i "Comisiynydd Lleol" ("*Local Commissioner*") yr ystyr a roddir yn adran 23(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (p.7);

ystyr "corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru" ("*Welsh health service body*") yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru;

(d) Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw'n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu'n bennaf;

mae i "Cymru" ("*Wales*") yr ystyr a roddir yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32);

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darparwr annibynnol yng Nghymru" ("*independent provider in Wales*") yw person, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon—

(a) a oedd yn darparu gwasanaethau o unrhyw fath yng Nghymru o dan drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, a

(b) nad oedd yn gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu yn ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru;

mae i "darparwr cartref gofal" ("*care home provider*") yr ystyr a roddir gan adran 61(3);

mae i "darparwr gofal cartref" ("*domiciliary care provider*") yr ystyr a roddir gan adran 62(3);

mae i "darparwr gofal lliniarol annibynnol" ("*independent palliative care provider*") yr ystyr a roddir gan adran 63(3);

ystyr "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru" ("*family health service provider in Wales*") yw—

(a) person a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun ymchwiliad o dan y Ddeddf hon, yn darparu gwasanaethau o dan gontract a wnaed gan y person hwnnw gyda Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 42 neu adran 57 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(b) person a oedd, ar yr adeg honno, wedi ymgymryd i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau fferyllol yng Nghymru o dan y Ddeddf honno;

(c) unigolyn a oedd, ar yr adeg honno, wedi darparu yng Nghymru wasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 50 neu 64 o'r Ddeddf honno (ac eithrio fel cyflogai i gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr annibynnol yng Nghymru neu fel arall ar ran corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr annibynnol yng Nghymru);

ac mae'n cynnwys cyflogeion personau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (b) ac (c) pan fo'r personau hynny yn gweithredu yn y capasiti y cyfeirir ato ym mharagraffau (a), (b) neu (c);

mae i "gofal cartref" ("*domiciliary care*") yr ystyr a roddir gan adran 62(2);

mae i "gwasanaeth gofal lliniarol" ("*palliative care service*") yr ystyr a roddir gan adran 63(2);

ystyr "gwasanaethau iechyd preifat" ("*private health services*") yw—

(a) triniaeth feddygol, gan gynnwys gofal nyrsio, a ddarperir gan ysbyty annibynnol o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;

(b) triniaeth feddygol, gan gynnwys gofal nyrsio, a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol a gaiff ddefnyddio staff a chyfleusterau'r gwasanaeth iechyd gwladol drwy drefniadau contractiol heblaw contractau cyflogaeth y gwasanaeth iechyd gwladol;

ystyr "gwasanaethau iechyd teulu" ("*family health services*") yw gwasanaethau a grybwyllir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c) o'r diffiniad o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru";

mae "gweithredu" ("*act*") a "camau gweithredu" ("*action*") yn cynnwys methiant i weithredu (a rhaid dehongli ymadroddion cysylltiedig yn unol â hynny);

ystyr "landlord cymdeithasol yng Nghymru" ("*social landlord in Wales*") yw—

(a) corff a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon, wedi'i gofrestru'n landlord cymdeithasol yn y gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Tai 1996 (neu yn y gofrestr a gadwyd yn flaenorol o dan yr adran honno gan y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yr Ysgrifennydd Gwladol neu Tai Cymru);

(b) unrhyw gorff arall a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon, wedi'i gofrestru gyda Tai Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu Weinidogion Cymru ac a oedd yn berchen ar anheddau a ariennir yn gyhoeddus neu'n rheoli anheddau o'r fath;

mae i "yr Ombwdsmon" ("*the Ombudsman*") yr ystyr a roddir yn adran 2;

mae i "y person a dramgwyddwyd" ("*the person aggrieved*") yn Rhan 3 yr ystyr a roddir yn adran 7(1)(a) ac yn Rhan 4 yr ystyr a roddir yn adran 47(1)(a);

ystyr "rheoleiddiwr Cymru" ("Welsh regulator") yw unrhyw berson â swyddogaethau rheoleiddio yng Nghymru.

ystyr "tribiwnlys perthnasol" ("*relevant tribunal*") yw tribiwnlys (sy'n cynnwys tribiwnlys un person yn unig) a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau;

o ran "ymchwiliad" ("*investigation*")—

(a) ei ystyr mewn perthynas â'r Ombwdsmon yw ymchwiliad o dan adran 3, 4, 43 neu 44 (a rhaid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny);

(b) mewn perthynas ag ombwdsmon arall neu gomisiynydd, mae'n cynnwys archwiliad (a rhaid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny);

mae i "Ymddiriedolaeth y GIG" ("*NHS trust*") yr un ystyr a roddir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

(2) At ddibenion y diffiniad o "darparwr annibynnol yng Nghymru", mae trefniadau gyda Gweinidogion Cymru yn drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru dim ond i'r graddau eu bod yn cael eu gwneud wrth gyflawni swyddogaeth Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r diffiniadau o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru", "darparwr annibynnol yng Nghymru" a "landlord cymdeithasol yng Nghymru".

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(6) Ni chaniateir gwneud reoliadau o dan is-adran (4) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(7) Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 (p.44) (dehongli cyfeiriadau at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon fel y mae'n gymwys at ddibenion y Ddeddf honno.

(8) At ddibenion y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at gamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig yn cynnwys camau gweithredu a gymerwyd gan—

(a) aelod, aelod cyfetholedig, pwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod sy'n gweithredu i gyflawni swyddogaethau'r awdurdod;

(b) swyddog neu aelod o staff yr awdurdod, pa un a yw'n gweithredu i gyflawni ei swyddogaethau ei hun neu swyddogaethau'r awdurdod;

(c) unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod.

**77 Cyn-ddarparwyr gofal iechyd, landlordiaid cymdeithasol, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gofal lliniarol: addasiadau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu i'r Ddeddf hon fod yn gymwys gyda'r addasiadau a bennir yn y rheoliadau i bersonau sydd—

(a) yn gyn-ddarparwyr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru;

(b) yn gyn-ddarparwyr annibynnol yng Nghymru;

(c) yn gyn-landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru;

(d) yn gyn-ddarparwyr cartrefi gofal yng Nghymru;

(e) yn gyn-ddarparwyr gofal cartref yng Nghymru;

(f) yn gyn-ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol yng Nghymru.

(2) ystyr “cyn-ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru” yw person—

(a) a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn darparu gwasanaethau iechyd teulu o ddisgrifiad penodol, a

(b) sydd, ar ôl hynny, wedi peidio â darparu gwasanaethau o’r disgrifiad hwnnw (pa un a yw’r person wedi dechrau eu darparu eto yn ddiweddarach ai peidio).

(3) ystyr “cyn-ddarparwr annibynnol yng Nghymru“ yw person—

(a) a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn darparu gwasanaethau o ddisgrifiad penodol yng Nghymru o dan drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru,

(b) nad oedd yn gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu yn ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru ar yr adeg honno, ac

(c) sydd, ar ôl hynny, wedi peidio â darparu gwasanaethau o’r disgrifiad hwnnw (pa un a yw’r person wedi dechrau eu darparu eto yn ddiweddarach ai peidio).

(4) ystyr ”cyn-landlord cymdeithasol yng Nghymru“ yw person—

(a) a oedd ar yr adeg berthnasol—

(i) wedi’i gofrestru’n landlord cymdeithasol yn y gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (neu yn y gofrestr a gadwyd yn flaenorol o dan yr adran honno gan y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yr Ysgrifennydd Gwladol neu Tai Cymru), neu

(ii) wedi’i gofrestru gyda Tai Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu Weinidogion Cymru ac a oedd yn berchen ar anheddau a ariennir yn gyhoeddus neu’n rheoli anheddau o’r fath, a

(b) sydd, wedi hynny—

(i) wedi peidio â bod yn gofrestredig fel a grybwyllir ym mharagraff (a)(i) neu (ii) (pa un a yw’r person wedi cofrestru eto’n ddiweddarach ai peidio), neu

(ii) wedi peidio â bod yn berchen ar anheddau a ariennir yn gyhoeddus neu’n rheoli anheddau o’r fath (pa un a yw’r person wedi gwneud hynny eto’n ddiweddarach ai peidio).

(5) ystyr “cyn-ddarparwr cartref gofal yng Nghymru” yw person—

(a) a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol o ddisgrifiad penodol mewn cartref gofal (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000) yng Nghymru, a

(b) sydd, ar ôl hynny, wedi peidio â gwneud hynny (pa un a yw’r person wedi dechrau gwneud hynny eto’n ddiweddarach ai peidio).

(6) ystyr “cyn-ddarparwr gofal cartref yng Nghymru” yw person—

(a) a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn darparu gwasanaethau gofal cartref o ddisgrifiad penodol yng Nghymru, a

(b) sydd, ar ôl hynny, wedi peidio â gwneud hynny (pa un a yw'r person wedi dechrau darparu'r gwasanaethau hynny eto'n ddiweddarach ai peidio).

(7) ystyr "cyn-ddarparwr gofal lliniarol annibynnol yng Nghymru" yw person—

(a) a oedd, ar yr adeg berthnasol, yn darparu gwasanaeth gofal lliniarol o ddisgrifiad penodol yng Nghymru, a

(b) sydd, ar ôl hynny, wedi peidio â gwneud hynny (pa un a yw'r person wedi dechrau gwneud hynny eto'n ddiweddarach ai peidio).

(8) yr "amser perthnasol" yw amser y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon.

(9) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan yr adran hon oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n eu cynnwys wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**78 Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud—

(a) y cyfryw ddarpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig neu atodol, a

(b) y cyfryw ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol, neu arbed,

sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi.

(2) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(3) Mae cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn gyfeiriad at swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n parhau o dan y Ddeddf hon.

**79 Rheoliadau a chyfarwyddydau**

(1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon—

(a) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed.

(3) O ran cyfarwyddyd a roddir o dan y Ddeddf hon—

(a) caniateir i'r person a roddodd y cyfarwyddyd ei ddiwygio neu ei ddirymu;

(b) caniateir i'r cyfarwyddyd wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

**80 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

## ATODLEN 1
*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 2)*

## OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: PENODI ETC

*Penodi*

1 Mae'r Ombwdsmon i'w benodi gan Ei Mawrhydi ar enwebiad y Cynulliad.

*Statws*

2 (1) Mae'r Ombwdsmon yn gorfforaeth undyn.

(2) Mae'r Ombwdsmon yn dal swydd o dan Ei Mawrhydi ac yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran y Goron.

(3) Mae'r Ombwdsmon yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 (p.6).

(4) Ond nid yw gwasanaeth yn swydd Ombwdsmon yn wasanaeth yng ngwasanaeth sifil y Goron.

*Tymor y swydd*

3 (1) Tymor swydd person yn Ombwdsmon yw saith mlynedd (yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4) a pharagraff 5).

(2) Nid yw person a benodir yn Ombwdsmon yn gymwys i'w ailbenodi.

(3) Caiff Ei Mawrhydi ryddhau person o swydd yr Ombwdsmon—

(a) ar gais y person, neu

(b) os yw Ei Mawrhydi yn fodlon nad yw'r person, am resymau meddygol, yn gallu cyflawni dyletswyddau'r swydd.

(4) Caiff Ei Mawrhydi ddiswyddo person o swydd Ombwdsmon yn unol ag argymhelliad, ar sail camymddygiad y person, y dylai Ei Mawrhydi wneud hynny.

(5) Ni chaniateir gwneud argymhelliad i ddiswyddo person o swydd Ombwdsmon oni bai—

(a) bod y Cynulliad wedi penderfynu y dylid gwneud yr argymhelliad, a

(b) bod penderfyniad y Cynulliad wedi'i basio drwy bleidlais lle roedd nifer yr Aelodau Cynulliad a bleidleisiodd o'i blaid yn ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad.

*Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro*

4 (1) Os daw swydd yr Ombwdsmon yn wag, caiff Ei Mawrhydi, ar enwebiad y Cynulliad, benodi person i weithredu fel yr Ombwdsmon.

(2) Caiff person a benodir i weithredu fel yr Ombwdsmon ("Ombwdsmon dros dro") fod wedi dal swydd Ombwdsmon.

(3) Mae person a benodir yn Ombwdsmon dros dro yn gymwys i'w benodi'n Ombwdsmon (oni bai ei fod eisoes wedi dal swydd yr Ombwdsmon).

(4) Nid yw'r pŵer i benodi person yn Ombwdsmon dros dro yn arferadwy ar ôl diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y daeth y swydd yn wag.

(5) Rhaid i Ombwdsmon dros dro ddal ei swydd yn unol â thelerau ei benodiad, yn ddarostyngedig i is-baragraff (6) (a pharagraff 2, fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (7)).

(6) Rhaid i Ombwdsmon dros dro beidio â dal y swydd ar ôl—

(a) penodi person yn Ombwdsmon, neu

(b) os yw hynny'n gynt, ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y daeth y swydd yn wag.

(7) Tra bydd Ombwdsmon dros dro yn dal y swydd mae i gael ei ystyried (ac eithrio at ddibenion paragraffau 1, 3, 5 i 9 a'r paragraff hwn) yn Ombwdsmon.

*Anghymhwyso*

5 (1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro os bydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) ei fod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin;

(b) ei fod yn awdurdod rhestredig;

(c) ei fod yn aelod, yn aelod cyfetholedig, yn swyddog neu'n aelod o staff awdurdod rhestredig;

(d) ei fod wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad (ac eithrio yn rhinwedd paragraff 6 o'r Atodlen hon neu adran 16(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006);

(e) ei fod wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru (ac eithrio yn rhinwedd paragraff 6 o'r Atodlen hon);

(f) ei fod yn ddarparwr cartref gofal, yn ddarparwr gofal cartref neu'n ddarparwr gofal lliniarol annibynnol;

(g) ei fod yn swyddog neu'n aelod o staff darparwr o'r math hwnnw.

(h) ei fod yn ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat;

(i) ei fod yn swyddog neu'n aelod o staff darparwr o'r math hwnnw.

(2) At ddibenion is-baragraffau (1)(g) ac (i) mae person yn swyddog i ddarparwr os yw'r person yn rheoli darparwr nad yw'n unigolyn neu'n rheoli materion darparwr o'r fath.

(3) Nid yw penodiad person yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro yn ddilys os yw'r person wedi ei anghymhwyso o dan is-baragraff (1).

(4) Os yw person a benodwyd yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro yn dod yn anghymwys o dan is-baragraff (1), mae'n peidio â dal y swydd ar ôl ei anghymhwyso yn y cyfryw fodd.

(5) Ond nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan berson a benodwyd yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro gan y ffaith iddo ddod yn anghymwys o dan is-baragraff (1).

6 (1) Mae person sy'n dal swydd Ombwdsmon neu Ombwdsmon dros dro wedi'i anghymhwyso rhag—

(a) bod yn awdurdod rhestredig;

(b) bod yn aelod, yn aelod cyfetholedig, yn swyddog neu'n aelod o staff awdurdod rhestredig;

(c) dal swydd â thâl y cafodd ei benodi iddi gan awdurdod rhestredig;

(d) bod yn gyflogai i ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat neu fod yn aelod o ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat, neu fod â swydd â thâl gyda darparwr gwasanaethau iechyd preifat.

(2) Nid yw person wedi'i anghymhwyso o dan is-baragraff (1) rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.

7 (1) Mae person sydd wedi peidio â dal swydd Ombwdsmon neu Ombwdsmon dros dro wedi'i anghymhwyso am y cyfnod perthnasol rhag—

(a) dal swydd sy'n awdurdod rhestredig;

(b) bod yn aelod, yn aelod cyfetholedig, yn swyddog neu'n aelod o staff awdurdod rhestredig;

(c) dal swydd â thâl y cafodd ei benodi iddi gan awdurdod rhestredig;

(d) bod yn gyflogai i ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat neu fod yn aelod o ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat, neu fod â swydd â thâl gyda darparwr gwasanaethau iechyd preifat,

oni bai bod Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo fel arall.

(2) Mae'r cyfnod perthnasol—

(a) yn dechrau pan fydd y person yn peidio â dal swydd Ombwdsmon neu, yn ôl y digwydd, Ombwdsmon dros dro, a

(b) yn dod i ben ar derfyn y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol yr oedd yr Ombwdsmon neu, yn ôl y digwydd, Ombwdsmon dros dro, wedi peidio â dal y cyfryw swydd.

(3) Ond nid yw is-baragraff (1) yn anghymhwyso person rhag—

(a) bod yn aelod o'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) dal swydd llywydd neu ddirprwy lywydd y Cynulliad neu swydd Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu un o Ddirprwy Weinidogion Cymru;

(c) bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o awdurdod lleol yng Nghymru;

(d) dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu faer etholedig awdurdod lleol yng Nghymru.

8 Mae'r cyfeiriadau ym mharagraffau 6 a 7 at swydd â thâl yn cynnwys swydd lle y mae gan ddeiliad y swydd honno hawl i ad-daliad treuliau yn unig.

*Cydnabyddiaeth ariannol etc*

9 (1) Rhaid i'r Cynulliad—

(a) talu'r cyfryw gyflog a lwfansau i berson sy'n Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro, a

(b) gwneud y cyfryw daliadau tuag at ddarparu buddion blwydd-dal ar ei gyfer neu mewn perthynas ag ef,

y darperir ar eu cyfer gan delerau ei benodiad neu o dan y telerau hynny.

(2) Rhaid i'r Cynulliad dalu i berson sydd wedi peidio â dal swydd Ombwdsmon neu Ombwdsmon dros dro neu mewn perthynas â pherson o'r fath—

(a) y cyfryw symiau ar ffurf pensiynau ac arian rhodd, a

(b) y cyfryw symiau ar ffurf darpariaeth ar gyfer y buddion hynny,

y darparwyd ar eu cyfer gan delerau ei benodiad neu o dan y telerau hynny.

(3) Os yw person yn peidio â bod yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro ac os yw'n ymddangos i'r Cynulliad fod amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn iawn bod y person hwnnw'n cael ei ddigolledu, caiff y Cynulliad dalu i'r person hwnnw unrhyw swm sy'n briodol yn ei farn ef.

(4) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11) (swyddi etc y mae adran 1 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt) yn y rhestr "Offices" mewnosoder yn y mannau priodol—

"Public Services Ombudsman for Wales"

"Acting Public Services Ombudsman for Wales".

(5) Rhaid i'r Cynulliad dalu i Weinidog y Gwasanaeth Sifil, ar y cyfryw adegau a gyfarwyddir gan y Gweinidog, y cyfryw symiau y bydd y Gweinidog yn penderfynu arnynt mewn perthynas ag unrhyw gynnydd y gellir ei briodoli i is-baragraff (4) yn y symiau sy'n daladwy o arian a ddarperir gan y Senedd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11).

(6) Mae symiau y mae eu hangen i wneud taliadau o dan is-baragraffau (1), (2) a (5) i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

*Darpariaethau ariannol arbennig*

10 (1) Mae unrhyw symiau sy'n daladwy gan yr Ombwdsmon o ganlyniad i dorri unrhyw ddyletswydd gontractiol neu ddyletswydd arall wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon, i gael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

(2) Ac mae is-baragraff (1) yn gymwys pa un a yw'r toriad yn digwydd oherwydd gweithred neu anweithred ar ran—

(a) yr Ombwdsmon,

(b) aelod o staff yr Ombwdsmon, neu

(c) unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i arfer swyddogaethau.

(3) Caiff yr Ombwdsmon gadw incwm sy'n deillio o ffioedd a godir yn rhinwedd adrannau 15(7), 19(6), 25(8) a 27(2) (yn hytrach na'i dalu i Gronfa Gyfunol Cymru) i'w ddefnyddio mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau a roddir neu a osodir gan y Ddeddf hon.

*Staff*

11 (1) Caiff yr Ombwdsmon benodi'r staff hynny sy'n angenrheidiol i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau, ar y cyfryw delerau ac amodau a benderfynir ganddo.

(2) Ni chaniateir ystyried unrhyw aelod o staff yr Ombwdsmon yn berson sy'n dal swydd o dan Ei Mawrhydi neu'n cyflawni unrhyw swyddogaethau ar ran y Goron.

(3) Ond mae pob aelod o'i staff i'w drin yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 (p.6).

(4) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (swyddi etc y mae adran 1 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt) yn y rhestr "other bodies" mewnosoder yn y man priodol—

"Employment as a member of the staff of the Public Services Ombudsman for Wales.".

(5) Rhaid i'r Ombwdsmon dalu i Weinidog y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau a gyfarwyddir gan Gweinidog, y cyfryw swm y bydd y Gweinidog yn penderfynu arno mewn perthynas ag unrhyw gynnydd y gellir ei briodoli i is-baragraff (4) yn y symiau sy'n daladwy o arian a ddarperir gan y Senedd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

*Cynghorwyr*

12 (1) Caiff yr Ombwdsmon geisio cyngor gan unrhyw berson sydd, yn ei farn ef, yn gymwys i'w roi iddo, i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau.

(2) Caiff yr Ombwdsmon dalu i unrhyw berson y cafodd yr Ombwdsmon gyngor ganddo o dan is-baragraff (1) y ffioedd neu'r lwfansau hynny a benderfynir gan yr Ombwdsmon.

*Dirprwyo*

13 (1) Caniateir i unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon gael eu cyflawni ar ran yr Ombwdsmon—

(a) gan unrhyw berson a awdurdodir gan yr Ombwdsmon i wneud hynny, a

(b) i'r graddau a awdurdodwyd.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar gyfrifoldeb yr Ombwdsmon i gyflawni unrhyw swyddogaeth o'r fath.

(3) Mae person a awdurdodir gan yr Ombwdsmon o dan is-baragraff (1) i'w drin yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 (p.6).

(4) Ni chaniateir gwneud unrhyw drefniadau rhwng yr Ombwdsmon, ar y naill law, a Gweinidogion Cymru (neu Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru), ar y llaw arall, ar gyfer—

(a) arfer unrhyw swyddogaethau'r naill gan y llall,

(b) arfer unrhyw swyddogaethau Gweinidogion Cymru (neu Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru) gan aelodau o staff yr Ombwdsmon,

(c) arfer unrhyw swyddogaethau'r Ombwdsmon gan aelodau o staff Llywodraeth Cymru, neu

(d) darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol gan y naill ar gyfer y llall.

(5) Mae is-baragraff (4) yn gymwys er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth a fyddai, fel arall, yn caniatáu i drefniadau o'r fath gael eu gwneud.

*Adroddiadau blynyddol ac eithriadol*

14 (1) O ran yr Ombwdsmon—

(a) rhaid iddo baratoi adroddiad cyffredinol bob blwyddyn ynghylch cyflawni ei swyddogaethau ("*adroddiad blynyddol*");

(b) caiff baratoi unrhyw adroddiad arall mewn perthynas â'i swyddogaethau sydd, yn ei farn ef, yn briodol ("*adroddiad eithriadol*").

(2) Caniateir i adroddiad a baratoir o dan y paragraff hwn gynnwys unrhyw argymhellion cyffredinol sydd gan yr Ombwdsmon sydd wedi codi wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i'r Ombwdsmon osod copi o bob adroddiad a baratoir o dan y paragraff hwn gerbron y Cynulliad ac ar yr un pryd rhaid iddo anfon copi at Lywodraeth Cymru ac (os yw'r adroddiad yn adroddiad eithriadol) rhaid iddo anfon copi ohono at unrhyw awdurdodau rhestredig (ac eithrio Llywodraeth Cymru) sydd, yn ei farn ef, yn briodol.

(4) Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o unrhyw adroddiad a baratoir o dan y paragraff hwn at unrhyw bersonau eraill sydd, yn ei farn ef, yn briodol.

(5) Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi unrhyw adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan y paragraff hwn, a chaiff y Cynulliad hefyd gyhoeddi'r adroddiad.

(6) Rhaid i'r Ombwdsmon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan y Cynulliad mewn perthynas ag adroddiad blynyddol.

(7) Os bydd adroddiad a baratoir o dan y paragraff hwn—

(a) yn crybwyll enw unrhyw berson heblaw awdurdod rhestredig, darparwr gwasanaethau iechyd preifat, darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn perthynas â mater y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddo o dan y Ddeddf hon,

(b) yn cynnwys unrhyw fanylion sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud unrhyw berson o'r fath yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, eu hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad,

rhaid peidio â chynnwys yr wybodaeth honno mewn fersiwn o'r adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan is-baragraff (3), a anfonir at berson o dan is-baragraff (3) neu (4) neu a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon o dan is-baragraff (5), yn ddarostyngedig i is-baragraff (8).

(8) Nid yw is-adran (7) yn gymwys mewn perthynas â fersiwn o'r adroddiad os bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau unrhyw bersonau sydd, yn ei farn ef yn briodol, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad.

*Amcangyfrifon*

15 (1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r flwyddyn ariannol gyntaf, rhaid i'r Ombwdsmon baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau ei swyddfa.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi i'r pwyllgor neu i'r pwyllgorau Cynulliad a nodir yn rheolau sefydlog y Cynulliad.

(3) Rhaid i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau archwilio amcangyfrif a gyflwynwyd yn unol ag is-baragraff (2) ac yna rhaid gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau a ystyrir yn briodol.

(4) Cyn gosod gerbron y Cynulliad amcangyfrif gydag addasiadau a gyflwynwyd yn unol ag is-baragraff (2), rhaid i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau—

(a) ymgynghori â'r Ombwdsmon, a

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wna'r Ombwdsmon.

(5) Y flwyddyn ariannol gyntaf yw'r flwyddyn ariannol y penodir y person cyntaf i'w benodi'n Ombwdsmon.

*Cyfrifon*

16 (1) Rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; a

(b) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, baratoi cyfrifon yn unol â chyfarwyddydau a roddir iddo gan y Trysorlys

(2) Mae'r cyfarwyddydau y caiff y Trysorlys eu rhoi o dan is-baragraff (1)(b) yn cynnwys cyfarwyddydau i baratoi cyfrifon sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol personau heblaw'r Ombwdsmon.

(3) Mae'r cyfarwyddydau y caiff y Trysorlys eu rhoi o dan is-baragraff (1)(b) yn cynnwys, yn benodol, gyfarwyddydau ynghylch—

(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y caiff ei chyflwyno;

(b) y dulliau a'r egwyddorion a fydd yn sail ar gyfer paratoi'r cyfrifon;

(c) yr wybodaeth ychwanegol (os o gwbl) sydd i fynd gyda'r cyfrifon.

*Archwilio*

17 (1) Rhaid i'r cyfrifon a gaiff eu paratoi gan yr Ombwdsmon ar gyfer blwyddyn ariannol gael eu cyflwyno ganddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) archwilio, ardystio a llunio adroddiad ar bob set o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y paragraff hwn, a

(b) heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl i'r cyfrifon gael eu cyflwyno, osod gerbron y Cynulliad gopi ohonynt fel y'u hardystiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghyd ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

(3) Wrth archwilio cyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y paragraff hwn rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn benodol, fodloni ei hun fod y gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithiol ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu.

*Swyddog cyfrifyddu*

18 (1) Yr Ombwdsmon yw'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa'r Ombwdsmon.

(2) Os na fydd yr Ombwdsmon yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu, caiff y Pwyllgor Archwilio ddynodi aelod o staff yr Ombwdsmon i fod yn swyddog cyfrifyddu am gyhyd ag y mae'r Ombwdsmon yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau.

(3) Os yw swydd yr Ombwdsmon yn wag ac os nad oes Ombwdsmon dros dro, caiff y Pwyllgor Archwilio ddynodi aelod o staff yr Ombwdsmon i fod yn swyddog cyfrifyddu am gyhyd ag y bydd swydd yr Ombwdsmon yn wag a bod dim Ombwdsmon dros dro.

(4) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, o ran cyfrifon a chyllid yr Ombwdsmon, y cyfrifoldebau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Archwilio.

(5) Yn y paragraff hwn mae cyfeiriadau at gyfrifoldebau yn cynnwys yn benodol—

(a) cyfrifoldebau o ran llofnodi cyfrifon,

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid yr Ombwdsmon, ac

(c) cyfrifoldebau am y modd darbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddir adnoddau'r Ombwdsmon.

(6) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys cyfrifoldebau i'r canlynol—

(a) y Cynulliad, Gweinidogion Cymru neu'r Pwyllgor Archwilio, neu

(b) Tŷ'r Cyffredin neu ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

(7) Os gofynnir iddo wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, caiff y Pwyllgor Archwilio—

(a) gymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifyddu ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a

(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a throsglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw unrhyw dystiolaeth a gafwyd.

*Archwiliadau i'r defnydd o adnoddau*

19 (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau ynghylch pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddiodd yr Ombwdsmon ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.

(2) Ni chaniateir dehongli is-baragraff (1) yn un sy'n rhoi hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gwestiynu teilyngdod amcanion polisi'r Ombwdsmon.

(3) Wrth benderfynu sut i gyflawni swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y paragraff hwn, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried barn y Pwyllgor Archwilio ynghylch yr archwiliadau y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru eu cynnal.

(4) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiad am ganlyniadau unrhyw archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y paragraff hwn.

*Archwiliadau gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol*

20 (1) At y diben o alluogi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau i gyllid yr Ombwdsmon, a llunio adroddiad ynghylch hynny ar gyfer y Senedd, mae gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) hawl mynediad ar bob adeg resymol i bob dogfen o'r fath sydd ym meddiant yr Ombwdsmon, neu Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu o dan reolaeth yr Ombwdsmon, neu Archwilydd Cyffredinol Cymru, y gall y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ei gwneud rhesymol ofynnol at y diben hwnnw, a

(b) hawl i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal unrhyw un neu ragor o'r dogfennau hyn neu sy'n atebol am unrhyw un neu ragor o'r dogfennau hyn, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, o fewn rheswm, yn eu hystyried yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

(2) Rhaid i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, a

(b) ystyried unrhyw waith perthnasol a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu a wneir ganddo,

cyn i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol weithredu yn unol ag is-baragraff (1) neu gynnal archwiliad o ran yr Ombwdsmon o dan adran 7 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 (p.44) (archwiliadau darbodaeth etc).

*Pwerau atodol*

21 Caiff yr Ombwdsmon wneud unrhyw beth (gan gynnwys caffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau) a fwriedir i'w hwyluso i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws â chyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n gysylltiedig â hynny.

## ATODLEN 2
*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 13)*

## MATERION EITHRIEDIG: RHAN 3

1 Camau gweithredu a gymerir gan Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru, neu gydag awdurdod Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru neu gomisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru at y diben canlynol—

(a) ymchwilio i drosedd neu atal trosedd, neu

(b) gwarchod diogelwch y Wladwriaeth.

2 Cychwyn neu gynnal achosion gerbron llys ag awdurdodaeth gymwys.

3 Camau gweithredu a gymerir gan aelod o staff gweinyddol tribiwnlys perthnasol cyn belled ag a gwneir hynny ar gyfarwyddyd neu ar awdurdod (boed yn ddatganedig neu'n oblygedig), person sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r tribiwnlys.

4 Camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â phenodiadau, diswyddiadau, tâl, disgyblaeth, blwydd-daliadau neu faterion personél eraill (heblaw gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a phenodi) mewn perthynas â'r canlynol—

(a) gwasanaeth mewn swydd neu gyflogaeth o dan y Goron neu o dan awdurdod rhestredig;

(b) gwasanaeth mewn swydd neu gyflogaeth, neu o dan gontract am wasanaethau, y mae'r pŵer i gymryd camau gweithredu yn ei gylch mewn materion personél, neu i benderfynu ar gamau gweithredu neu i gymeradwyo camau gweithredu i'w cymryd mewn materion personél, wedi'i freinio yn Ei Mawrhydi neu mewn awdurdod rhestredig.

5 Camau gweithredu sy'n ymwneud â phenderfynu ar swm rhent.

6 (1) Camau gweithredu a gymerir gan awdurdod a bennir yn is-baragraff (2) ac sy'n gysylltiedig â'r canlynol—

(a) rhoi cyfarwyddyd, neu

(b) ymddygiad, cwricwlwm, trefniadaeth fewnol, rheoli neu ddisgyblu,

mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru.

(2) Yr awdurdodau yw—

(a) awdurdod lleol yng Nghymru;

(b) panel apêl derbyn;

(c) corff llywodraethu ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol;

(d) panel apêl gwahardd.

7 Camau gweithredu o dan—

(a) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977,

(b) Rhan 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990,

(c) Rhan 1 o Ddeddf Iechyd 1999 (ac eithrio adrannau 33 i 38), neu

(d) Rhan 1 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003,

pan fo'r camau gweithredu yn destun ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 neu wedi bod yn destun ymchwiliad o dan y Ddeddf honno.

8 Camau gweithredu a gymerir gan Fwrdd Iechyd Lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan—

(a) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaeth a Thribiwnlys) 1992 neu unrhyw offeryn sy'n disodli'r rheoliadau hynny;

(b) rheoliadau a wneir o dan adran 38, 39, 41 neu 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn rhinwedd adran 17 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49) (ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau).

## ATODLEN 3
*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 30)*

## AWDURDODAU RHESTREDIG

*Llywodraeth Cymru*

Llywodraeth Cymru

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Llywodraeth leol, tân a'r heddlu*

Awdurdod lleol yng Nghymru.

Bwrdd ar y cyd y mae ei awdurdodau cyfansoddol oll yn awdurdodau lleol yng Nghymru.

Awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

Comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

*Yr Amgylchedd*

Y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Y Corff Adnoddau Naturiol yng Nghymru.

Asiantaeth yr Amgylchedd.

Y Comisiynwyr Coedwigaeth.

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

*Iechyd a gofal cymdeithasol*

Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.

Bwrdd Iechyd Lleol.

Ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru.

Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw'n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu'n bennaf.

Cyngor Iechyd Cymuned.

Darparwr annibynnol yng Nghymru.

Darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru.

Person â swyddogaethau a roddir gan reoliadau a wneir o dan adran 113(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43).

*Tai*

Landlord cymdeithasol yng Nghymru.

*Addysg a hyfforddiant*

Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Panel apêl derbyn a gyfansoddwyd yn unol â rheoliadau o dan adran 94(5) neu 95(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

Corff llywodraethu unrhyw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i'r graddau y mae'n gweithredu mewn cysylltiad â derbyn disgyblion i'r ysgol neu fel arall yn cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Panel apêl gwahardd a gyfansoddwyd yn unol â rheoliadau o dan adran 52 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

*Y celfyddydau a hamdden*

Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyngor Chwaraeon Cymru.

*Trethi*

Awdurdod Refeniw Cymru.

*Amrywiol*

Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

Byrddau Cadwraethwyr Coity Walia.

Comisiynydd y Gymraeg.

Awdurdodau harbwr yng Nghyrmu (ac mae i "awdurdod harbwr" yr ystyr a roddir yn adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995).

Awdurdodau porthladd yng Nghymru (ac ystyr "awdurdod porthladd" yw awdurdod harbwr, neu os nad oes awdurdod o'r fath, y person sydd â rheolaeth am weithrediad y porthladd).

Cymwysterau Cymru.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Bwrdd Cadwraethwyr Towyn Trewan.

Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

## ATODLEN 4

*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 42)*

## MATERION EITHRIEDIG: RHAN 4

1 Cychwyn neu gynnal achosion gerbron llys ag awdurdodaeth gymwys.

2 Camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â phenodiadau, diswyddiadau, tâl, disgyblaeth, blwydd-daliadau neu faterion personél eraill.

ATODLEN 5
*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 74)*

DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Safonau Gofal 2000*

1 I fewnosod adran newydd 75ZB—

**"75ZB Working with the Public Services Ombudsman for Wales**

(1) This section applies where it appears to the Commissioner that a case which he is—

(a) examining in accordance with regulations made under section 74, or

(b) considering whether to examine in accordance with such regulations,

relates to or raises a matter which could be the subject of an investigation by the Public Services Ombudsman for Wales (the 'connected matter').

(2) Where the Commissioner considers it appropriate, he must inform the Public Services Ombudsman for Wales about the connected matter.

(3) Where the Commissioner considers that the case also relates to or raises a matter which he is entitled to examine himself ('the children matter'), he must also if he considers it appropriate—

(a) inform the Public Services Ombudsman for Wales about the Commissioner's proposals for the examination of the case;

(b) consult the Public Services Ombudsman for Wales about those proposals.

(4) Where the Commissioner and the Public Services Ombudsman for Wales consider that they are entitled to examine, respectively, the children matter and the connected matter they may–

(a) co-operate with each other in the separate examination of each of those matters;

(b) act together in the examination of those matters; and

(c) prepare and publish a joint report containing their respective conclusions in relation to the matters they have each examined.

(5) Where the Commissioner considers—

(a) that the case is not one which relates to or raises a matter that he is entitled to examine himself, and

(b) that it is appropriate to do so,

he must inform the person whose case it is, or another person interested in it that he thinks fit, about how to secure the referral to the Public Services Ombudsman for Wales of the connected matter.”.

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*

2 I fewnosod adran newydd 29A—

**“29A Gweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

(1) Pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgynghori â’r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 64 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016, caiff yr Ombwdsmon a’r Archwilydd Cyffredinol—

(a) cydweithredu â’i gilydd mewn perthynas â’r mater,

(b) cynnal ymchwiliad ar y cyd i’r mater, ac

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â’r ymchwiliad.”.

# Atodiad B: Drafft Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Nodiadau Esboniadol

Sail y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ond mae rhai adrannau newydd wedi'u hychwanegu. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn cwmpasu'r adrannau "newydd" hynny yn unig.

**RHAN 2**

**Adran 4 – Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun**

Mae'r pŵer hwn yn caniatâu i'r Ombwdsmon ymchwilio i fater pa un a yw'r Ombwdsmon wedi cael cwyn ai peidio. Felly, mae'n caniatâu i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad.

Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y modd y dehonglir y Bil – pan gaiff y gair "ymchwiliad" ei ddefnyddio yn Rhan 3, gall olygu naill ai ymchwiliad o dan adran 3 neu ymchwiliad o dan adran 4. Er enghraifft, mae adran 17 yn gymwys "mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir o dan y Rhan hon". Felly, mae adran 17 yn gymwys mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 3 yn ogystal ag ymchwiliad o dan adran 4.

Fel y pŵer o dan adran 3, dim ond i ymchwilio i faterion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4. Mae adrannau 10 i 14 yn nodi'r materion y caniateir ymchwilio iddynt.

O dan adran 4, caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i faterion a ddigwyddodd cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, neu ar ôl hynny.

Ystyr Cydsyniad Brenhinol yw pan fydd y Frenhines yn cytuno'n ffurfiol i wneud y Bil yn Ddeddf. Mae dyddiad y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer pob Deddf i'w gael ar ddechrau'r Ddeddf, ar ôl y teitl hir.

**Adran 5 – Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

Rhaid i'r Ombwdsmon sefydlu a chyhoeddi meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4 i ymchwilio i fater. Wrth benderfynu pa un ai i ddefnyddio'r pŵer yn adran 4, rhaid i'r Ombwdsmon fodloni'r meini prawf.

Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu beth y dylai'r meini prawf eu cynnwys, ond rhaid i'r meini prawf nodi'r dystiolaeth y bydd ei hangen cyn y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 4.

**Adran 7 – Pwy sy'n cael cwyno**

Dim ond "aelod o'r cyhoedd" sy'n cael gwneud cwyn i'r Ombwdsmon. Mae'r adran hon yn eithrio dau gategori o berson rhag bod yn "aelod o'r cyhoedd":

- ni chaniateir i bersonau sy'n gweithredu yn rhinwedd awdurdod rhestredig wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan y Rhan hon
- ni chaniateir i bersonau sy'n gweithredu yn rhinwedd darparwr gwasanaethau iechyd preifat wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan y Rhan hon pan fo'r gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat.


Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro rhywun sydd, er enghraifft, yn gyflogai awdurdod rhestredig rhan gwneud cwyn, ar yr amod bod y person yn gwneud y gŵyn fel unigolyn.

**Adran 8 – Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon**

Os yw person yn dymuno gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, rhaid i'r gŵyn fodloni gofynion yr adran hon.

Ond nid yw adran 8 yn pennu union ofynion cwyn. Bydd yr union ofynion yn cael eu nodi mewn canllawiau i'w cyhoeddi gan yr Ombwdsmon. Felly, dylai pobl sy'n dymuno gwneud cwyn ddarllen y canllawiau, a fydd yn eu helpu.

Os bydd y canllawiau yn pennu y caiff cwyn ei gwneud ar lafar, mae adran 8 yn pennu gofynion ychwanegol. Gellir darlunio'r gofynion ychwanegol hyn fel a ganlyn:




### Adran 10 – Materion y caniateir ymchwilio iddynt

Mae adrannau 10(1)(d) a (2) yn caniatâu i'r Ombwdsmon ymchwilio i faterion penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y dehongliad o'r Bil – bob tro y caiff y

gair “ymchwiliad” ei ddefnyddio yn Rhan 3, caiff gynnwys ymchwiliad i wasanaethau iechyd preifat. Er enghraifft, byddai’r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad o ymchwiliadau o dan adran 19 yn gymwys pe byddai’r Ombwdsmon wedi ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat.

Yn adran 76, diffinnir “gwasanaethau iechyd preifat” fel a ganlyn:

- (a) triniaeth feddygol, gan gynnwys gofal nyrsio, a ddarperir mewn ysbyty preifat; a
- (b) triniaeth feddygol breifat, gan gynnwys gofal nyrsio, a ddarperir mewn ysbyty GIG.

Mae adran 10(2) yn diffinio’r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat. Yr amgylchiadau hynny yw:

- (a) rhaid i’r person fod wedi cael triniaeth feddygol ar ffurf camau gweithredu perthnasol gan awdurdod rhestredig (diffinnir camau gweithredu perthnasol yn adran 10(4) a rhestrir yr holl awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3);
- (b) rhaid i’r person hefyd fod wedi cael gwasanaethau iechyd preifat; ac
- (c) ni all yr Ombwdsmon ymchwilio i’r camau gweithredu perthnasol yn effeithiol nac yn gyflawn heb iddo hefyd ymchwilio i’r gwasanaethau iechyd preifat.

Felly, mae adran 10(2) yn gweithredu fel ffrwyn ar y pŵer i ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, gan ei bod yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y caniateir ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat.

Mae adrannau 11 i 14 yn gosod cyfyngiadau pellach ar y materion y caniateir ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, mae’r materion yn adrannau 10(1) a 10(2) yn cael effaith sylweddol ar y dehongliad o’r Bil. O’i ddarllen ar y cyd â’r pwerau yn adrannau 3 a 4, caiff yr Ombwdsmon:

- 1 ymchwilio i awdurdod rhestredig yn dilyn cwyn (gan ddefnyddio adran 3 neu adran 4);
- 2 ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat yn dilyn cwyn (gan ddefnyddio adran 3 neu adran 4);
- 3 ymchwilio i awdurdod rhestredig pan na fu unrhyw gŵyn (gan ddefnyddio adran 4);

- 4 ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat pan na fu unrhyw gŵyn (gan ddefnyddio adran 4).

(Ym mhob achos, dim ond os bodlonir y meini prawf yn adran 5 y ceir defnyddio'r pŵer yn adran 4.)

**Adran 16 – Gweithdrefn ymchwilio**

Mae adran 16(2) yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i gychwyn ymchwiliad. Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio (hynny yw, cynnig sy'n cynnwys y rhesymau am yr ymchwiliad a'r modd y bodlonir y meini prawf yn adran 5).

Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle na fydd yn ymarferol i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio. Er enghraifft, os yw'r Ombwdsmon eisoes wedi paratoi cynnig ymchwilio ynghylch ymchwiliad i Gorff Iechyd X, a'r ymchwiliad hwnnw'n amlygu materion tebyg o ran Corff Iechyd Y, efallai na fydd yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi a chyflwyno cynnig ymchwilio newydd, os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu ymestyn yr ymchwiliad i gynnwys Corff Iechyd Y. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hynny, rhaid i'r Ombwdsmon roi cyfle i Gorff Iechyd Y (ac unrhyw berson arall y'i gwneir yn hysbys gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol yn achos y mater) wneud sylwadau ar yr ymchwiliad.

O dan adrannau 16(4) a (5), rhaid i'r Ombwdsmon bennu gofynion gweithdrefnol pellach i'w dilyn pan fydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pŵer yn adran 4 i gychwyn ymchwiliad. Rhaid i'r cyfryw ofynion gynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi cyfle i'r rhai yr ymchwilir iddynt wneud sylwadau, pa un a ydynt wedi cael cynnig ymchwilio ai peidio.

**Adran 23 – Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i wasanaethau iechyd preifat**

Os daw'r Ombwdsmon i'r casgliad bod person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r gwasanaethau iechyd preifat, ac os caiff casgliadau'r Ombwdsmon eu cyhoeddi o dan adran 19(4), yna rhaid i'r Ombwdsmon roi i'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat gyfle rhesymol i hysbysu'r Ombwdsmon o'r canlynol:

- (a) y camau gweithredu y mae'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi'u cymryd (neu'n bwriadu eu cymryd); a

- (b) o fewn pa gyfnod y mae camau gweithredu o'r fath i'w cymryd (oni bai eu bod eisoes wedi'u cymryd).

Mae adran 23(3) yn gymhelliant i'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat gymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i gasgliadau'r Ombwdsmon. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i awdurdod rhestredig roi sylw i unrhyw gamau gweithredu (da neu ddrwg) a gymerwyd gan y darparwr gwasanaethau iechyd preifat pan fo'r awdurdod rhestredig yn ystyried trefnu contract am wasanaethau gyda'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat.

Mae'r ddyletswydd i roi sylw yn gofyn am y canlynol:

- (a) bod yn rhaid i'r awdurdod rhestredig fod yn ymwybodol o'i ddyletswydd i roi sylw,
- (b) bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni cyn y caiff y penderfyniad ei wneud ac ar yr adeg y caiff y penderfyniad ei wneud; mae'n golygu dull ymwybodol o weithredu a chyflwr meddwl effro,
- (c) bod yn rhaid i'r ddyletswydd gael ei harfer yn ei chrynswth, yn drylwyr a chyda meddwl agored; nid mater o dicio blychau mohoni,
- (d) bod y ddyletswydd yn un na ellir ei dirprwyo; bydd y ddyletswydd bob amser ar yr awdurdod rhestredig,
- (e) bod y ddyletswydd yn un barhaus,
- (f) ei bod yn arfer da i awdurdod rhestredig gadw cofnod digonol sy'n dangos ei fod mewn gwirionedd wedi ystyried y ddyletswydd a'r cwestiynau perthnasol.

**Adran 29**

Mae adran 29 yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon fynnu costau oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat pan fo'r darparwr wedi gwneud y canlynol:

- rhwystro'r Ombwdsmon, neu
- wedi gwneud rhywbeth a fyddai'n gyfystyr â dirmyg llys pe byddai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys.

Y costau y gellir eu hawlio yw'r costau ychwanegol yr aeth yr Ombwdsmon iddynt o ganlyniad i'r cyfryw gamau gweithredu gan y darparwr.

Cyn mynnu costau o'r fath, rhaid i'r Ombwdsmon roi hysbysiad priodol i'r darparwr, sy'n cynnwys rhoi gwybodaeth am bethau fel manylion cyfanswm y costau, dyddiad talu, a hawl y darparwr i apelio i'r llys ynadon.

**Adran 34 – Ymdrin â chwynion: datganiad o egwyddorion**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 ar gyfer ymdrin â chwynion. Rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori ar ddatganiad cyntaf o'r fath ac unrhyw newidiadau perthnasol a rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn cyhoeddi'r rheini.

Yn ôl is-adran (12) ystyr "gweithdrefnau ymdrin â chwynion" yw gweithdrefnau awdurdodau rhestredig sy'n archwilio cwynion neu sy'n adolygu penderfyniadau mewn perthynas â chamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig lle mae'r mater dan sylw yn un y ceir gwneud cwyn i'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ef, ac ymchwilio iddo o dan y Bil.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod rhestredig fod â gweithdrefn (neu weithdrefnau) ymdrin â chwynion o ran y camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod rhestredig hwnnw, a rhaid i'r gweithdrefnau hynny gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd. Mae is-adran (3) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig sydd â chyfrifoldeb statudol am weithdrefn ymdrin â chwynion mewn perthynas ag awdurdod rhestredig arall neu a weithredir gan awdurdod rhestredig arall, i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.

**Adran 35 - Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion**

Mae'r adran hon yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion "gweithdrefnau enghreifftiol" ar gyfer awdurdodau rhestredig. Rhaid i weithdrefnau enghreifftiol hefyd gydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon. Mae is-adran (6) yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau rhestredig a bennir o dan adran 36(1) gydymffurfio ag unrhyw newidiadau a gyhoeddir i'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, ond

mater i’r Ombwdsmon yw penderfynu a ddylai gyfarwyddo’r awdurdod rhestredig i ailgyflwyno disgrifiad o’i weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion o dan adran 38(1). Os bydd yr Ombwdsmon yn tynnu gweithdrefn enghreifftiol yn ôl, mae unrhyw fanylebau cysylltiedig o dan adran 36(1) yn peidio â chael effaith.

### Adran 36 – Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig

O dan yr adran hon caiff yr Ombwdsmon bennu unrhyw awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo. Rhaid i awdurdod rhestredig penodol fod â gweithdrefn ymdrin â chwynion sy’n cydymffurfio â’r weithdrefn enghreifftiol berthnasol. Pan fydd wedi’i bennu, rhaid i’r awdurdod rhestredig gyflwyno disgrifiad o’i weithdrefn ymdrin â chwynion, ar ôl rhoi ystyriaeth i’r weithdrefn enghreifftiol, o fewn chwe mis. Caiff yr awdurdod rhestredig, gyda chydsyniad yr Ombwdsmon, ddatgymhwyso agweddau ar y weithdrefn enghreifftiol os yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer ei gweithredu’n effeithiol. Caniateir dirymu’r manylebau ar unrhyw adeg.

### Adran 37 – Datganiadau o beidio â chydymffurfio

Mae’r adran hon yn galluogi’r Ombwdsmon i ddatgan nad yw gweithdrefn awdurdod rhestredig penodol ar gyfer ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â’r weithdrefn enghreifftiol berthnasol. Os nad yw’r awdurdod wedi’i enwi caiff yr Ombwdsmon ddatgan nad yw’r weithdrefn yn cydymffurfio â’r datganiad o egwyddorion. Rhaid i’r Ombwdsmon roi rhesymau ysgrifenedig a chaiff hefyd bennu newidiadau a fyddai’n caniatâu i’r datganiad gael ei dynnu’n ôl. Rhaid i’r awdurdod rhestredig anfon disgrifiad o’i weithdrefn ymdrin â chwynion at yr Ombwdsmon o fewn dau fis i’r datganiad, ar ôl ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio ac unrhyw newidiadau a bennir gan yr Ombwdsmon.

### Adran 38 – Cyflwyno disgrifiad o weithdrefn ymdrin â chwynion: cyffredinol

Mae’r adran hon yn rhoi pŵer i’r Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gyflwyno disgrifiad o’i weithdrefn ymdrin â chwynion cyn pen tri mis, neu gyfnod arall a gyfarwyddir gan yr Ombwdsmon. Mae cyfnod byrrach yn cael effaith hyd yn oed os nad yw’r cyfnod a roddir yn adran 36(3) neu 37(4) wedi dod i ben eto. Hefyd, mae’n ofynnol i awdurdod rhestredig ddarparu gwybodaeth

ychwanegol os gofynnir iddo wneud hynny. Mae hyn yn galluogi'r Ombwdsmon i gael disgrifiad digonol o weithdrefn ymdrin â chwynion awdurdod rhestredig.

**Adran 39 – Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: cymhwyso deddfiadau eraill**

Mae'r adran hon yn darparu nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 34(2) a (3) a 36(2) yn gymwys i'r graddau nad oes gan yr awdurdod rhestredig perthnasol y pwerau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau, er enghraifft, lle mae corff arall yn gyfrifol am benderfynu ar y gweithdrefnau sydd i'w dilyn, neu am eu cymeradwyo. Yn ogystal, nid yw'r dyletswyddau yn adrannau 34(2) a (3) a 36(2) yn gymwys i'r graddau eu bod yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall. Mae'r olaf yn berthnasol i'r graddau, er enghraifft, fod darn arall o ddeddfwriaeth yn darparu'n benodol ar wyneb y ddeddfwriaeth honno fod yn rhaid i weithdrefnau perthnasol awdurdod rhestredig fod yn gymwys mewn ffordd sy'n anghyson â'r dyletswyddau hyn, neu gynnwys darpariaeth sy'n anghyson â'r dyletswyddau hyn.

**Adran 40 – Gweithdrefnau ymdrin â chwynion: hybu arferion gorau etc**

Mae'r adran hon yn gosod dyletswyddau ar yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r modd y mae awdurdodau rhestredig yn ymdrin â chwynion, sef (1) monitro arferion, (2) hyrwyddo arferion gorau a (3) annog cydweithrediad a rhannu arferion gorau. Rhaid i awdurdodau rhestredig gydweithredu â'r Ombwdsmon wrth arfer y dyletswyddau hyn ac eithrio i'r graddau nad oes ganddynt y pwerau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd, neu fod y ddyletswydd yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad arall.

**RHAN 4**

**Adrannau 42 i 63**

Mae'r adrannau hyn yn ymwneud ag ymchwilio i ddarparwyr gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Cawsant eu diwygio ar hyd yr un llinellau â'r adrannau newydd a fewnosodwyd yn Rhan 4. Yn fwyaf penodol, mae Rhan 4 bellach yn cynnwys y canlynol:

- pŵer i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad pan nad oes cwyn wedi'i gwneud,

- dyletswydd ar yr Ombwdsmon i gyhoeddi meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn cynnal y cyfryw ymchwiliadau ar ei liwt ei hun,
- gofynion ynghylch y gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun
- dyletswydd ar yr Ombwdsmon i gyhoeddi canllawiau ynghylch sut i wneud cwyn, a gofynion penodol o ran cwynion llafar.

Ond nid yw'r holl newidiadau i Ran 3 wedi'u cynnwys yn Rhan 4. Er enghraifft, nid oes newid i'r rhestr o ddarparwyr y caniateir ymchwilio iddynt o dan Ran 4, ac nid oes newid ychwaith i'r materion y caniateir ymchwilio iddynt o dan Ran 4.

## RHAN 5

### Adran 65 – Cydweithio â phersonau penodol

Mae'r adran hon yn caniatâu i'r Ombwdsmon a "phersonau penodol" gydweithio mewn perthynas â materion penodol. Y personau penodol yw:

- Comisiynydd Plant Cymru;
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru;
- Comisiynydd y Gymraeg;
- unrhyw gomisiynydd neu gynghorydd statudol a grëwyd gan Ddeddf Cynulliad;
- rheoleiddwyr Cymru.

### Adran 66 – Cydlafurio â phersonau penodol

Mae'r adran hon yn caniatâu i'r Ombwdsmon a'r un personau penodol gydlafurio mewn perthynas â materion penodol.

### Adran 67 – Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r adran hon yn caniatâu i'r Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gydweithio mewn perthynas â materion penodol.

### Adran 71 – Strategaeth ar gyfer y Gymraeg

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Rhaid i'r strategaeth

gynnwys asesiad teg a rhesymol o'r angen i swyddogaethau'r Ombwdsmon gael eu cyflawni yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o bob agwedd ar waith yr Ombwdsmon, a pha anghenion sy'n codi o ran y Gymraeg.

Hefyd, rhaid i'r strategaeth bennu sut y mae'r Ombwdsmon yn bwriadu bodloni'r anghenion hynny. Mater i'r Ombwdsmon fydd penderfynu sut i fodloni'r anghenion hynny o ran y Gymraeg, ond nid yw hynny'n golygu bod gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn llawn. Mae'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i egwyddorion y gyfraith gyhoeddus (fel gweithredu'n rhesymol ac yn ddiduedd) a phroses graffu'r Cynulliad.

### Adran 72 – Adolygiad o'r Ddeddf

O ystyried y pwerau a'r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf, mae dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediad y Ddeddf ar ôl pum mlynedd. Rhaid gosod adroddiad o'r adolygiad gerbron y Cynulliad.

Ar ôl hynny, ceir cynnal adolygiadau pellach ar unrhyw adeg. Os cynhelir adolygiad pellach o'r fath, rhaid gosod adroddiad o'r adolygiad gerbron y Cynulliad.

### Adran 73 – Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym

Os bydd yr Ombwdsmon eisoes wedi cychwyn ymchwiliad o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 pan ddaw'r pwerau yn adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym, yna rhaid i'r Ombwdsmon barhau â'r ymchwiliad fel pe bai Deddf 2005 yn parhau mewn grym.

## ATODLEN 1

### Atodlen 1, paragraff 7 – Anghymhwyso

Os bydd yr Ombwdsmon yn peidio â bod yn Ombwdsmon, caiff ei atal rhag dal swyddi penodol (yn enwedig swyddi gydag awdurdodau rhestredig a darparwyr gwasanaethau iechyd preifat) am y "cyfnod perthnasol".

Mae'r cyfnod perthnasol yn dechrau pan fydd yr Ombwdsmon yn peidio â bod yn Ombwdsmon ac yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd yr Ombwdsmon â dal y swydd. Felly, er enghraifft, pe byddai'r Ombwdsmon wedi peidio â bod yn Ombwdsmon ar 9 Tachwedd 2017, caiff yr Ombwdsmon ei rwystro rhag dal swydd tan 31 Mawrth 2019.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn gymwys i Ombwdsmon dros dro hefyd pan fydd ei swydd fel Ombwdsmon dros dro yn dod i ben.

Fodd bynnag, caniateir i'r Ombwdsmon (neu Ombwdsmon dros dro) ddal swydd gydag awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaeth iechyd preifat cyn diwedd y cyfnod perthnasol os bydd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cydsynio i hynny.

**ATODLEN 3**

Mae'r rhestr o awdurdodau rhestredig wedi'i diweddaru i gynnwys awdurdodau newydd fel yr awdurdodau harbwr a phorthladd, Cymwysterau Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, dau Fwrdd Cadwraethwyr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac Awdurdod Refeniw Cymru.

Mae'r cyfeiriadau at awdurdodau rhestredig eraill wedi'u diweddaru, naill ai i roi iddynt eu henw diweddaraf neu i'w dileu lle nad ydynt yn bod bellach.

## Atodiad C: Telerau penodi a chyfnodau anghymhwyso ar gyfer amryw swyddi cyhoeddus yng Nghymru

| **Swydd (a thymor y swydd)** | **Rheolau o ran anghymhwyso ar ôl i dymor y swydd ddod i ben** |
|---|---|
| Fel y nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (7 mlynedd) | Fel y nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005: Caiff ei anghymhwyso rhag gweithio i/fel awdurdod rhestredig am 3 blynedd. |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (8 mlynedd) | Caiff ei anghymhwyso rhag gweithio i/fel awdurdod rhestredig tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd y person â bod yn Ombwdsmon. Ond caiff Corff Corfforaethol Senedd yr Alban gydsynio fel arall. |
| Fel y nodir ym Mil presennol Gogledd Iwerddon: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (7 mlynedd) | Fel y nodir ym Mil presennol Gogledd Iwerddon: Caiff ei anghymhwyso rhag gweithio i/fel awdurdod rhestredig tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y peidiodd y person â bod yn Ombwdsmon. Ond caiff Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon gydsynio fel arall. |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru (8 mlynedd) | Wedi'i anghymhwyso o swyddi penodol (fel gweithio i unrhyw berson y caiff ei gyfrifon ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu berson sy'n ddarostyngedig i archwiliad "gwerth am arian") am 2 flynedd. Ond nid yw'r anghymhwysiad yn gymwys i swyddi archwilydd cyffredinol cyfatebol yn Lloegr, yr |

| | |
|---|---|
| | Alban a Gogledd Iwerddon. |
| Gweinidogion Cymru | Wrth adael eu swyddi, rhaid i Weinidogion geisio cyngor gan y Pwyllgor Cynghori annibynnol ar Benodiadau Busnes am unrhyw benodiadau y maent yn awyddus i'w derbyn o fewn dwy flynedd ar ôl gadael eu swyddi, ar wahân i benodiadau di-dâl mewn sefydliadau anfasnachol neu benodiadau y mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl i'w rhoi. |
| Comisiynydd Plant Cymru (7 mlynedd)<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (7 mlynedd)<br>Comisiynydd y Gymraeg (7 mlynedd)<br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (4 blynedd, ond gellir ei ailbenodi unwaith) | Dim rheolau |